Llywodraeth EM

# Hawliau a rhwymedigaethau aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd

Ebrill 2016

# Hawliau a rhwymedigaethau aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag adran 7 o Ddeddf Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd 2015.

Ebrill 2016

OGL

© Hawlfraint y Goron 2016

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch i Information Policy Team, The National Archives, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfon neges e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle'r ydym wedi nodi bod gwybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint cysylltiedig.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom ni yn Europe Directorate, Foreign and Commonwealth Office, Llundain SW1A 2AH

ISBN Argraffu 9781474130653
ISBN y We 9781474130660

ID 06041601 04/16 55451 19585

Wedi'i argraffu ar bapur y mae o leiaf 75% ohono'n ffeibrau a ailgylchwyd

Argraffwyd yn y DU gan Williams Lea Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

# Cynnwys

| | |
|---|---|
| Pennod 1 – cyflwyniad | 5 |
| Pennod 2 – sut mae'r UE yn gweithio | 7 |
| Pennod 3 – y Farchnad Sengl – y pedwar rhyddid | 19 |
| Pennod 4 – cystadleuaeth a pholisi defnyddwyr | 31 |
| Pennod 5 – ymchwil a datblygu | 35 |
| Pennod 6 – amaethyddiaeth a physgodfeydd | 37 |
| Pennod 7 – iechyd a lles anifeiliaid a pholisi bwyd | 41 |
| Pennod 8 – trafnidiaeth | 45 |
| Pennod 9 – Undeb Economaidd ac Ariannol | 47 |
| Pennod 10 – undeb tollau a threthiant | 49 |
| Pennod 11 – hawliau cyflogaeth, peidio â gwahaniaethu a diogelu data | 51 |
| Pennod 12 – lles a nawdd cymdeithasol | 55 |
| Pennod 13 – yr amgylchedd, y newid yn yr hinsawdd ac ynni | 57 |
| Pennod 14 – polisi cydlyniant a chronfeydd strwythurol | 61 |
| Pennod 15 – dinasyddiaeth | 65 |
| Pennod 16 – hawliau sylfaenol | 67 |
| Pennod 17 - meysydd eraill (iechyd; addysg; diwylliant, twristiaeth a chwaraeon) | 71 |
| Pennod 18 – cyfiawnder a materion cartref | 73 |
| Pennod 19 – polisi tramor ac amddiffyn | 83 |
| Pennod 20 – masnach a buddsoddi | 87 |
| Pennod 21 – datblygu a chymorth dyngarol | 91 |
| Geirfa | 93 |

# Pennod 1 – cyflwyniad

1.1 Mae aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd (UE) yn creu hawliau a rhwymedigaethau: i'r DU fel gwladwriaeth, i ddinasyddion unigol, ac i fusnesau a sefydliadau eraill. Mae hawliau a rhwymedigaethau trawsbynciol, fel hawl y DU i gael llais wrth wneud cyfreithiau'r UE, a'i rhwymedigaeth i gydymffurfio â nhw ar ôl cytuno arnynt. Mae hawliau a rhwymedigaethau'n codi hefyd mewn meysydd polisi penodol gan gynnwys rheolau'r Farchnad Sengl a chyfiawnder a materion cartref ymysg pethau eraill.

1.2 Y papur hwn yw'r ail ran a'r rhan olaf o'r adroddiad y mae'r Llywodraeth yn ei gyhoeddi i gwrdd â'r gofyniad yn adran 7(1) o Ddeddf Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd 2015. Trefnwyd i'r rhan gyntaf, 'Dewisiadau eraill yn lle aelodaeth: modelau posibl i'r Deyrnas Unedig y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd', fod ar gael ar 2 Mawrth 2016.[1]

1.3 Pwrpas y papur hwn yw egluro'r prif hawliau a rhwymedigaethau sy'n codi o aelodaeth y DU o'r UE. Nid yw'n cynnwys pob maes ac nid yw'n ceisio ymdrin â phob un o'r hawliau a rhwymedigaethau sy'n codi o dan gyfraith yr UE. Yn hytrach, mae'n ceisio cynnig trosolwg cytbwys ar yr hawliau a rhwymedigaethau pwysicaf.

---

1 'Dewisiadau eraill yn lle aelodaeth: modelau posibl i'r Deyrnas Unedig y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd', 2 Mawrth 2016. Ar gael ar GOV.UK.

# Pennod 2 – sut mae'r UE yn gweithio

2.1 Mae'r UE yn sefydliad rhyngwladol sydd wedi'i ffurfio o 28 o wledydd Ewropeaidd, a elwir weithiau'n Aelod-wladwriaethau, sydd â phoblogaeth gyda'i gilydd o 508 miliwn o bobl. Mae'r DU yn aelod ac fe ymunodd ym 1973 ochr yn ochr ag Iwerddon a Denmarc.

2.2 Yr unig bwerau sydd gan yr UE yw'r rhai y mae ei aelodau'n penderfynu eu rhoi iddo.[2] Mae'r DU ac Aelod-wladwriaethau eraill wedi rhoi pwerau i'r UE i wneud gwahanol fathau o gyfreithiau sy'n effeithio arnyn nhw a'u dinasyddion, ond o dan amodau penodol. Mae'r DU yn gallu pleidleisio ar y cyfreithiau hyn, a dylanwadu ar y canlyniad terfynol. Mae nifer o reolau ac egwyddorion hefyd sy'n pennu pa bryd ac ym mha ffordd y gall yr UE weithredu, yr amcanion y mae'n rhaid iddo eu dilyn a sut y cytunir ar gyfreithiau a phenderfyniadau.

2.3 Yn yr adrannau sy'n dilyn, rydym yn egluro sut mae'r UE yn gweithio ac yn amlinellu'r hawliau a rhwymedigaethau trawsbynciol sy'n codi i'r DU o ganlyniad i'n haelodaeth.

## Sefydliadau'r UE

Mae nifer o sefydliadau gan yr UE sydd â rhan mewn gwneud penderfyniadau a chyfreithiau'r UE sy'n gymwys i'r DU. Mae'r DU un ai wedi'i chynrychioli ar bob un ohonynt, neu'n gallu enwebu aelodau iddynt. Rhaid i'r UE ddilyn y rheolau sydd yng Nghytuniadau'r UE wrth wneud cyfreithiau. Mae'r cytuniadau hyn yn darparu gwahanol fecanweithiau ar gyfer cytuno ar wahanol fathau o gyfreithiau. Mae llais gan y DU ac mae'n hyrwyddo buddiant cenedlaethol y DU. Ceir egwyddorion craidd sy'n pennu sut y bydd cyfraith yr UE yn cael ei chymhwyso yn y DU ac mewn Aelod-wladwriaethau eraill. Ond mae'r DU hefyd wedi negodi nifer o eithriadau sy'n rhoi statws arbennig iddi o fewn yr UE.

2.4 Mae'r DU un ai wedi'i chynrychioli ym mhob un o'r sefydliadau sydd â rhan mewn penderfyniadau a chyfreithiau'r UE sy'n effeithio ar y DU, neu mae'n gallu enwebu aelodau iddynt.[3]

2.5 Mae'r Cyngor Ewropeaidd yn cynnwys penaethiaid gwladwriaeth neu lywodraeth y 28 o Aelod-wladwriaethau'r UE, a Phrif Weinidog y DU yn eu plith. Mae'n gwneud penderfyniadau strategol ar gyfeiriad cyffredinol yr UE ac ar flaenoriaethau pwysig, fel y ffyrdd o ymateb i argyfyngau. Bydd y Cyngor Ewropeaidd yn cytuno ar y rhan fwyaf o faterion drwy

---

[2] Erthyglau 5 a 13 o'r Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd.

[3] Mae Erthyglau 13 i 19 o'r Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd yn amlinellu rôl sefydliadau'r UE a sut maent yn gwneud penderfyniadau.

gonsensws, ac mae hyn yn golygu bod y DU a phob Aelod-wladwriaeth yn gallu rhoi feto ar yr hyn a gytunir. Mae'n cael ei gadeirio gan Lywydd y Cyngor Ewropeaidd, sy'n gwasanaethu am dymor o ddwy flynedd a hanner, y gellir ei adnewyddu unwaith. Llywydd presennol y Cyngor Ewropeaidd yw Donald Tusk, cyn-Brif Weinidog Gwlad Pwyl. Mae'r DU ac Aelod-wladwriaethau eraill yr UE yn y Cyngor Ewropeaidd yn ethol Llywydd y Cyngor Ewropeaidd drwy system Pleidleisio drwy Fwyafrif Cymwysedig.[4]

2.6 Mae Cyngor Gweinidogion Cyngor yr Undeb Ewropeaidd yn cynnwys gweinidogion llywodraeth o'r DU ac Aelod-wladwriaethau eraill. Ei brif rôl yw ystyried a phleidleisio ar gyfreithiau'r UE a mesurau eraill. Mae'n chwarae rhan hefyd wrth benderfynu ar gyllideb yr UE drwy lunio a chydgysylltu polisi. Mae'n gwneud y rhan fwyaf o'i benderfyniadau drwy fwyafrif cymwysedig. Y 'Cyngor' yw'r enw a ddefnyddir wrth gyfeirio ato o hyn ymlaen. Bydd pob un o'r Aelod-wladwriaethau'n ymgymryd â Llywyddiaeth y Cyngor yn ei thro.

2.7 Bydd Gweinidogion Llywodraeth y DU yn mynychu gwahanol gyfarfodydd y Cyngor yn ôl y pynciau sy'n cael eu trafod i gyfleu safbwynt cenedlaethol y DU a sicrhau bod buddiannau'r DU yn cael eu hystyried. Er enghraifft, bydd yr Ysgrifennydd Tramor yn cynrychioli'r DU yn y Cyngor Materion Tramor a bydd Canghellor y Trysorlys yn cymryd sedd y DU yn y Cyngor Materion Economaidd ac Ariannol. Mae gweision sifil o Aelod-wladwriaethau'r UE yn paratoi ar gyfer y cyfarfodydd gweinidogol hyn drwy weithgorau a phwyllgorau ffurfiol.

2.8 Yn y rhan fwyaf o achosion, mae Senedd Ewrop yn rhannu cyfrifoldeb â'r Cyngor am wneud cyfreithiau'r UE a chytuno ar gyllideb yr UE, er bod pwerau penderfynu ehangach gan y Cyngor. Mae 751 o aelodau (ASEau) yn y Senedd sydd wedi'u hethol yn uniongyrchol ar draws yr 28 o Aelod-wladwriaethau i wasanaethu am bum mlynedd. Mae 73 o ASEau gan y DU. Mae hawl gan ddinasyddion y DU a dinasyddion gwledydd eraill yr UE i bleidleisio dros ASE yn yr Aelod-wladwriaeth lle maent yn byw. Felly mae dinasyddion y DU sy'n preswylio mewn Aelod-wladwriaeth arall yn gallu pleidleisio yn y fan honno yn lle'r DU (ac mae gwladolion o wledydd eraill yr UE sy'n preswylio yn y DU yn gallu pleidleisio yn y DU).[5]

2.9 Mae ASEau yn cwrdd yn rheolaidd i wneud penderfyniadau. Maent yn eistedd ac yn pleidleisio mewn grwpiau plaid sy'n adlewyrchu eu barn wleidyddol, er bod y rhan fwyaf o ASEau hefyd yn aelodau o grwpiau cenedlaethol anffurfiol. Mae etholwyr yn y DU yn gallu cysylltu â'u ASE yn uniongyrchol i fynegi eu barn am faterion yr UE a sut y dylai eu ASE bleidleisio.

2.10 Mae'r Comisiwn Ewropeaidd (sy'n gorfod gweithredu'n unol â chyfraith yr UE):

- yn cynnig drafftiau o gyfreithiau i'r UE i'w hystyried gan y Cyngor a'r Senedd – mae hawl y Comisiwn i wneud hyn yn unigryw bron ('hawl cychwyn');
- yn cynnig ac yn gweithredu cyllideb yr UE;
- yn sicrhau bod cyfraith yr UE yn cael ei gweithredu (ochr yn ochr â Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd);

4 Mae'r system Pleidleisio drwy Fwyafrif Cymwysedig yn dyrannu pleidleisiau i wahanol Aelod-wladwriaethau yn ôl fformiwla y cytunwyd arni sydd wedi'i seilio'n rhannol ar faint poblogaeth. Bydd penderfyniad neu gyfraith yn cael ei phasio drwy fwyafrif cymwysedig os yw 55 y cant o Aelod-wladwriaethau'n pleidleisio o blaid (mae hyn yn golygu 16 o blith yr 28) ac os yw'r Aelod-wladwriaethau sydd o blaid yn cynrychioli o leiaf 65 y cant o holl boblogaeth yr UE.

5 Erthyglau 20 a 22 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE

- o dan gyfarwyddyd Aelod-wladwriaethau, yn cynnal rhai o gysylltiadau'r UE â gwledydd y tu allan i'r UE, er enghraifft, negodi â phartneriaid masnachu eraill ar gytundebau masnach rhyngwladol y mae angen eu cymeradwyo wedyn gan Aelod-wladwriaethau a Senedd Ewrop;
- yn cymryd camau i weithredu polisïau y mae'r UE wedi cytuno arnynt.

2.11 Mae Llywydd ar y Comisiwn Ewropeaidd sy'n arwain grŵp o 27 o Gomisiynwyr eraill, a phob un ohonynt yn arwain ar faes polisi penodol. Yn 2014 roedd Llywodraeth y DU wedi enwebu'r Arglwydd Jonathan Hill yn Gomisiynydd y DU. Mae'r Arglwydd Hill yn gyfrifol am bolisi'r UE ar wasanaethau ariannol o fewn y Comisiwn.

2.12 Bydd y Cyngor Ewropeaidd yn cynnig ymgeisydd am swydd Llywydd y Comisiwn gan benderfynu drwy Bleidleisio drwy Fwyafrif Cymwysedig. Wedyn caiff yr ymgeisydd ei ethol gan Senedd Ewrop (drwy fwyafrif syml). Wedi i bob un o'r 28 Aelod-wladwriaeth enwebu Comisiynydd, ac ar ôl dyrannu eu portffolios iddynt, bydd Senedd Ewrop hefyd yn cymeradwyo'r 27 o Gomisiynwyr eraill a ddewiswyd. Gyda'i gilydd, byddant yn gwasanaethu am dymor o bum mlynedd. Fodd bynnag, fe all Senedd Ewrop bleidleisio i orfodi pob un o'r 28 o Gomisiynwyr i adael eu swydd os bydd yn colli hyder yn y Comisiwn. Mae dinasyddion o bob un o'r Aelod-wladwriaethau, gan gynnwys y DU, ymhlith y swyddogion sy'n gweithio i'r Comisiwn Ewropeaidd. Mae unrhyw un o ddinasyddion yr UE sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd yn gallu ymgeisio drwy gystadleuaeth agored i weithio i'r Comisiwn.

2.13 Mae Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd yn dehongli ac yn cymhwyso cyfraith yr UE ac yn sicrhau bod Aelod-wladwriaethau a sefydliadau'r UE yn cydymffurfio â hi. Mae'n cynnwys dau brif lys yr UE. Y cyntaf yw Llys Cyfiawnder Ewrop, sy'n cynnwys un barnwr o bob Aelod-wladwriaeth. Mae'r llys hwn yn cael ei gynorthwyo gan y Llys Cyffredinol, a fydd yn cynnwys dau farnwr o bob Aelod-wladwriaeth erbyn diwedd 2019. Mae pob Aelod-wladwriaeth yn enwebu ei barnwyr ei hun, a gall roi feto ar benodi'r rheini o Aelod-wladwriaethau eraill. Mae rôl y Llys wedi'i disgrifio'n fanylach isod.

## Rôl y seneddau cenedlaethol

2.14 Mae seneddau cenedlaethol Aelod-wladwriaethau'r UE, gan gynnwys Senedd y DU yn San Steffan, yn chwarae rhan mewn penderfyniadau gan yr UE.

2.15 Mae Senedd San Steffan yn cyflawni rôl bwysig drwy ddal Llywodraeth y DU yn atebol am y penderfyniadau y mae'n eu gwneud ynghylch yr UE. Mae pwyllgorau yn Nhŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi yn gallu archwilio dogfennau'r UE cyn i Weinidogion y DU bleidleisio arnynt ym Mrwsel. O dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd 2011, mae hefyd yn ofynnol mewn rhai achosion fod y Llywodraeth yn cael cydsyniad gan y Senedd cyn y gall Gweinidogion y DU gytuno ar benderfyniadau penodol ym Mrwsel.[6]

2.16 Mae system o gardiau 'melyn' ac 'oren' ar waith ar hyn o bryd y gall seneddau cenedlaethol ei defnyddio i fynegi eu barn ynghylch a yw deddfwriaeth newydd o'r UE yn ymwneud â rhywbeth y byddai'n well delio ag ef ar lefel genedlaethol. Fodd bynnag, ni fydd eu barn yn rhwymo'r Comisiwn.[7] Mae'r setliad newydd a negodwyd gan y DU yn Chwefror 2016 yn creu system cerdyn 'coch' newydd, sy'n galluogi seneddau cenedlaethol i gydweithio i atal deddfwriaeth newydd ddiangen os ydynt yn credu ei bod yn well cymryd camau ar lefel genedlaethol.[8]

---

6 Gweler adran 2-10 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd 2011.

7 Protocol (Rhif 2) i Gytuniadau'r UE.

8 Penderfyniad gan benaethiaid gwladwriaeth neu lywodraeth, yn cwrdd o fewn y Cyngor Ewropeaidd, ynghylch setliad newydd ar gyfer y Deyrnas Unedig o fewn yr Undeb Ewropeaidd 2016.

## Egwyddorion cyfraith yr UE

2.17 Mae gallu'r UE i weithredu yn gyfyngedig i'r pwerau a roddwyd iddo gan yr Aelod-wladwriaethau. Ni all weithredu y tu hwnt i'r pwerau hyn. Egwyddor trosglwyddo yw'r enw ar hyn'.[9] Mae'r terfynau hyn ar bwerau'r UE wedi'u pennu yng Nghytuniadau'r UE, sef y Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd a'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd.

### Mathau o gyfreithiau'r UE

2.18 Mae gwahanol fathau o gyfreithiau gan yr UE, sydd wedi'u disgrifio yn y blwch isod. Cytunir ar y cyfreithiau hyn, a'u rhoi ar waith, mewn ffyrdd gwahanol.

**Cyfreithiau'r UE**

Cytuniadau'r UE yw lefel uchaf cyfraith yr UE. Y rhain sy'n diffinio ym mha feysydd y caniateir i'r UE weithredu, i ba raddau ac ym mha ffordd. Maent hefyd yn cynnwys amrywiaeth o reolau gweithdrefnol ar y ffordd y mae'r UE yn gweithredu a rheolau o ran sylwedd, fel y gofyniad bod Aelod-wladwriaethau'n sicrhau hawl dynion a menywod i gael cyflog cyfartal. Mae'r Cytuniadau'n pennu meysydd pwnc lle gall yr UE wneud cyfreithiau mwy penodol, a elwir yn 'gymwyseddau' yr UE'.

O dan y lefel hon, mae'r UE yn mabwysiadu cyfarwyddebau, rheoliadau a phenderfyniadau gan arfer y pwerau sydd yng Nghytuniadau'r UE.

Mae cyfarwyddebau'n gosod fframwaith cyfreithiol i'w ddilyn gan yr Aelod-wladwriaethau, ond yn gadael i bob Aelod-wladwriaeth ddewis sut yn union y bydd yn ei gynnwys yn ei chyfraith. Felly, ar ôl cytuno ar un o Gyfarwyddebau'r UE, mae pob Aelod-wladwriaeth yn gorfod gwneud cyfreithiau cenedlaethol i'w rhoi ar waith, ond bydd ganddi ddewis o ran sut yn union i wneud hynny.

Mae rheoliadau'n cynnwys rheolau cyfreithiol manwl. Ar ôl eu gwneud, bydd grym cyfreithiol i reoliadau yn y DU a ledled yr UE. Dim ond mewn achosion prin y bydd rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau greu eu rheolau cyfreithiol eu hunain i sicrhau bod y rheoleiddio'n cael yr effaith gyfreithiol arfaethedig.

Gall yr UE fabwysiadu penderfyniadau rhwymol. Er enghraifft, mae gan y Comisiwn bwerau i ddyroddi penderfyniadau rhwymol er mwyn gorfodi rheolau ar gystadleuaeth.

O dan y lefel hon, mae'r UE hefyd yn mabwysiadu deddfwriaeth i atodi a diwygio, neu i weithredu'r rheolau sydd wedi'u gosod mewn cyfarwyddebau neu reoliadau. Gelwir y math cyntaf o ddeddfwriaeth yn ddeddfau 'dirprwyedig' a'r ail yn ddeddfau 'gweithredu'.

2.19 Gall yr UE hefyd lofnodi cytuniadau rhyngwladol mewn meysydd penodol lle mae Aelod-wladwriaethau yn y Cyngor (ac yn Senedd Ewrop yn y rhan fwyaf o achosion) yn cytuno ar hynny.[10] Er enghraifft, mae perthynas yr UE â Norwy, Gwlad yr Iâ a Liechtenstein wedi'i diffinio yn y Cytundeb ar yr Ardal Economaidd Ewropeaidd ('Cytundeb yr AEE'). Lle mae'r UE yn llofnodi cytuniad rhyngwladol, bydd hyn yn golygu'n aml fod gwladolion a busnesau'r UE yn gallu manteisio ar hawliau mewn gwledydd y tu allan i'r UE, a bod gwladolion a busnesau o'r gwledydd hynny'n gallu mwynhau'r un hawliau yn yr UE.

---

9 Erthyglau 5 a 13 o'r Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd.

10 Mae'r pwerau allweddol ar gyfer hyn yn Nheitl V o Ran Pump o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE.

2.20 Mae pŵer yr UE i weithredu'n rhyngwladol wedi'i ddisgrifio yn y Cytuniadau. Yn gyffredinol, mae gan yr UE hawl i weithredu'n rhyngwladol o dan gyfarwyddyd Aelod-wladwriaethau yn y meysydd hynny lle gall weithredu ar lefel yr UE.

## Sut y gall yr UE weithredu

2.21 Mewn meysydd lle mae'r UE yn gallu mabwysiadu cyfreithiau, mae'r Cytuniadau'n egluro sut y bydd yr UE a'r Aelod-wladwriaethau'n cydweithio:

- mewn rhai meysydd gall yr UE a'r Aelod-wladwriaethau weithredu, ond nid ar yr un pryd. Gelwir hyn yn gymhwysedd 'a rennir';
- mewn rhai meysydd gall yr UE a'r Aelod-wladwriaethau weithredu, a gallant wneud hynny yr un pryd. Gelwir hyn yn gymhwysedd 'ategol' neu 'baralel'
- mewn rhai meysydd, yr UE yn unig sy'n gallu gweithredu. Gelwir hyn yn gymhwysedd 'unigryw' i'r UE.[11]

2.22 Mewn meysydd lle mae'r UE yn gallu gwneud cyfreithiau, mae nifer o egwyddorion yn rheoli sut mae'n gorfod gweithredu wrth wneud hynny.

2.23 Egwyddor sybsidiaredd sy'n pennu pryd y gall yr UE arfer y pwerau a roddwyd iddo.[12] Ei phwrpas yw sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud ar y lefel o lywodraeth sydd agosaf i'r dinesydd – fel y cymerir camau ar lefel yr UE dim ond pan fo angen hynny. Mae hyn yn golygu y bydd yr UE yn gallu gweithredu dim ond lle na ellir gwneud digon i gyflawni'r nodau ac amcanion drwy weithredu gan Aelod-wladwriaethau (ar y lefel genedlaethol, ranbarthol neu leol) a lle y gellid eu cyflawni'n well drwy gymryd camau ar lefel yr UE.

2.24 Mae egwyddor cymesuredd yn gosod terfynau ar y ffordd y mae'r UE yn gallu arfer ei bwerau.[13] O dan y rheol hon rhaid i'r UE beidio â chymryd camau mwy nag sydd eu hangen i gyflawni ei nodau ac amcanion.

## Sut mae cyfraith yr UE yn cael ei chymhwyso

2.25 Yr unig ffordd y mae'r rhwymedigaethau sy'n codi o ganlyniad i aelodaeth y DU o'r UE yn dod i rym yng nghyfraith y DU yw drwy ddeddfau sydd wedi'u gwneud yn Senedd y DU, yn enwedig Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972. Mae hyn yn adlewyrchu goruchafiaeth derfynol Senedd y DU ar faterion sy'n ymwneud â chyfraith y DU, ac mae wedi'i adlewyrchu yn adran 18 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd 2011.

2.26 Rhaid i Aelod-wladwriaethau sicrhau bod unrhyw gamau y maent yn eu cymryd yn gyson â'r rheolau yng nghyfraith yr UE, a rhaid iddynt fabwysiadu unrhyw ddeddfwriaeth sydd ei hangen i roi cyfraith yr UE mewn grym yn eu cyfraith genedlaethol.

2.27 Mae rhai o gyfreithiau'r UE yn cael 'effaith uniongyrchol'.[14] Ystyr hynny yw bod pobl yn gallu dibynnu ar hawliau yng nghyfraith yr UE a gorfodi cydymffurfiaeth â chyfraith yr UE heb i Aelod-wladwriaethau gynnwys y rheolau penodol hynny yn eu cyfraith ddomestig.

---

[11] Erthyglau 2-6 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE.

[12] Erthygl 5(3) o'r Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd a Phrotocol (Rhif 2) i'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE

[13] Erthygl 5(4) o'r Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd a Phrotocol (Rhif 2) i'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE.

[14] Mae effaith uniongyrchol rheoliadau'r UE wedi'i diffinio yn Erthygl 288 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE. Darparwyd ar gyfer effaith uniongyrchol cyfraith yr UE yn system gyfreithiol y DU yn adran 2(1) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972.

2.28 Mae llysoedd yr UE yn chwarae rhan bwysig mewn dehongli a gorfodi cyfraith yr UE ledled yr UE. Mae Llys Cyfiawnder Ewrop yn darparu canllawiau i lysoedd cenedlaethol ar union ystyr cyfraith yr UE.[15] Mae llysoedd ledled yr UE yn dehongli ac yn cymhwyso'r gyfraith yn unol â barn Llys Cyfiawnder Ewrop. Os bydd Llys Cyfiawnder Ewrop yn dehongli deddfwriaeth yr UE mewn ffordd annisgwyl neu anfwriadol, gellir diwygio'r ddeddfwriaeth i ddad-wneud y dyfarniad gan Lys Cyfiawnder Ewrop drwy'r gweithdrefnau deddfwriaethol arferol.

2.29 Os bydd y Comisiwn neu Aelod-wladwriaeth yn credu nad yw'r Comisiwn, neu sefydliadau eraill yr UE neu Aelod-wladwriaeth arall yn cydymffurfio â chyfraith yr UE, gall fynd â'r achos i Lys Cyfiawnder Ewrop.[16] Os bydd Llys Cyfiawnder Ewrop yn dyfarnu bod y gyfraith wedi'i thorri, rhaid i'r Aelod-wladwriaeth sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r gyfraith. Os na wnaiff hynny, mae Llys Cyfiawnder Ewrop yn gallu gosod dirwy.[17]

2.30 Mae'r Llysoedd Cenedlaethol yn rhannu cyfrifoldeb dros orfodi cyfraith yr UE â Llys Cyfiawnder Ewrop. Mae hawl gan unrhyw berson neu gwmni i fynd â Llywodraeth y DU (neu berson neu gwmni arall mewn rhai achosion) i lys yn y DU am fethu â chydymffurfio â chyfraith yr UE. Os bydd llys domestig yn cael bod rhywun wedi torri cyfraith yr UE, bydd yn cymryd y camau sydd eu hangen i sicrhau bod cyfraith yr UE yn cael ei gweithredu. Gall hyn gynnwys camau i ddatgymhwyso deddfwriaeth genedlaethol sy'n gwrthdaro â chyfraith yr UE. Mewn rhai achosion, gall hefyd ddyfarnu iawndal i'r person neu gwmni sydd ar ei golled.

## Proses ddeddfwriaethol yr UE a'r DU

2.31 Mae Cytuniadau'r UE yn dangos sut a pha bryd y gall yr UE gytuno ar gyfreithiau newydd. Maent yn creu gwahanol ffyrdd i'r DU ac Aelod-wladwriaethau eraill chwarae rhan mewn penderfynu ar ddeddfwriaeth, er mwyn sicrhau bod eu buddiannau cenedlaethol yn cael eu hystyried. O ganlyniad i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd 2011, ni ellir trosglwyddo pwerau mewn meysydd newydd i'r UE heb gael cydsyniad gan ddinasyddion y DU mewn refferendwm. Mae hyn yn gymwys i gynigion i newid Cytuniadau'r UE a phenderfyniadau allweddol eraill y gellir eu gwneud heb newid y Cytuniadau – er enghraifft, ymuno â'r ewro.

### Deddfwriaeth

2.32 Penderfynir y rhan fwyaf o Reoliadau a Chyfarwyddebau'r UE drwy'r Weithdrefn Ddeddfwriaethol Arferol.[18] O dan y weithdrefn hon, bydd y Comisiwn Ewropeaidd yn cynnig cyfraith ddrafft. Wedyn bydd Aelod-wladwriaethau yn y Cyngor a Senedd Ewrop yn negodi ar sail y cynnig gan y Comisiwn, y gallant ei ddiwygio ac wedyn cytuno arno neu ei wrthod. Os gall y ddau gorff ddod i gytundeb, bydd yn dod yn rhan o gyfraith yr UE.

2.33 O dan y Weithdrefn Ddeddfwriaethol Arferol, bydd penderfyniadau Senedd Ewrop yn cael eu pasio gan fwyafrif syml o ASEau. Mae nifer yr ASEau yn gysylltiedig â maint poblogaeth, felly mae gan y DU nifer cymharol uchel o ASEau yn cynrychioli'r DU yn Senedd Ewrop.[19]

---

15 Erthygl 267 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE.

16 Erthyglau 258, 259, 263 a 265 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE

17 Erthygl 260 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE

18 Erthygl 294 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE

19 Mae 73 o ASEau gan y DU. O ran cymharu, mae 96 gan yr Almaen, mae 74 gan Ffrainc, mae 21 gan Wlad Groeg ac mae 6 gan Gyprus

2.34 O dan y Weithdrefn Ddeddfwriaethol Arferol, mae penderfyniadau rhwng Aelod-wladwriaethau yn y Cyngor yn cael eu gwneud drwy system Pleidleisio drwy Fwyafrif Cymwysedig.[20] Mae'r system hon wedi'i seilio'n rhannol ar faint poblogaeth, ac mae hyn yn rhoi pwysau sylweddol wrth bleidleisio i'r DU a'r Aelod-wladwriaethau mwyaf eraill. Wrth bleidleisio drwy fwyafrif cymwysedig, dim ond os bydd penderfyniadau'n cael eu cymeradwyo gan fwyafrif o lywodraethau sy'n cynrychioli mwyafrif gwladolion yr UE y gellir eu mabwysiadu.

2.35 Gall y Llywodraeth ddefnyddio'r system Pleidleisio drwy Fwyafrif Cymwysedig i gydweithio ag Aelod-wladwriaethau eraill i geisio cytuno ar benderfyniadau a chyfreithiau neu eu hatal.

2.36 Mewn rhai meysydd, dim ond drwy gael cefnogaeth unfrydol y Cyngor y gall yr UE fabwysiadu cyfreithiau newydd.[21] Mae hyn yn golygu na ellir mabwysiadu'r gyfraith newydd os bydd unrhyw Aelod-wladwriaeth yn pleidleisio yn ei herbyn, felly mae feto gan bob Aelod-wladwriaeth, gan gynnwys y DU.

### Diwygio'r Cytuniadau a'r amddiffyniad yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd 2011

2.37 Gan fod pŵer yr UE i wneud cyfreithiau newydd wedi'i ddiffinio yn y Cytuniadau, yr unig ffordd o roi pwerau deddfu i'r UE mewn meysydd newydd yw drwy ddiwygio'r Cytuniadau. Mae hawl gan bob Aelod-wladwriaeth (gan gynnwys y DU) i roi feto ar unrhyw ddiwygiad i Gytuniadau'r UE.[22]

2.38 Mae Senedd y DU wedi pasio Deddf yr Undeb Ewropeaidd 2011. O dan ei darpariaethau, yr unig ffordd i'r DU gytuno ar gynnig i drosglwyddo pwerau mewn meysydd newydd yn y dyfodol o'r DU i'r UE yw drwy gymeradwyo hynny mewn Deddf Seneddol a chan bobl y DU mewn refferendwm. Mae hyn yn gymwys i gynigion i newid Cytuniadau'r UE a phenderfyniadau allweddol eraill y gellir eu gwneud heb newid y Cytuniadau – er enghraifft, ymuno â'r ewro, neu ildio ein rheolaethau cenedlaethol ar ffiniau.[23] Felly ni all yr un Llywodraeth drosglwyddo pwerau mewn meysydd newydd i'r UE yn y dyfodol heb gynnal refferendwm.

### Y Gweinyddiaethau Datganoledig

2.39 Mae'r hawliau a rhwymedigaethau sy'n deillio o gyfraith yr UE yn gymwys i'r un graddau i Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r Gweinyddiaethau Datganoledig yn gyfrifol am weithredu cyfraith yr UE lle mae'r maes pwnc yn fater datganoledig. Ond mae Llywodraeth y DU a Senedd y DU yn gyfrifol am berthynas y DU â'r UE.

2.40 Er hynny, mae'r Gweinyddiaethau Datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn ymwneud yn fanwl â thrafod safbwynt y DU ar faterion yr UE lle mae ganddynt fuddiant. Mae hyn yn digwydd yn aml ym meysydd polisi yr UE sydd wedi'u datganoli iddynt o fewn y DU. Bydd y cydgysylltu rhwng Belfast, Caerdydd, Caeredin a Llundain yn digwydd ar nifer o lefelau ac yn cael ei oruchwylio gan Gyd-bwyllgor y Gweinidogion (Ewrop). Bydd Gweinidogion o'r Gweinyddiaethau Datganoledig yn aml yn rhan o ddirprwyaeth y DU yn y Cyngor, er mwyn sicrhau bod eu buddiannau wedi'u cynrychioli yng nghyd-destun safbwynt cyffredinol y DU.

---

[20] Erthygl 16(3) o'r Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd ac Erthygl 238(2)-(4) o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE.

[21] Er enghraifft, Erthyglau 19, 113, 115, 153(1)(c), (d), (f) a (g), a 352 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE

[22] Erthygl 48 o'r Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd.

[23] Gweler adrannau 2-6 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd 2011

### Gibraltar

2.41 Mae Gibraltar yn Diriogaeth Dramor i'r DU. Mae Cytuniadau'r UE yn gymwys gan mwyaf i Gibraltar, er bod rhai eithriadau pwysig.[24]

2.42 Mae Gibraltar y tu allan i undeb tollau'r UE ac nid yw'r rheolau ar symud nwyddau'n rhydd yn gymwys. Oherwydd hyn, mae Gibraltar yn rhydd i osod tollau ar nwyddau a gaiff eu mewnforio i'r diriogaeth o'r UE. Mae Gibraltar wedi'i hesemptio hefyd rhag rheolau'r UE ar TAW. Nid yw Gibraltar yn rhan ychwaith o bolisi cyffredin yr UE ar amaethyddiaeth neu bysgodfeydd. Lle mae gan y DU hawl i ddewis a fydd yn cymryd rhan yn un o fesurau'r UE, mae'r dewis hwnnw'n gymwys i Gibraltar. Felly nid yw Gibraltar yn gorfod ymuno â'r ewro, nid yw'n rhan o ardal ddi-ffiniau Schengen ac ni fydd rheolau ar gyfiawnder a materion cartref yn gymwys yn Gibraltar oni bai fod y DU wedi dewis optio i mewn i'r mesur. Lle mae cyfraith yr UE yn gymwys, rhaid i Gibraltar sicrhau ei bod yn cael ei rhoi ar waith yng nghyfraith Gibraltar.

2.43 Mae'r DU yn cynrychioli buddiannau Gibraltar yn yr UE. Mae Llywodraethau'r DU a Gibraltar yn cynnal deialog parhaus, gan gynnwys deialog ym Mrwsel, i sicrhau bod persbectif Gibraltar wedi'i ddeall ym mhob agwedd ar bolisi'r UE. Mae dinasyddion Gibraltar yn cymryd rhan mewn etholiadau i Senedd Ewrop i helpu i ethol chwe ASE drwy Ranbarth Cyfunol De-orllewin Lloegr a Gibraltar.

## Optio allan ac amddiffyniadau ehangach i'r DU

2.44 Fel arfer mae cyfreithiau'r UE yn gymwys yn yr un ffordd i'r holl Aelod-wladwriaethau. Fodd bynnag, dros y blynyddoedd mae'r DU wedi negodi statws arbennig iddi'i hun yn yr UE – set o eithriadau, a elwir yn aml yn drefniadau "optio allan", yn ogystal ag amddiffyniadau ehangach. Mae hyn yn cynnwys yr eithriadau a sicrhawyd o dan y setliad newydd i'r DU, a negodwyd gan y Llywodraeth yn Chwefror 2016.[25]

2.45 Yr eithriadau hyn sy'n rhoi i'r DU ei statws arbennig. Lle mae'r DU wedi negodi eithriadau o'r fath, nid yw'r DU wedi'i rhwymo gan reolau'r UE yn y meysydd hyn, neu mae ganddi drefniadau arbennig eraill.

2.46 Mae'r rheolau arbennig sy'n gymwys i'r DU ym mhob maes pwnc wedi'u disgrifio'n fanwl yn y penodau isod. Maent yn cynnwys:

- optio allan o'r Undeb Economaidd ac Ariannol:[26] mae gan y DU statws arbennig yn yr Undeb Economaidd ac Ariannol ac mae'n cadw rheolaeth dros ei pholisi economaidd ac ariannol ei hun:
  - nid yw'r DU yn gorfod ymuno â'r ewro ac ni fydd yn ymuno â'r ewro;
  - nid yw'r DU yn cymryd rhan yn yr Undeb Bancio, felly mae'n cadw cyfrifoldeb dros oruchwylio banciau'r DU;
  - ni ellir cosbi'r DU o dan reolau'r UE, yn wahanol i Aelod-wladwriaethau eraill sy'n rhan o'r Undeb Economaidd ac Ariannol;

---

[24] Erthygl 52 o'r Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd, Erthygl 355(3) o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE a Chytundeb Derbyn Denmarc, Iwerddon a'r Deyrnas Unedig (1972)

[25] I gael rhagor o wybodaeth am y setliad a sicrhawyd a safbwynt y Llywodraeth arno, gweler: 'Y gorau o'r ddau fyd: statws arbennig y Deyrnas Unedig mewn Undeb Ewropeaidd diwygiedig', Llywodraeth y DU, 22 Chwefror 2016. Ar gael ar GOV.UK.

[26] Protocol (Rhif 15) i Gytuniadau'r UE.

- ad-daliad o gyllideb yr UE: mae'r DU yn cael gostyngiad yn y swm y mae'n ei dalu i gyllideb yr UEt;
- ardal ddi-ffiniau Schengen: mae'r DU wedi aros y tu allan i ardal ddi-ffiniau Schengen, felly mae wedi cadw rheolaeth dros ei ffiniau ei hun.[27] Ni fydd y DU yn ymuno ag ardal ddi-ffiniau Schengen
- cyfiawnder a materion cartref: gall y DU ddewis a fydd yn cymryd rhan neu beidio ym mesurau newydd yr UE ym maes cyfiawnder a materion cartref. Felly ni fydd y DU yn cymryd rhan yn awtomatig mewn mesurau ond fe all optio i mewn i'r rheini y mae'n credu eu bod yn gyson â'i buddiant cenedlaethol.[28]

2.47 Mae'r cytundeb a gafwyd yng nghyfarfod y Cyngor Ewropeaidd yn Chwefror 2016 yn adeiladu ar sail y trefniadau hyn ar gyfer optio allan drwy roi rhagor o amddiffyniadau i statws y DU yn y dyfodol:

- nid yw'r DU wedi'i rhwymo i integreiddio gwleidyddol pellach yn Ewrop a bydd y DU wedi'i heithrio o'r ddarpariaeth yn y Cytuniad ar 'undeb agosach fyth';
- bydd pŵer gan Senedd y DU a seneddau mewn Aelod-wladwriaethau eraill i gydweithio i atal deddfwriaeth yr UE ar sail sybsidiaredd;
- rhoddir trefniadau tryloyw a sefydlog ar waith i sicrhau hawliau'r DU o fewn y Farchnad Sengl ond y tu allan i ardal yr ewro, ond mae wedi'i gydnabod y bydd mesurau pellach i ddyfnhau'r Undeb Economaidd ac Ariannol yn wirfoddol yn achos y DU;
- mae'r DU wedi sicrhau ymrwymiad i wneud newidiadau yn y rheolau ar hawl pobl i symud yn rhydd ac ar reolau lles. Bydd y rhain yn helpu i ddiogelu'r DU ac Aelod-wladwriaethau eraill rhag y bygythiad o droseddu gan unigolion sy'n symud o gwmpas yr UE, yn mynd i'r afael â'r camfanteisio ar y rhyddid i symud, ac yn cyfyngu ar hawl gwladolion yr UE sydd newydd gyrraedd i gael buddion o system lles y DU am hyd at bedair blynedd;
- mae'r DU wedi sicrhau ymrwymiad gan y Comisiwn Ewropeaidd i sefydlu mecanwaith i adolygu'r corff presennol o ddeddfwriaeth yr UE o ran cydymffurfio ag egwyddor sybsidiaredd a chymesuredd. Mae hyn yn golygu y bydd mecanwaith ar gael i adolygu cyfreithiau presennol yr UE, er mwyn gorfodi'r egwyddor mai dim ond pan fo gwir angen hynny y bydd yr UE yn gweithredu.

## System cyllideb yr UE

Mae system gyllideb bresennol yr UE yn dilyn cylch saith mlynedd. Rhaid cael cytundeb unfrydol ar gyfanswm yr arian a fydd ar gael dros y cyfnod hwn rhwng pob un o'r 28 o Aelod-wladwriaethau, felly mae'r DU, fel yr Aelod-wladwriaethau eraill, yn gallu rhoi feto. Mae'r DU yn cael ad-daliad parhaol ar ei chyfraniad blynyddol (ar ffurf gostyngiad ymlaen llaw ar ei chyfraniad gros) i gyllideb yr UE, yn wahanol i holl Aelod-wladwriaethau eraill yr UE.

[27] Protocol (Rhif 19) i Gytuniadau'r UE.

[28] Protocol (Rhif 21) ac Erthygl 10(4) a (5) o Brotocol (Rhif 36) i Gytuniadau'r UE.

## Cyllideb yr UE yn gryno

2.48 Rhaid pennu terfyn uchaf hirdymor y gyllideb, sef y mwyaf y gall yr UE ei wario ym mhob cyfnod gwario, yn y Fframwaith Ariannol Amlflwydd (FfAA).[29] Mae'r terfynau ar wariant yn gymwys am bum mlynedd o leiaf (mae'r fframwaith presennol yn cynnwys cyfnod o saith mlynedd). O fewn terfynau'r FfAA, rhaid i'r Cyngor a Senedd Ewrop gytuno bob blwyddyn ar wariant arfaethedig mewn cyllidebau blynyddol.

2.49 Mae'r gyllideb yn cynnwys y cydrannau canlynol:

- **polisi amaethyddol:** mae'r gydran hon yng nghyllideb yr UE wedi gostwng ers canol y 1980au i tua 40 y cant o'r gwariant heddiw;[30]
- **twf rhanbarthol a gwariant ar gyflogaeth:** mae gwariant yr UE ar ddatblygu seilwaith; cymorth economaidd i ranbarthau tlotach yr UE a grantiau hyfforddi wedi codi ers y 1990au i tua 35 y cant o'r gyllideb
- **arall:** mae chwarter y gyllideb sy'n weddill yn cael ei wario ar: ymchwil a datblygu, cymorth datblygu rhyngwladol i wledydd tlotach ac i wledydd sydd am ymuno neu integreiddio'n ddyfnach â'r UE; diogelwch mewnwladol a gwarchod ffiniau; a gweinyddu.[31]

## System gyllideb yr UE: priod adnoddau'r Aelod-wladwriaethau

2.50 Mae'r holl Aelod-wladwriaethau'n cyfrannu at wariant yr UE o dan reolau'r UE. Mae'r Penderfyniad ar Briod Adnoddau yn gosod y fframwaith cyfreithiol ar gyfer cyfrannu gan .Aelod-wladwriaethau, yn ogystal â phennu'r uchafswm o arian yr Aelod-wladwriaethau y gall yr UE ei ddefnyddio.[32] Mae'r Cyngor yn penderfynu ar hyn drwy unfrydedd, ar ôl ymgynghori â Senedd Ewrop. Wedyn rhaid i Aelod-wladwriaethau gymeradwyo'r penderfyniad hwn, yn unol â'u priod ofynion cyfansoddiadol. Yn achos y DU, rhaid cael cymeradwyaeth drwy Ddeddf Seneddol (yn fwyaf diweddar, Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Cyllid) 2015).

2.51 Mae'r Penderfyniad ar Briod Adnoddau hefyd yn cynnwys mecanweithiau cywiro ar gyfer nifer o Aelod-wladwriaethau, sy'n gymwys yn ystod cyfnod cyllidebol 2014-2020. Pwrpas y rhain yw addasu ar gyfer y derbyniadau cymharol isel mewn rhai gwledydd a gwneud iawn am feichiau cyllidebol sy'n 'ormodol' mewn perthynas â'u ffyniant cymharol

2.52 Y DU yw'r unig Aelod-wladwriaeth sy'n cael ad-daliad parhaol ar ei chyfraniadau. Mae ad-daliad y DU yn elfen barhaol yn system y priod adnoddau y cytunwyd arni yng nghyfarfod y Cyngor Ewropeaidd yn Fontainebleau ym 1984 a bydd yn parhau tan ddiwedd y cyfnod 2014-2020.[33]

2.53 Mae'r Penderfyniad ar Briod Adnoddau yn darparu ar gyfer tair ffynhonnell refeniw i'r UE:

---

29 Mae Erthyglau 310-316 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE yn disgrifio trefniadau ar gyfer cytuno ar y gyllideb a'i hariannu.

30 O 73 y cant ym 1985 i 39 y cant yn 2013. 'CAP post-2013', Graff 1, Mawrth 2015, adroddiad ar gael ar wefan y Comisiwn Ewropeaidd.

31 Gweler yr adroddiad ariannol ar gyllideb yr UE ar gyfer 2014 ar wefan y Comisiwn

32 Penderfyniad y Cyngor 2014/335/EU, Euratom.

33 Gweler y casgliadau i gyfarfod y Cyngor Ewropeaidd yn Fontainebleau, BULL. EC 6-84 §1.1.3.

- cyfran o 75 y cant o'r tollau mewnforio ar nwyddau sy'n dod i mewn i'r UE o'r tu allan i'w undeb tollau. Y flwyddyn ddiwethaf roedd tua 14 y cant o'r gyllideb wedi'i ariannu o dollau;
- ffynhonnell seiliedig ar TAW, sy'n ariannu tua 14 y cant o'r gyllideb;
- ffynhonnell seiliedig ar Incwm Gwladol Gros. Heddiw mae tua 72 y cant o gyllideb yr UE yn dod o'r ffynhonnell hon.[34]

## Ymuno â'r UE a'i adael

Mae gwledydd yn Ewrop yn gallu ymgeisio i ymuno â'r UE ond mae'r broses yn hir a chymhleth. Mae pob un o Aelod-wladwriaethau presennol yr UE yn gallu rhoi feto ar gais am ymuno gan wlad newydd, a feto ar gyflymder y negodi a'r telerau ar gyfer ei derbyn.

Mae unrhyw Aelod-wladwriaeth yn gallu gadael yr UE. Mae'r broses hon wedi'i disgrifio mewn papur ar wahân.

### Ymuno â'r UE: y broses derbyn

2.54 Mae unrhyw wlad yn Ewrop yn gallu gwneud cais i ymuno â'r UE os yw'n parchu ac wedi ymrwymo i hyrwyddo gwerthoedd yr UE, sef rhyddid, cydraddoldeb, democratiaeth, parch at hawliau dynol, urddas dynol a rheolaeth y gyfraith.[35] Yn y gorffennol mae'r DU wedi bod o blaid caniatáu i wledydd eraill ymuno, er mwyn ehangu'r Farchnad Sengl a chreu cyfleoedd newydd i fusnesau'r DU, i gryfhau heddwch a diogelwch ehangach a helpu i ddatblygu'r gwledydd hynny sydd am ymuno.

2.55 Mae pob Aelod-wladwriaeth yn gallu rhoi feto ar allu gwlad arall i ymuno â'r UE, ac ar y telerau ar gyfer gwneud hynny. Ceir tri phwynt penderfynu pwysig:

- yn gyntaf rhaid i'r Cyngor Ewropeaidd gytuno ar yr amodau cymhwysedd drwy unfrydedd. Bydd hyn yn llywio'r negodiadau a geir wedyn rhwng y Comisiwn a'r wladwriaeth sy'n ymuno;
- bydd y Cyngor yn gwneud y penderfyniad terfynol i ganiatáu i'r wladwriaeth ymuno â'r UE drwy unfrydedd (rhaid i'r Cyngor fod wedi ymgynghori â'r Comisiwn gyntaf a rhaid i Senedd Ewrop bleidleisio o blaid derbyn y wlad drwy fwyafrif syml). Mae'r UE wedi mabwysiadu proses sy'n cynnwys 35 o "benodau" y bydd yn rhaid i'r wlad eu negodi'n llwyddiannus fesul un, ac mae rhan i'w chwarae gan y Cyngor a'r Aelod-wladwriaethau drwy bleidleisio'n unfrydol i agor pob 'pennod' o'r negodi a'i chau dros dro cyn gwneud y penderfyniad terfynol
- yn olaf, rhaid i bob Aelod-wladwriaeth gymeradwyo'r cytundeb i dderbyn y wlad i'r UE, yn unol â'i gofynion cenedlaethol.

2.56 Mae'r broses yn gymhleth ac mae'n cymryd blynyddoedd i'w chwblhau fel arfer. Er enghraifft, roedd wedi cymryd bron wyth mlynedd yn achos Croatia rhwng agor y negodiadau

---

34 Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn adroddiad Llywodraeth y DU: 'European Union Finances 2015: statement on the 2015 EU Budget and measures to counter fraud and financial mismanagement' o dan p.12, siart 3a.

35 Mae'r broses ar gyfer derbyn gwlad yn aelod o'r UE wedi'i disgrifio yn Erthygl 49 o'r Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd. Mae gwerthoedd sylfaenol yr UE wedi'u disgrifio yn Erthygl 2 o'r Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd

ar gyfer ymuno a chael ei derbyn i'r UE.[36] Mae nifer o bwyntiau ar hyd y ffordd lle gall y Cyngor neu'r Cyngor Ewropeaidd adolygu cynnydd. Felly, yn ogystal â phenderfynu ar y canlyniad terfynol, mae Aelod-wladwriaethau'n gallu dylanwadu ar gyflymder negodiadau'r wlad drwy roi feto ar bob cam yn y broses negodi. Mae Aelod-wladwriaethau hefyd yn gallu gosod amodau wrth dderbyn gwlad, er enghraifft, drwy roi feto i wrthod derbyn gwlad newydd i'r UE oni bai fod rheolaethau ar yr hawl i symud yn rhydd yn cael eu cadw mewn grym.

2.57 Pan fydd gwledydd newydd yn cael eu derbyn i'r UE yn y dyfodol, bydd y Llywodraeth yn mynnu na fydd rheolaethau ar yr hawl i symud yn rhydd yn cael eu codi nes bydd economïau'r gwledydd hynny'n cydgyfeirio'n agosach o lawer ag economïau'r Aelod-wladwriaethau presennol, gan ddefnyddio dangosyddion fel eu CMC y pen, cyfradd cyflogaeth a dosbarthiad cyfoeth.[37] Bydd unrhyw ehangu'n galw am unfrydedd ymysg yr Aelodau presennol ac, yn y DU, Deddf Seneddol, felly gall y DU sicrhau y bydd y gofynion hyn yn cael eu parchu mewn unrhyw drafodaeth ar ehangu'r UE.

2.58 Ar ôl cydymffurfio ag unrhyw reolaethau pontio y cytunwyd arnynt, wedi i wlad ddod yn Aelod-wladwriaeth o'r UE, bydd ei dinasyddion yn cael yr un hawliau o dan gyfraith yr UE ag sydd gan wladolion eraill yr UE. Gwneir addasiadau eraill hefyd i adlewyrchu'r ffaith bod Aelod-wladwriaeth newydd wedi'i derbyn, er enghraifft, ym mhwysoliadau pleidleisio pob un o'r Aelod-wladwriaethau yn y Cyngor.[38]

### Gadael yr UE: proses Erthygl 50 yn y Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd

2.59 Mae unrhyw Aelod-wladwriaeth yn gallu dewis gadael yr UE. Mae papur y Llywodraeth "Y broses ar gyfer gadael yr Undeb Ewropeaidd" yn egluro'r broses ar gyfer gadael.[39]

---

36 Cyflwynodd Croatia ei chais am ymaelodi â'r Undeb Ewropeaidd ar 21 Chwefror 2003, negododd yr amodau ar gyfer ei derbyn rhwng 2005 a 2011 a daeth yn aelod ar 1 Gorffennaf 2013.

37 Gweler paragraff 3.4, "Y gorau o'r ddau fyd: statws arbennig y Deyrnas Unedig mewn Undeb Ewropeaidd diwygiedig", Llywodraeth EM, 22 Chwefror 2016. Ar gael ar GOV.UK.

38 Mewn rhai achosion, gwneir y rhain yn y cytuniad derbyn ar gyfer y wlad sy'n ymuno; byddai eraill yn digwydd yn awtomatig, fel y pwysoliadau ar gyfer Pleidleisio drwy Fwyafrif Cymwysedig.

39 'Y broses ar gyfer gadael yr Undeb Ewropeaidd', Llywodraeth EM, Chwefror 2016. Ar gael ar GOV.UK.

# Pennod 3 – y Farchnad Sengl – y pedwar rhyddid

**Beth yw'r Farchnad Sengl?**

Crëwyd y Farchnad Sengl yn y 1980au. Ei phwrpas yw sicrhau'r hawl i nwyddau, gwasanaethau, cyfalaf, a phobl symud yn rhydd ("y pedwar rhyddid"), o dan yr amodau sydd wedi'u disgrifio'n fwy manwl mewn rheolau a wnaed gan yr UE.

Mae hyn yn golygu nad yw Aelod-wladwriaethau'n gallu gosod cyfyngiadau heb gyfiawnhad ar gwmnïau ac unigolion sy'n arfer eu hawliau ar gyfer symud yn rhydd, fel rheolaethau tollau neu ofynion trwyddedu. Mewn nifer o feysydd, mae'r UE wedi gwneud deddfwriaeth fanwl sy'n nodi pa fathau o gyfyngiadau a ganiateir.

Mae'r UE wedi mabwysiadu deddfwriaeth hefyd i ddileu rhwystrau eraill i fasnach rydd, er enghraifft, drwy fabwysiadu safonau cyffredin i sicrhau na fydd masnach yn cael ei rhwystro gan wahanol reoliadau cenedlaethol neu fanylebau technegol ac mae wedi datblygu fframwaith cyfreithiol i ddelio ag arferion gwrthgystadleuol.

Yn yr adrannau sy'n dilyn, rydym yn egluro'n fwy manwl y rheolau penodol ar gyfer yr hawl i nwyddau, gwasanaethau, cyfalaf a phobl symud yn rhydd.

## Y Farchnad Sengl – symud nwyddau'n rhydd

Mae cyfraith yr UE yn rhoi'r hawl i symud nwyddau'n rhydd ar draws yr UE drwy sefydlu undeb tollau ac ardal fasnach rydd. Oherwydd hyn, ni fydd tollau (trethi) na chyfyngiadau eraill nad oes cyfiawnhad drostynt yn cael eu gosod ar nwyddau wrth eu symud o fewn yr UE, ac mae'r holl Aelod-wladwriaethau'n cymhwyso rheolau tollau a thariffau'n gyson at nwyddau sydd wedi'u mewnforio o'r tu allan i'r UE.

### Symud nwyddau'n rhydd o fewn yr UE

3.1 Mae'r hawl i symud nwyddau'n rhydd yn elfen hanfodol yn y Farchnad Sengl. Mae'n rhoi'r gallu i symud a masnachu cynhyrchion o fewn yr UE heb gyfyngiad, oni bai fod rheolaethau o'r fath yn angenrheidiol er budd y cyhoedd, er enghraifft, i ddiogelu iechyd cyhoeddus. Mae hefyd yn lleihau'r beichiau gweinyddol sy'n gysylltiedig â chludo nwyddau rhwng gwahanol Aelod-wladwriaethau. Drwy hyn, rhoddir hawliau i fusnesau ac i unigolion preifat sydd am fewnforio ac allforio nwyddau.

3.2 O dan y rheolau ar gyfer symud nwyddau'n rhydd (sydd wedi'u cynnwys yng Nghytuniadau'r UE), gellir allforio a mewnforio nwyddau'n rhydd rhwng Aelod-wladwriaethau'r UE.[40] Cyflawnwyd hyn drwy sefydlu undeb tollau o fewn yr UE a thrwy atal Aelod-wladwriaethau rhag gosod tollau ar nwyddau sy'n cael eu hallforio o Aelod-wladwriaethau eraill.

3.3 Yn ogystal â hynny, mae'r rheolau hyn ar gyfer yr UE yn atal Aelod-wladwriaethau rhag cyfyngu ar faint y mewnforion ac allforion o eitem benodol: er enghraifft, cwotâu neu waharddiad ar fewnforio neu allforio.

3.4 Mae cyfraith yr UE hefyd yn atal mesurau eraill a all gyfyngu ar fewnforion ac allforion mewn ffyrdd llai uniongyrchol, er enghraifft, drwy osod safonau a rheoliadau sy'n ei gwneud yn fwy anodd gwerthu nwyddau o un Aelod-wladwriaeth mewn Aelod-wladwriaeth arall.

3.5 O ganlyniad i hyn, ni fyddai Aelod-wladwriaeth, er enghraifft, yn gallu ei gwneud yn ofynnol bod rhywun sy'n mewnforio nwyddau o'r DU yn gorfod gwneud hynny mewn ffordd benodol, drwy gael trwydded neu dystysgrif arbennig, er enghraifft.

3.6 Mae cyfraith yr UE hefyd yn sicrhau, pan fydd nwyddau wedi'u gweithgynhyrchu a'u marchnata'n gyfreithlon mewn un Aelod-wladwriaeth, na all Aelod-wladwriaeth arall fynnu wedyn ei bod yn cydymffurfio â rheolau cenedlaethol ychwanegol (gelwir hyn yn egwyddor 'cydnabyddiaeth gyfatebol').

3.7 Mae hefyd yn ofynnol o dan gyfraith yr UE fod nwyddau a fewnforiwyd o Aelod-wladwriaethau eraill yn cael eu trin yn yr un ffordd â nwyddau a gynhyrchwyd yn y wlad honno. Mae'r hawliau hyn wedi'u hategu hefyd gan reolau sy'n atal Aelod-wladwriaeth rhag gosod trethi mewnwladol mewn ffordd sy'n gwahaniaethu yn erbyn nwyddau a fewnforiwyd. O ganlyniad i hyn, er enghraifft, ni allai Aelod-wladwriaeth gyflwyno rheolau treth a oedd yn ffafrio prynu ei chynhyrchion fferyllol ei hun, yn hytrach na'r rheini sydd wedi'u cynhyrchu a'u hallforio gan gwmni cynhyrchion fferyllol mewn Aelod-wladwriaeth arall.

3.8 Er hynny, mae Aelod-wladwriaethau'n gallu cyfyngu ar yr hawl i symud nwyddau'n rhydd mewn nifer bach o amgylchiadau penodol. Gall Aelod-wladwriaethau wrthod neu gyfyngu ar fewnforio neu allforio nwyddau ar seiliau sy'n cynnwys polisi cyhoeddus neu ddiogelwch cyhoeddus, diogelu iechyd dynol, a gwarchod eiddo diwydiannol a masnachol. Gellir cyfiawnhau safonau a rheoliadau cenedlaethol ar gyfer cynhyrchion sy'n cyfyngu'n anuniongyrchol ar fewnforion os ydynt er lles y cyhoedd ac os nad ydynt yn mynd ymhellach nag sydd ei angen i gyflawni'r amcan hwnnw.

3.9 Mewn gwirionedd, nid oes cyfyngiadau mewnforio neu allforio ar y mwyafrif o nwyddau, a lle mae cyfyngiadau'n cael eu gosod, fe wneir hynny i ddiben penodol fel arfer. Er enghraifft, ymhlith y nwyddau y gellir gosod cyfyngiadau o'r fath arnynt y mae eitemau o ddiddordeb diwylliannol, cyffuriau a reolir ac arfau tanio.

3.10 Mae'r gwladwriaethau yn yr AEE nad ydynt o fewn yr UE (Gwlad yr Iâ, Norwy a Liechtenstein) yn dilyn y rhan fwyaf o reolau'r UE ar symud nwyddau'n rhydd. Er hynny, nid ydynt yn rhan o'r undeb tollau ac maent yn parhau i osod eu rheolau a gweithdrefnau tollau eu hunain, yn ogystal â'u tariffau eu hunain ar nwyddau o'r tu allan i'r AEE. Nid yw'r Swistir yn aelod o'r AEE, ond mae wedi gwneud trefniant tebyg â'r UE mewn perthynas â symud nwyddau'n rhydd

40 Erthyglau 28-37 a 110 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE.

### Cydweithredu ar dollau

3.11 Mae Cytuniadau'r UE hefyd yn darparu pŵer i'r UE hwyluso'r gallu i symud nwyddau'n rhydd drwy fabwysiadu rheolau ar gydweithredu ynghylch tollau, rhwng Aelod-wladwriaethau a hefyd gyda'r Comisiwn Ewropeaidd. Mae cyfreithiau'r UE a wnaed o dan yr Erthygl hon wedi darparu, yn benodol, ar gyfer mabwysiadu gweithdrefnau gweinyddol cyffredin ym maes tollau gan Aelod-wladwriaethau, er enghraifft, ynghylch ffurf a dull datganiadau tollau.

### Tariffau cyffredin ar nwyddau a fewnforiwyd i'r UE

3.12 Yn ogystal â'r rheolau hynny sy'n ymwneud â masnachu nwyddau o fewn yr UE, mae Cytuniadau'r UE hefyd yn sefydlu Tariff Tollau Cyffredin, sy'n golygu ei bod yn ofynnol i'r holl Aelod-wladwriaethau gymhwyso'r un cyfraddau tariff at nwyddau a fewnforiwyd o wladwriaethau y tu allan i'r UE.

### Sut mae'r UE yn gwneud cyfreithiau newydd yn y maes hwn

3.13 Heblaw am y Tariff Tollau Cyffredin, sy'n cael ei osod gan y Cyngor, mae cyfreithiau'r UE ar symud nwyddau'n rhydd yn cael eu cytuno ar y cyd rhwng Senedd Ewrop ac Aelod-wladwriaethau yn y Cyngor. Mae Aelod-wladwriaethau'n gwneud penderfyniadau yn y Cyngor drwy Bleidleisio drwy Fwyafrif Cymwysedig.

3.14 Mae'r undeb tollau yn faes lle mae gan yr UE gymhwysedd unigryw.[41] Ceir y rhan fwyaf o ddeddfwriaeth yr UE yn Rheoliadau'r UE. Ni all Aelod-wladwriaethau gyflwyno eu cyfreithiau tollau neu weithdrefnau tollau eu hunain, heblaw am ddeddfwriaeth sydd ei hangen ar lefel genedlaethol i weithredu cyfraith tollau'r UE.

### Eiddo deallusol

3.15 Mae'r gallu i symud nwyddau'n rhydd yn cael ei hwyluso hefyd gan reolau'r UE ar hawlfraint, nodau masnach a dyluniadau, a gorfodi cyfraith eiddo deallusol. Mae'r rheolau hyn yn cysoni'r agweddau pwysicaf ar gyfraith genedlaethol yn y meysydd hyn i sicrhau bod eiddo deallusol busnesau a chreawdwyr yn cael ei ddiogelu yn yr un ffordd ym mhob Aelod-wladwriaeth.

3.16 Mae gan yr UE ei systemau cyfochrog ei hun ar gyfer dyluniadau a nodau masnach sy'n rhoi'r gallu i greu hawliau ar draws yr UE yn ychwanegol at y rheini ar lefel genedlaethol. Mae cofrestriadau'r UE ar gyfer dyluniadau a nodau masnach yn cael eu gweinyddu gan Swyddfa Eiddo Deallusol yr Undeb Ewropeaidd. Fel dewis yn lle patentau cenedlaethol, bydd patent yr UE ar gael hefyd pan fydd Rheoliad y Patent Unedol yn dod i rym.[42]

### Safonau technegol

3.17 Yn ychwanegol at y rheolau sydd yng Nghytuniadau'r UE, y Gyfarwyddeb Safonau Technegol yw un o ddulliau'r UE ar gyfer atal mabwysiadu mesurau cenedlaethol sy'n creu rhwystrau newydd rhag masnach.[43] Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau hysbysu'r Comisiwn am fesurau arfaethedig penodol sy'n ymwneud â chynhyrchion neu wasanaethau electronig cyn i'r mesurau hynny gael eu mabwysiadu. Fel arfer bydd yn rhaid i Aelod-wladwriaeth adael o leiaf dri mis rhwng yr hysbysiad a mabwysiadu'r mesur y

---

41 Erthygl 3 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE.

42 Rheoliad yr UE Rhif 1257/2012.

43 Cyfarwyddeb 2015/1535/EU.

mae'n hysbysu'r Comisiwn amdano, fel y bydd y Comisiwn ac Aelod-wladwriaethau eraill yn cael cyfle i graffu ar y mesur a chodi gwrthwynebiadau cyn y gellir mabwysiadu'r mesur cenedlaethol newydd.

## Y Farchnad Sengl – symud gwasanaethau'n rhydd a rhyddid sefydlu

Mae rheolau'r UE yn diogelu'r hawl i ddarparu a derbyn gwasanaethau ledled yr UE. Mae hyn yn ei gwneud yn haws i fusnesau a dinasyddion ymsefydlu'n barhaol mewn Aelod-wladwriaeth arall, drwy sefydlu cwmni neu is-gwmni. Mae hefyd yn golygu y gall busnesau a dinasyddion ddarparu gwasanaethau dros dro mewn Aelod-wladwriaeth arall. Mae gallu gwasanaethau ariannol i symud yn rhydd yn diogelu'r hawl i ddarparu a derbyn gwasanaethau ariannol ar draws y Farchnad Sengl. Prif rôl yr UE wrth reoleiddio gwasanaethau telathrebu a chlyweledol yw hyrwyddo cystadleuaeth. Mae'r setliad a negodwyd gan y DU yng nghyfarfod y Cyngor Ewropeaidd yn Chwefror 2016 wedi sicrhau ymrwymiad i ymestyn y Farchnad Sengl ar gyfer gwasanaethau ymhellach.

3.18 Mae rheolau'r UE yn ei gwneud yn haws i berson neu gwmni sefydlu busnes mewn Aelod-wladwriaeth arall – gelwir hyn yn 'rhyddid sefydlu'. Maent hefyd yn ei gwneud yn haws darparu gwasanaethau dros dro mewn Aelod-wladwriaeth arall – gelwir hyn yn 'rhyddid i ddarparu gwasanaethau'.

3.19 O ganlyniad i'r rheol ar ryddid sefydlu (sydd wedi'i gosod yng Nghytuniadau'r UE[44]), mae hawl gan gwmnïau a phobl hunangyflogedig i gynnal busnes yn barhaol mewn Aelod-wladwriaeth arall.

3.20 Mae'r hawliau hyn yn gymwys yn y sefyllfaoedd canlynol:

- hunangyflogaeth mewn Aelod-wladwriaeth arall;
- sefydlu a rheoli cwmnïau newydd mewn Aelod-wladwriaeth arall
- yr hawl i gwmni sefydlu asiantaeth, cwmni ychwanegol neu is-gwmni mewn Aelod-wladwriaeth arall.

3.21 Mae'r rhyddid i ddarparu gwasanaethau hefyd wedi'i nodi yng Nghytuniadau'r UE[45] ac mae'n cynnwys sefyllfaoedd lle mae gwasanaeth (y mae ei union ystyr wedi'i ddiffinio yng nghyfraith yr UE) yn cael ei ddarparu am dâl (felly nid yw'n cynnwys gwasanaethau a ddarperir yn wirfoddol), a dros dro (fel y nodwyd uchod, mae darparu gwasanaethau'n barhaol yn dod o dan y rheolau ar ryddid sefydlu). Nid yw'r rheolau ar ryddid i ddarparu gwasanaethau'n gymwys mewn achosion sydd o fewn cwmpas rheolau'r UE ar symud nwyddau, pobl neu gyfalaf yn rhydd (sydd wedi'u hegluro mewn lle arall yn y papur hwn).

3.22 Mae'r hawliau hyn yn gymwys yn y sefyllfaoedd canlynol:

- lle mae rhywun yn teithio i Aelod-wladwriaeth arall i ddarparu gwasanaethau;
- lle mae rhywun yn teithio i Aelod-wladwriaeth arall i dderbyn gwasanaethau
- lle mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu rhwng dwy Aelod-wladwriaeth heb i'r person sy'n darparu neu dderbyn y gwasanaethau deithio i unman (er enghraifft, gwasanaeth ar-lein).

---

[44] Erthyglau 45-55 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE

[45] Erthyglau 56-62 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE

3.23 Felly byddai'r rheolau ar ryddid i ddarparu gwasanaethau'n gymwys, er enghraifft, lle mae cyfrifydd yn darparu gwasanaethau mewn Aelod-wladwriaeth arall ac wedyn yn dychwelyd i'w Aelod-wladwriaeth ei hun ar ôl cwblhau'r gwaith.

3.24 Gellir cyfyngu'r rhyddid i ddarparu gwasanaethau a'r rhyddid sefydlu mewn nifer bach o sefyllfaoedd. Yn benodol, gall Aelod-wladwriaeth gyfyngu'r rhyddid i ddarparu gwasanaethau neu'r rhyddid sefydlu am resymau sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus, diogelwch cyhoeddus neu iechyd cyhoeddus.

3.25 Fodd bynnag, dim ond os yw cyfyngiadau o'r fath yn gymesur y gall Aelod-wladwriaethau eu mabwysiadu. Felly ni all y mesur cenedlaethol fynd yn bellach nag sydd ei angen i gyflawni ei nod. Yn ogystal â hyn, ni ellir mabwysiadu mesurau cenedlaethol sy'n gwahaniaethu'n uniongyrchol oni bai fod modd eu cyfiawnhau ar sail polisi cyhoeddus, diogelwch cyhoeddus neu iechyd cyhoeddus. Hefyd ni ellir mabwysiadu mesurau nad ydynt yn gwahaniaethu ond sy'n cyfyngu ar yr hawl i symud yn rhydd oni bai fod cyfiawnhad iddynt ar sail budd i'r cyhoedd.

3.26 Mae darpariaethau'r Cytuniadau yn y meysydd hyn wedi'u hategu gan fesurau cyfreithiol eraill a fabwysiadwyd gan yr UE. Mae rhai o'r rheolau hyn yn gymwys ar draws sectorau, ac eraill yn ymwneud â sectorau penodol.

3.27 Y bwysicaf o'r rheolau hyn yw'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau,[46] sy'n agor y farchnad rydd ar gyfer gwasanaethau ymhellach. Mae'n ceisio gwneud pedwar peth allweddol:

- mae'n cadarnhau rhyddid sefydlu a'r rhyddid i ddarparu gwasanaethau o fewn yr UE;
- mae'n ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau symleiddio'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â chreu gweithgarwch busnes;
- mae'n cryfhau hawliau derbynwyr gwasanaethau;
- mae'n darparu rheolau ar gyfer ansawdd gwasanaethau..

3.28 Un mesur sydd hefyd yn bwysig ar gyfer symud gwasanaethau'n rhydd yw'r Gyfarwyddeb Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol.[47] Mae hon yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau gydnabod cymwysterau proffesiynol gwladolion o Aelod-wladwriaethau eraill, fel y bydd yn haws i weithwyr proffesiynol symud i Aelod-wladwriaeth arall i arfer eu proffesiwn dros dro neu'n barhaol. Mae hefyd yn darparu ar gyfer system i gydnabod cymwysterau'n awtomatig ar sail cytundeb ar y safonau hyfforddiant sy'n ofynnol mewn nifer o broffesiynau penodol. Rhoddir cydnabyddiaeth awtomatig hefyd i broffesiynau diwydiannol, crefft a masnachol penodol ar sail profiad proffesiynol. Mae system gydnabod gyffredinol yn gymwys i weithwyr proffesiynol nad oes cydnabyddiaeth awtomatig ar eu cyfer ac mae'n caniatáu cymryd mesurau cydadferol i ddelio ag unrhyw wahaniaethau rhwng gofynion cenedlaethol am hyfforddiant proffesiynol. O dan y Gyfarwyddeb, gall Aelod-wladwriaethau osod rheolaethau iaith i sicrhau bod gweithwyr meddygol proffesiynol a'r rheini mewn proffesiynau eraill lle mae goblygiadau i ddiogelwch cleifion yn medru'r ieithoedd sydd eu hangen i arfer y proffesiwn yn yr Aelod-wladwriaeth y maent yn teithio iddi.

3.29 Mae cyfreithiau'r UE ar wasanaethau'n cael eu penderfynu ar y cyd rhwng y Cyngor a Senedd Ewrop, ac mae Aelod-wladwriaethau'n gwneud penderfyniadau yn y Cyngor drwy Bleidleisio drwy Fwyafrif Cymwysedig.

[46] Cyfarwyddeb 2006/123/EC.

[47] Cyfarwyddeb 2005/36/EC, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb 2013/55/EU

3.30 Mae rheolau'r UE ar symud gwasanaethau'n rhydd yn gymwys gan mwyaf i wledydd yr AEE nad ydynt yn rhan o'r UE (Gwlad yr Iâ, Norwy a Liechtenstein), ac yn gymwys i'r Swistir mewn ffordd fwy cyfyngedig.

## Gwasanaethau Ariannol

3.31 Mae 'pasbort' yr UE ar gyfer gwasanaethau ariannol yn golygu bod cwmnïau gwasanaethau ariannol a awdurdodwyd mewn Aelod-wladwriaeth, fel y DU, yn gallu darparu gwasanaethau ar draws yr UE heb fod angen cael awdurdodiadau pellach. Term hwylus yw 'pasbort'. Mae'n cwmpasu casgliad o fesurau yn is-ddeddfwriaeth yr UE sy'n lleihau rhwystrau rheoliadol, gweithredol a chyfreithiol a fyddai'n gymwys fel arall.

3.32 Mae'r hawliau hyn wedi'u hymestyn i gwmnïau sydd â'u pencadlys yng ngwledydd yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) nad ydynt yn rhan o'r UE (Gwlad yr Iâ, Norwy a Liechtenstein). Felly mae cwmnïau rhyngwladol o bob gwlad arall yn gorfod sefydlu is-gwmni mewn o leiaf un wlad yn yr AEE er mwyn manteisio ar y pasbort.

3.33 Oherwydd hyn, er enghraifft, bydd banc sydd â'i bencadlys mewn un Aelod-wladwriaeth (fel y DU) yn ei chael yn llawer haws agor cangen mewn rhan arall o'r AEE nag unrhyw fanc mewn gwlad sydd y tu allan i'r AEE. Mae hyn yn ei gwneud yn haws ac yn llai drud i'r cwmnïau hyn weithredu ar draws yr AEE.

3.34 Mae'n bosibl rhoi'r pasbort gwasanaethau ariannol ar waith am fod holl wledydd yr AEE yn cadw at safonau rheoleiddio sy'n cyfateb i rai'r UE. Mae hyn yn rhoi sicrwydd i reoleiddwyr mewn Aelod-wladwriaethau fod cwmnïau yn yr AEE sy'n darparu gwasanaethau yn eu gwlad drwy drefniadau pasbortio'n glynu wrth yr un safonau â chwmnïau sydd â'u pencadlys yn eu gwledydd eu hunain. O ganlyniad i hyn, rhoddir triniaeth gyfartal i ddarparwyr gwasanaethau, sy'n agor y Farchnad Sengl i gwmnïau gwasanaethau ariannol.

3.35 Cytunir ar y cyd ar y rhan fwyaf o reolau'r UE ar wasanaethau ariannol rhwng ASEau yn Senedd Ewrop ac Aelod-wladwriaethau yn y Cyngor. Mae pob Aelod-wladwriaeth yn cymryd rhan drwy bleidleisio yn y Cyngor, sy'n gwneud penderfyniadau drwy Bleidleisio drwy Fwyafrif Cymwysedig.[48] Fodd bynnag, mae rhai buddiannau cenedlaethol yn cael eu diogelu, mewn perthynas â darpariaethau cyllidol er enghraifft, ac mae'r holl Aelod-wladwriaethau'n gallu rhoi feto ar reolau o'r fath. Mae rheolau'r UE yn y maes hwn yn gymwys yn yr un ffordd yn yr holl Aelod-wladwriaethau, er bod cyfraith yr UE yn darparu bod Aelod-wladwriaethau, gan gynnwys y DU, yn gallu gosod safonau uwch na rhai'r UE mewn rhai achosion, er enghraifft i ddiogelu sefydlogrwydd ariannol.

3.36 Cyfraith yr UE sy'n darparu'r gofynion manwl ar gyfer gwasanaethau ariannol penodol ac, mewn llawer achos, ar gyfer mesurau i ddiogelu defnyddwyr ym mhob sector. Mewn perthynas â'r sectorau canlynol, maent yn darparu ar gyfer cydgysylltu a chysoni rheolau ynghylch:

- bancio: y gofynion ar gyfer awdurdodi banciau ac ar gyfer swm y cyfalaf y mae'n rhaid iddynt ei ddal mewn cysylltiad â'u busnes. Maent hefyd yn darparu ar gyfer adfer ac ailstrwythuro banciau mewn argyfwng a'r gwarantau ar gyfer arian sydd ar gadw mewn banciau sy'n methu hyd at derfyn penodol;
- morgeisi: y gofynion y mae'n rhaid i fenthycwyr a broceriaid eu cyflawni wrth ddarparu neu gynghori ar forgeisi;

[48] Erthyglau 53 a 114 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE.

- yswiriant: y gofynion ar gyfer awdurdodi yswirwyr ac ar gyfer swm y cyfalaf y mae'n rhaid iddynt ei ddal mewn perthynas â'u busnes. Mae'r rheolau'n ymwneud hefyd â diogelu defnyddwyr pan fyddant yn prynu cynhyrchion yswiriant, a rheoli cynlluniau ymddeol galwedigaethol;
- cwmnïau buddsoddi a seilwaith y marchnadoedd ariannol: y gofynion ar gyfer awdurdodi cwmnïau buddsoddi a seilwaith marchnadoedd ariannol, fel partïon canolog i gontractau (sy'n sefyll rhwng y masnachwyr mewn offerynnau ariannol i sicrhau bod risgiau wedi'u lliniaru). Mae'r rheolau'n darparu hefyd ar gyfer tryloywder wrth fasnachu er mwyn galluogi buddsoddwyr i gymryd rhan mewn marchnadoedd ariannol ac ar gyfer mecanweithiau i ddiogelu defnyddwyr (er bod Aelod-wladwriaethau, gan gynnwys y DU, yn gallu gosod safonau uwch na'r rhain);
- rheoli asedau: y gofynion ar gyfer awdurdodi cronfeydd a rheolwyr buddsoddi ac ar gyfer trefnu i gronfeydd diogel o ansawdd uchel fod ar gael i ddefnyddwyr;
- camfanteisio ar farchnadoedd: rheolau sy'n ymwneud ag integredd marchnadoedd ariannol a darganfod achosion o gamfanteisio a chamddefnyddio marchnadoedd a delio â'r rhain yn gyson;
- gwasanaethau talu: hwyluso taliadau ar draws ffiniau, hyrwyddo cystadleuaeth, rhoi mwy o ddiogelwch i ddefnyddwyr a gostwng ffioedd ar gyfer busnesau a defnyddwyr.

3.37 Mae Banc Canolog Ewrop yn goruchwylio banciau mawr a sefydlwyd o fewn Aelod-wladwriaethau sy'n defnyddio'r ewro ac Aelod-wladwriaethau eraill sydd wedi optio i mewn i'r Undeb Bancio. Am nad yw'r DU yn defnyddio'r ewro, mae'r DU yn gallu optio allan o'r Undeb Bancio ac mae wedi gwneud hynny. Awdurdodau cenedlaethol y DU sy'n parhau'n gyfrifol am oruchwylio banciau'r DU ac is-gwmnïau i fanciau'r UE a banciau eraill yn y DU.

### Telathrebu a'r cyfryngau

3.38 Fel arfer bydd cyfreithiau'r UE ar delathrebu a'r cyfryngau'n cael eu penderfynu ar y cyd rhwng y Cyngor a Senedd Ewrop.[49]

3.39 Mae cyfraith yr UE ar delathrebu'n cynnwys gwasanaethau cyfathrebu electronig fel telathrebu a'r rhyngrwyd, a'r rhwydweithiau a chyfleusterau y maent yn dibynnu arnynt (rhai sefydlog a symudol (di-wifr)). Mae cyfraith yr UE yn cwmpasu'r dull o ddarlledu ond nid y cynnwys fel arfer. Ei nod yw hyrwyddo cystadleuaeth, gwneud i'r farchnad weithio'n well a gwarantu hawliau sylfaenol y defnyddwyr.

3.40 Mae deddfwriaeth yr UE yn y maes hwn yn dod o dan gyfundrefn rheoleiddio wedi'i chysoni sy'n llywodraethu awdurdodau rheoleiddio cenedlaethol, mynediad i rwydweithiau, yr hawl i ddefnyddio amleddau radio, rheolau ar lefelau gwasanaeth gofynnol, diogelwch, cyfrinachedd, bilio a chyfeiriaduron. Mae rheolau'r UE hefyd yn rheoleiddio taliadau am drawsrwydweithio ar ffonau symudol ac mae'r UE yn darparu mesurau i ddiogelu mynediad agored i'r rhyngrwyd.

3.41 Mae'r UE yn chwarae rhan fach mewn rheoleiddio'r cyfryngau. Mae'n gwarantu rhyddid i dderbyn darllediadau ac ailddarlledu, ac yn ceisio hwyluso Marchnad Sengl ar gyfer gwasanaethau clyweledol, er mwyn hybu cystadleuaeth a dewis a diogelu defnyddwyr.

---

[49] Erthyglau 114(1) a 289(1) o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE.

Mae hawl gan bob darparwr gwasanaethau cyfryngau a reoleiddir mewn gwlad yn yr AEE i ddarlledu mewn unrhyw Aelod-wladwriaeth o'r UE.

3.42 Fel arfer bydd rheolau'r UE ar y cyfryngau'n gosod safonau a rhwymedigaethau sylfaenol. Enghreifftiau o'r rhain yw gwaharddiadau ar ddarlledu sy'n ysgogi casineb wedi'i seilio ar hil, rhyw, crefydd neu genedligrwydd; cwotâu sylfaenol ar gyfer cwmnïau cynhyrchu annibynnol; a sicrhau bod digwyddiadau chwaraeon o bwysigrwydd cenedlaethol mawr ar gael i'w gwylio am ddim ar deledu daearol.

### Cyflenwi nwyddau, gwaith a gwasanaethau i gyrff cyhoeddus ('caffael cyhoeddus')

3.43 Mae cyfraith yr UE hefyd yn ceisio ei gwneud yn haws i bobl a busnesau gynnig am yr hawl i gyflenwi nwyddau, gwaith a gwasanaethau i gyrff cyhoeddus, fel llywodraeth leol a chanolog, ar draws yr UE.[50] Yr enw ar y broses ymgeisio hon yw 'caffael cyhoeddus'. Mae'r UE wedi mabwysiadu gwahanol setiau o reolau i ddileu rhwystrau i fasnach yn y maes hwn, ac i alluogi cyflenwyr i gystadlu am fusnes ar draws ffiniau.

3.44 Mae rheolau'r UE yn y maes hwn yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ddilyn prosesau tryloyw wrth ddyfarnu contractau. Mae hyn yn sicrhau bod cyflenwyr sy'n dilyn y rheolau perthnasol yn cael eu trin yn deg wrth gynnig i gyflenwi nwyddau, gwaith a gwasanaethau.

3.45 Maent hefyd yn rhoi'r gallu i gyflenwyr nwyddau, gwaith a gwasanaethau i ddod ag achosion cyfreithiol ym mhob rhan o'r UE os torrwyd rheolau ar gaffael cyhoeddus. Lle mae hyn wedi digwydd, gall cyflenwr ofyn i'r llys ddyfarnu iawndal neu ddirymu contract sydd wedi'i ddyfarnu'n anghyfreithlon.

3.46 Mae rheolau manwl yr UE yn y maes hwn yn gymwys dim ond i gontractau sy'n werth mwy na swm penodol. Fodd bynnag, ar sail yr egwyddorion sydd yng Nghytuniadau'r UE, mae'n bosibl hyd yn oed yn achos contractau llai y bydd angen eu dyfarnu mewn ffordd sy'n dryloyw ac sy'n trin cyflenwyr o Aelod-wladwriaethau eraill yn yr un ffordd â chyflenwyr y wlad honno, ac yn rhoi'r un cyfle i gwmnïau'r DU ac i gyflenwyr yn yr Aelod-wladwriaeth dan sylw.[51]

3.47 Cytunir ar y cyd ar gyfreithiau'r UE ar gyfer caffael cyhoeddus rhwng Senedd Ewrop a'r Aelod-wladwriaethau yn y Cyngor a gwneir penderfyniadau yn y Cyngor drwy Bleidleisio drwy Fwyafrif Cymwysedig.[52]

## Y Farchnad Sengl – symud cyfalaf yn rhydd

Mae rheolau'r UE yn hwyluso'r gallu i symud cyfalaf yn rhydd o gwmpas yr UE. Er bod nifer o reolau yn y maes hwn yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau fabwysiadu dulliau cyfatebol ar draws yr UE, mae cyfraith yr UE yn darparu bod Aelod-wladwriaethau mewn rhai achosion yn gallu gosod safonau uwch na rhai'r UE, er enghraifft i ddiogelu sefydlogrwydd ariannol.

---

50 Mae Erthyglau 34, 49 a 56 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE yn gwahardd gwahaniaethu gan gyrff cyhoeddus yn erbyn cyflenwyr, cynhyrchion a gwasanaethau o Aelod-wladwriaethau eraill yr UE. Y nod yw sicrhau bod caffael cyhoeddus yn agored i gystadleuaeth drwy'r UE

51 Erthygl 18 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE.

52 Mae'r prif ddarpariaethau yn Erthygl 53(1), Erthygl 62 ac Erthygl 114 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE.

### Symud cyfalaf yn rhydd

3.48 Mae'r hawl i symud cyfalaf yn rhydd wedi'i gwarantu o dan Gytuniadau'r UE.[53] Mae hyn yn ymwneud â symud pob math o gyfalaf, gan gynnwys taliadau, portffolios buddsoddi a buddsoddi uniongyrchol mewn gwlad, yn ogystal â benthyciadau i brynu eiddo, papurau banc a gwarantau ariannol. Mae'r warant hon yn gymwys hefyd i wledydd yr AEE nad ydynt yn rhan o'r UE (Gwlad yr Iâ, Norwy a Liechtenstein).[54]

3.49 O ganlyniad i reolau'r UE yn y maes hwn, mae busnesau ac unigolion yn y DU yn gallu buddsoddi mewn eiddo, codi cyfalaf a gwneud taliadau ym mhob rhan o'r UE. Mae deddfwriaeth ar gyfer cysoni yn y maes hwn[55] yn gymwys hefyd i'r AEE.[56]

3.50 Mae'r hawl i symud cyfalaf yn rhydd yn unigryw ymysg pedwar rhyddid yr UE gan ei bod yn gymwys i'r gallu i symud cyfalaf rhwng Aelod-wladwriaethau a hefyd rhwng yr UE a thrydedd wledydd (gwledydd y tu allan i'r UE). Oherwydd hyn, mae busnesau a chwmnïau, yn ogystal ag unigolion, yn cael rhyddid cymharol fawr i ddefnyddio gwasanaethau sy'n gysylltiedig â chyfalaf y tu mewn a'r tu allan i'r UE. Cytunir ar y cyd ar gyfreithiau'r UE ar yr hawl i symud cyfalaf yn rhydd rhwng Aelod-wladwriaethau a thrydedd wledydd rhwng ASEau yn Senedd Ewrop ac Aelod-wladwriaethau yn y Cyngor. Mae Aelod-wladwriaethau'n gwneud penderfyniadau yn y Cyngor drwy Bleidleisio drwy Fwyafrif Cymwysedig.[57]

3.51 Mae rhai eithriadau wedi'u caniatáu wrth gymhwyso'r hawl i symud cyfalaf yn rhydd. Os yw hynny'n gymesur a bod cyfiawnhad drosto yn y gyfraith, gall Aelod-wladwriaethau gyfyngu ar yr hawl i symud cyfalaf ar sail buddiannau polisi cyhoeddus sydd wedi'u pennu; yn enwedig rheoliadau macroddarbodus a rheolaethau cyfalaf, ffyrdd penodol o drin treth, polisi cyhoeddus (gan gynnwys sefydlogrwydd ariannol), diogelwch gwladol ac amddiffyn a chosbau ariannol.[58]

3.52 Mae datblygiadau yn yr UE mewn perthynas â symud cyfalaf yn rhydd wedi cyfrannu at ddyfnhau'r Farchnad Sengl, yn enwedig mewn cysylltiad â gwasanaethau ariannol. Y rheswm am hyn yw bod rheolau'r UE ar symud cyfalaf yn rhydd wedi'i gwneud yn haws i fusnesau fuddsoddi a gwneud taliadau ar draws ffiniau. Fodd bynnag, mae'r rhyddid i ddarparu gwasanaethau ariannol, fel bancio manwerthol, yn cael ei warantu gan yr hawl i symud gwasanaethau'n rhydd, yn hytrach na chyfalaf, ac felly nid yw trydedd wledydd yn ei fwynhau.

## Y Farchnad Sengl – hawl pobl i symud yn rhydd

> Mae cyfraith yr UE yn rhoi hawliau i wladolion y DU a holl wladolion eraill yr UE i fynd i un o Aelod-wladwriaethau eraill yr UE i fyw a gweithio. Nid yw'r hawliau hyn yn ddiamod oherwydd gellir gwrthod mynediad i ddinasyddion, eu hallgludo neu eu cau allan o'r Wladwriaeth sydd wedi'u derbyn ar nifer o seiliau.

3.53 Mae'r hawliau ar gyfer symud yn rhydd, gan gynnwys amddiffyniad rhag gwahaniaethu ar sail cenedligrwydd, wedi'u diffinio'n rhannol yng Nghytuniadau'r UE[59] ac yn rhannol mewn

---

53 Erthygl 63 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE.

54 Erthyglau 40 a 41 o Gytundeb yr AEE

55 Mabwysiadwyd o dan Erthygl 114 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE

56 Atodiad XII i Gytundeb yr AEE.

57 Erthygl 64(2) o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE

58 Erthygl 65 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE.

59 Yn enwedig Erthyglau 21 a 45 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE

rheolau a fabwysiadwyd o dan Gytuniadau'r UE. Ymhlith y mesurau allweddol y mae'r Gyfarwyddeb ar Symud yn Rhydd,[60] sy'n sail i Reoliadau Mewnfudo (Ardal Economaidd Ewropeaidd) y DU. Cytunwyd ar y cyd ar y Gyfarwyddeb ar Symud yn Rhydd rhwng Senedd Ewrop a'r Cyngor.

3.54 Estynnwyd yr hawliau hyn i wladolion yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) y tu allan i'r UE (Gwlad yr Iâ, Norwy a Liechtenstein) ac i'r Swistir, ac i wladolion y DU sy'n byw yn y gwledydd hynny.[61]

### Hawliau i symud yn rhydd

3.55 Mae hawliau i symud yn rhydd yn gymwys i ddinasyddion y DU sy'n symud i wlad arall yn yr AEE i fyw, gweithio neu astudio, ac i wladolion yr AEE sy'n dod i'r DU. Mae'r DU a holl wledydd eraill yr AEE yn penderfynu drostynt eu hunain sut y bydd rhywun yn gymwys i ddod yn ddinesydd.

3.56 Gall un o wladolion yr AEE fynd i wlad arall yn yr AEE a phreswylio ynddi am gyfnod cychwynnol o dri mis yn ddiamod. Ni all aros yn gyfreithlon ar ôl y cyfnod hwnnw oni bai ei fod yn gyflogedig, yn hunangyflogedig, yn hunangynhaliol neu'n fyfyriwr (rhoddir hawliau mwy cyfyng i breswylio hefyd i geiswyr swyddi).[62] O dan gyfraith yr UE, gallant barhau i breswylio mewn gwlad arall yn yr AEE ar yr amod eu bod yn un o'r categorïau hyn.

3.57 Ar ôl preswylio'n gyfreithlon a di-dor yn un arall o wledydd yr AEE am bum mlynedd, bydd gwladolion yr AEE yn cael hawl yn awtomatig i breswylio'n barhaol yn y wlad honno yn yr AEE. Wedi hynny, ni fydd yn ofynnol iddynt fod yn gyflogedig, yn hunangyflogedig, yn geisiwr swydd, yn hunangynhaliol neu'n fyfyriwr i fyw yn y wlad honno.[63] Os bydd un o ddinasyddion yr AEE yn absennol o'r Aelod-wladwriaeth sydd wedi'i dderbyn am fwy na dwy flynedd yn olynol, bydd yn colli ei hawl i breswylio'n barhaol. Mae'r hawliau hyn yn gymwys i ddinasyddion y DU sy'n symud i un arall o wledydd yr AEE yn yr un ffordd ag y maent yn gymwys i ddinasyddion yr AEE sy'n symud i'r DU.

3.58 Yn y DU, mae dinasyddion yr AEE sy'n gyflogedig neu'n hunangyflogedig yn gallu cael rhai budd-daliadau oherwydd y darpariaethau ar gyfer triniaeth gyfartal. Fodd bynnag, mae terfynau ar yr hawl i dderbyn budd-daliadau sydd wedi'u disgrifio isod. Mae dinasyddion y DU sy'n byw yn un arall o wledydd yr AEE yn cael yr hawliau hyn hefyd.

3.59 Mae'r hawliau i symud yn rhydd yn cynnwys aelodau o deuluoedd gwladolion yr AEE hefyd. Mae hawl ganddyn nhw hefyd i fyw a gweithio yn holl Aelod-wladwriaethau'r UE ar yr amod eu bod yn parhau'n aelod o deulu un o wladolion yr AEE sy'n preswylio'n gyfreithlon.[64] Gallant gael yr hawl i breswylio'n barhaol ar ôl preswylio'n gyfreithlon a di-dor am bum mlynedd. Unwaith eto, os byddant yn absennol o'r Aelod-wladwriaeth sydd wedi'u derbyn am fwy na dwy flynedd yn olynol, byddant yn colli eu hawl i breswylio'n barhaol.

---

60 Gweler Cyfarwyddeb 2004/38/EC.

61 Mae cyfeiriadau at 'AEE' o hyn ymlaen yn yr adran hon i'w darllen fel eu bod yn cynnwys y Swistir

62 Mae ymfudwyr o'r AEE sydd â hawl i breswylio yn y DU fel myfyriwr neu berson hunangynhaliol yn gorfod bod â digon o adnoddau i beidio â bod yn faich afresymol ar y Wladwriaeth

63 Mewn rhai amgylchiadau cyfyngedig iawn, mae'n bosibl cael yr hawl i breswylio'n barhaol yn gynharach. Gweler Erthygl 17 o Gyfarwyddeb 2004/38/EC.

64 Mae rhai eithriadau i hyn, er enghraifft ar ôl ysgariad lle mae'r aelod o'r teulu wedi cael cystodaeth plentyn

## Terfynau a chyfyngiadau ar yr hawliau i symud yn rhydd

3.60 Nid yw hawliau i symud yn rhydd yn hawliau diamod, ac mae nifer o derfynau a chyfyngiadau arnynt sydd wedi'u pennu yn y Gyfarwyddeb ar Symud yn Rhydd.

3.61 Yn benodol, nid yw hawl gwladolion yr AEE i symud yn rhydd yn cynnwys hawl awtomatig i dderbyn unrhyw un neu'r cwbl o'r budd-daliadau yn yr Aelod-wladwriaeth sydd wedi'u derbyn. Er enghraifft, os yw un o wladolion yr AEE mewn Aelod-wladwriaeth arall fel person hunangynhaliol, myfyriwr neu geisiwr swyddi, mae wedi'i wahardd rhag bod yn faich ar system nawdd cymdeithasol y wladwriaeth sydd wedi'i dderbyn.

3.62 Yn fwy cyffredinol, mae dinasyddion yr AEE sy'n manteisio ar yr hawl i symud yn rhydd yn gorfod derbyn y cyfrifoldebau sydd ynglŷn â'r hawl i symud yn rhydd ac ufuddhau i gyfreithiau cenedlaethol yr Aelod-wladwriaeth lle maent yn byw. Mae hyn yn golygu bod gwladolion yr AEE ac aelodau o'u teuluoedd sy'n dymuno symud i'r DU yn gorfod ufuddhau i gyfreithiau'r DU.

3.63 O dan y Gyfarwyddeb ar Symud yn Rhydd, gellir allgludo gwladolion yr AEE neu aelodau o'u teuluoedd, neu eu cau allan o'r DU a gwledydd eraill yr AEE ar sail diogelwch, polisi neu iechyd cyhoeddus. Mae'r Gyfarwyddeb a chyfraith achosion cysylltiedig yn rhoi'r gallu i gymryd camau ar sail diogelwch cyhoeddus neu bolisi cyhoeddus os yw rhywun yn 'genuine, present and sufficiently serious threat affecting one of the fundamental interests of society'. Mae'r un gallu gan wledydd yr AEE i allgludo neu gau allan dinasyddion y DU. Gall Aelod-wladwriaethau arfer rhywfaint o ddisgresiwn wrth benderfynu beth yw sail polisi cyhoeddus neu ddiogelwch cyhoeddus yn eu tiriogaethau.

3.64 Gellir symud un o ddinasyddion yr AEE o'r DU neu o wlad arall yn yr AEE os nad yw'n gyflogedig, yn hunangyflogedig, yn hunangynhaliol neu'n fyfyriwr ar ôl tri mis, neu os yw'n geisiwr swyddi ac nad yw'n gallu darparu tystiolaeth berswadiol bod ganddo wir obaith o gael gwaith ar ôl preswylio am gyfanswm o chwe mis ar ôl cyrraedd.

3.65 Gellir hefyd symud ymaith y rheini sy'n twyllo neu'n camfanteisio ar hawliau i symud yn rhydd, er enghraifft drwy gymryd rhan mewn priodas gyfleus.

3.66 Yng nghyfarfod y Cyngor Ewropeaidd yn Chwefror 2016, sicrhaodd y DU gytundeb sy'n amlinellu'r camau y mae'r DU ac Aelod-wladwriaethau eraill yn gallu eu cymryd i fynd i'r afael â chamfanteisio ar hawliau i symud yn rhydd. Bydd y cytundeb hwn yn helpu i sicrhau na fydd unigolion yn gallu osgoi rheolaethau mewnfudo domestig ac yn helpu i atal pobl sy'n peri bygythiad rhag dod i mewn i Aelod-wladwriaeth, yn ogystal â'i gwneud yn haws eu hallgludo os ydynt yn byw yno'n barod.

3.67 Mae'r cytundeb yn cynnwys ymrwymiad i wneud deddfwriaeth newydd i atal ymfudwyr anghyfreithlon rhag defnyddio priodas ag un o wladolion yr UE i osgoi rheolau mewnfudo cenedlaethol; a bydd yn golygu bod gwladolion o'r tu allan i'r UE sy'n priodi gwladolion yr UE hefyd yn gorfod cydymffurfio â rheolau cenedlaethol ar fewnfudo.

# Pennod 4 – cystadleuaeth a pholisi defnyddwyr

Mae cyfreithiau'r UE ar gystadleuaeth a hawliau defnyddwyr yn ceisio creu sefyllfa gyfartal ar draws y Farchnad Sengl, er mwyn gwarantu'r hawliau ar gyfer symud nwyddau a gwasanaethau'n rhydd o fewn yr UE. Eu pwrpas yw sicrhau na fydd marchnadoedd yn cael eu camystumio gan arferion gwrthgystadleuol ac y byddant yn gweithio'n deg i ddefnyddwyr a chymdeithas yn gyffredinol. Mae rheolau'r UE ar gystadleuaeth yn gymwys i fusnesau yn y DU ac mewn Aelod-wladwriaethau eraill, ac i'r sector cyhoeddus mewn rhai achosion. Byddant yn gymwys mewn sefyllfaoedd lle ceir effaith ar y fasnach rhwng Aelod-wladwriaethau a lle mae agwedd ar uno cwmnïau sy'n ymwneud â'r UE. Mae cyfraith yr UE hefyd yn darparu hawliau ac amddiffyniadau pwysig i ddefnyddwyr.

4.1 Mae rheolau'r UE ar gystadleuaeth, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â chymorth gwladwriaethol ac uno cwmnïau, yn hanfodol i sicrhau bod y Farchnad Sengl yn gweithio'n briodol.[65] Maent yn helpu i sicrhau sefyllfa gyfartal na fydd yn cael ei chamystumio gan arferion gwrthgystadleuol.

4.2 Pwrpas y camau a gymerodd yr UE ar hawliau defnyddwyr yw sicrhau bod dewis o nwyddau a gwasanaethau ar gael i ddefnyddwyr gan gynnal y sefyllfa gyfartal o fewn y Farchnad Sengl. Mae polisi'r UE ar ddiogelu defnyddwyr yn ceisio rhoi hawliau tebyg i ddefnyddwyr ar draws yr UE.

4.3 Mae pwerau gan y Comisiwn i ymchwilio a gorfodi cydymffurfiaeth â rheolau o dan gyfraith ar gystadleuaeth, a bydd yn penderfynu ar achosion penodol sy'n ymwneud ag uno cwmnïau a chymorth gwladwriaethol.

### Cystadleuaeth a chymorth gwladwriaethol

4.4 Mae rheolau ar gystadleuaeth yn ceisio atal niwed i ddefnyddwyr a busnesau o ganlyniad i arferion gwrthgystadleuol. Yn benodol, mae Cytuniadau'r UE yn gwahardd busnesau rhag gwneud cytundebau sy'n cyfyngu cystadleuaeth (er enghraifft, cartelau'n trefnu prisiau) neu fanteisio ar eu sefyllfa i'w gwneud yn fwy anodd i fusnesau sy'n cystadlu â nhw gael troedle yn y farchnad. Mae'r Comisiwn yn chwarae rhan bwysig drwy orfodi cydymffurfiaeth â'r rheolau hyn.

---

65 Mae prif reolau'r UE o dan gyfraith cystadleuaeth yn Erthyglau 101 i 106 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE; mae'r prif reolau ar gymorth gwladwriaethol yn Erthyglau 107 i 109 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE; ac mae'r rheolau ar uno cwmnïau yn Rheoliad 139/2004

4.5 Mae'r Cytuniadau hefyd yn gosod y rheolau sylfaenol ar gyfer darparu cymorth gwladwriaethol. Y man cychwyn yw na all Aelod-wladwriaethau gynnig cymorth gwladwriaethol (fel grantiau neu gymorthdaliadau, gwarantau ar gyfer benthyciadau, cyfraddau llog manteisiol, a threfniadau i ostwng trethi) sy'n rhoi mantais i fusnesau penodol sy'n camystumio'r farchnad. Er mwyn i fesur gael ei gyfrif yn gymorth gwladwriaethol, rhaid ei fod yn camystumio cystadleuaeth ac yn effeithio ar fasnach rhwng Aelod-wladwriaethau. Er hynny, fe all y Comisiwn gymeradwyo cymorth gwladwriaethol mewn amgylchiadau penodol. Rhaid hysbysu'r Comisiwn am y rhan fwyaf o'r mathau o gymorth gwladwriaethol er mwyn eu cymeradwyo ymlaen llaw.

4.6 Mae'r Comisiwn yn gallu datgan ei farn hefyd ar gynigion penodol i uno cwmnïau a mentrau ar y cyd rhwng cwmnïau mawr sy'n gweithredu yn yr UE, er mwyn sicrhau cystadleuaeth. Mae Rheoliad yr UE ar Uno Cwmnïau'n creu egwyddor 'siop un stop' fel mai'r unig ofyniad i gwmnïau, ar ôl pennu bod trafodiad yn dod o dan ei ddarpariaethau, yw cael caniatâd gan y Comisiwn, ac nid ydynt yn gorfod hysbysu unrhyw awdurdodau cenedlaethol o fewn yr AEE.

4.7 Dim ond yr UE sy'n gallu gwneud rheolau ar gystadleuaeth sydd eu hangen i weithredu'r Farchnad Sengl.[66] Fodd bynnag:

- nid yw cyfraith yr UE ar gystadleuaeth ond yn gymwys i gytundebau a all fod yn wrthgystadleuol ac i ymddygiad busnesau os ydynt yn effeithio ar fasnach rhwng Aelod-wladwriaethau. Mae hefyd yn gymwys i drefniadau i uno cwmnïau sydd ag agwedd sy'n ymwneud â'r UE (h.y. yn gyffredinol, lle mae'r partïon yn fusnesau mawr sy'n gweithredu mewn mwy nag un o Aelod-wladwriaethau'r UE); felly mae'r DU ac Aelod-wladwriaethau eraill yn gallu gwneud eu cyfreithiau eu hunain i reoleiddio achosion domestig. Yn ymarferol, mae system y DU ar gyfer gorfodi cyfraith ar gystadleuaeth wedi'i chysoni â system yr UE er mwyn cael dull o weithredu sy'n unffurf ac sy'n lleihau'r baich ar fusnesau;
- mae'r cyfrifoldeb dros orfodi gwaharddiadau o dan gyfraith cystadleuaeth wedi'i ddatganoli fel nad y Comisiwn yn unig a fydd yn gallu ymchwilio i achosion ond awdurdodau cenedlaethol hefyd os mai nhw sydd yn y lle gorau i ddelio â'r achos. Yn y DU, mae'r rôl hon yn cael ei chyflawni'n bennaf gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd;
- mae trefniadau cyfyngedig i drosglwyddo ymchwiliadau i drefniadau i uno cwmnïau rhwng y Comisiwn a'r Aelod-wladwriaethau lle byddai'r naill neu'r llall yn y lle gorau i ymchwilio. Gall Aelod-wladwriaethau ymyrryd mewn cynlluniau i uno cwmnïau sydd ag agwedd sy'n ymwneud â'r UE os oes angen iddynt ddiogelu buddiannau cyhoeddus dilys, fel diogelwch gwladol
- er mwyn i fesur gael ei gyfrif yn gymorth gwladwriaethol, rhaid ei fod yn camystumio cystadleuaeth ac yn effeithio ar fasnach rhwng Aelod-wladwriaethau.

4.8 Dim ond drwy bleidlais unfrydol y gellir mabwysiadu deddfwriaeth ar uno cwmnïau, felly mae feto gan y DU ac Aelod-wladwriaethau eraill. Mae trefniadau ar gyfer cydweithredu rhwng y Comisiwn ac awdurdodau cenedlaethol ynghylch gorfodi cyfraith cystadleuaeth yn cael eu mabwysiadu drwy Bleidleisio drwy Fwyafrif Cymwysedig yn y Cyngor, ar ôl ymgynghori â Senedd Ewrop.

[66] Erthygl 3(1)(b) o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE.

4.9 Ym maes cymorth gwladwriaethol, gall y Cyngor wneud rheoliadau ar gyfer cymhwyso'r rheolau ar gymorth gwladwriaethol sydd yn y Cytuniadau. Yn benodol, gall y Comisiwn wneud cynigion i bennu pa bryd y mae angen hysbysu'r Comisiwn am gymorth er mwyn cymeradwyo cynlluniau penodol. Bydd y rhain yn cael eu mabwysiadu drwy Bleidleisio drwy Fwyafrif Cymwysedig.

## Diogelu Defnyddwyr

4.10 Mae polisi defnyddwyr yr UE yn ceisio grymuso defnyddwyr drwy roi hawliau iddynt sydd, er enghraifft, yn gorfodi masnachwyr i gyflawni telerau eu contractau, a'r hawl i gael gwybodaeth, fel y bydd defnyddwyr yn fwy hyderus ac yn gallu dewis yn well ar sail gwybodaeth.

4.11 Er bod Aelod-wladwriaethau'n gallu parhau i wneud eu cyfreithiau eu hunain ar faterion defnyddwyr, ar ôl pasio deddfwriaeth gan yr UE ni fyddant yn cael deddfu mewn ffordd sy'n mynd yn groes iddi Mae darpariaethau yn y Cytuniadau sy'n pennu bod rhaid i bolisïau'r UE roi lefel uchel o ddiogelwch i ddefnyddwyr.[67] ae'r Cytuniadau'n ei gwneud yn ofynnol bod yr angen i ddiogelu defnyddwyr yn cael ei ystyried bob amser wrth ddiffinio neu weithredu un o bolisïau neu weithgareddau'r UE.[68]

4.12 Mae'r ddeddfwriaeth a fabwysiadwyd yn y maes hwn wedi ceisio hwyluso datblygiad y Farchnad Sengl drwy alluogi defnyddwyr a masnachwyr i ddisgwyl cael hawliau a rhwymedigaethau tebyg ar draws yr UE. Mae llawer ohoni'n ymdrin â hawliau contractiol sy'n cynnwys meysydd fel telerau contract annheg; gofynion o ran gwybodaeth a hawliau diddymu contractau; a rhwymedïau am fethu â chydymffurfio â thelerau contract.

4.13 Mae'r UE hefyd wedi ceisio diogelu defnyddwyr drwy ddeddfu i sicrhau bod cynhyrchion yn ddiogel, a'u bod wedi'u labelu'n briodol, a bod awdurdodau gorfodi cenedlaethol yn cydweithredu i dynnu cynhyrchion anniogel oddi ar y farchnad ledled yr UE. Yn y DU, gellir rhoi cosb droseddol i berson sy'n cyflenwi cynnyrch anniogel.

4.14 Gellir mabwysiadu mesurau i ddiogelu defnyddwyr drwy un o ddau brif ddull:

- mae'r cyntaf yn caniatáu i'r UE ddeddfu'n benodol i hyrwyddo buddiannau defnyddwyr a sicrhau lefel uchel o ddiogelwch i ddefnyddwyr. Bydd mesurau o'r fath yn cael eu pasio drwy Bleidleisio drwy Fwyafrif Cymwysedig
- mae'r ail ddull ar gael o dan bŵer yr UE i fabwysiadu rheolau i beri i'r Farchnad Sengl weithio. Bydd y mesurau hyn hefyd yn cael eu cytuno ar y cyd rhwng Senedd Ewrop ac Aelod-wladwriaethau yn y Cyngor ac yn cael eu mabwysiadu gan y Cyngor drwy Bleidleisio drwy Fwyafrif Cymwysedig.[69]

[67] Erthygl 169 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE, sy'n ategu Erthygl 114 o'r cytuniad hwnnw.

[68] Erthygl 12 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE.

[69] Mae'r dull cyntaf ar gael o dan Erthygl 169 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE, a'r ail o dan Erthygl 114 o'r cytuniad hwnnw

# Pennod 5 – ymchwil a datblygu

Mae'r UE yn ceisio hybu cystadleurwydd a chynhyrchiant drwy gefnogi ymchwil wyddonol a datblygu technegol. Mae'r DU ac Aelod-wladwriaethau eraill yn cadw'r hawl i weithredu eu rhaglenni ymchwil a datblygu technolegol cenedlaethol eu hunain. Mae rhaglenni'r UE yn ategu'r gweithgarwch cenedlaethol hwn.

5.1 Prif feysydd gweithgarwch yr UE mewn perthynas â gwyddoniaeth ac arloesi yw ariannu gwaith ymchwil ac arloesi, cydgysylltu blaenoriaethau, a datblygu sgiliau ymchwilwyr yn Ewrop.[70] Prif raglen ymchwil ac arloesi'r UE yw Horizon 2020.[71]

5.2 Yn y blynyddoedd diwethaf mae'r DU wedi cyfrannu tua 12 y cant ar gyfartaledd at gyfanswm cyllid yr UE ar gyfer Horizon 2020 ac wedi cael tua 15 y cant o'r cyllid ar gyfer ymchwil gan Horizon 2020 a'r rhaglen a'i rhagflaenodd.[72] Er enghraifft, prifysgolion yn y DU yw'r sefydliadau addysg uwch a dderbyniodd y symiau mwyaf yn Ewrop. Yn fwy cyffredinol, mae Horizon 2020 yn hybu ac yn hwyluso cydweithredu ar draws ffiniau, gan alluogi ymchwilwyr ac arloeswyr i gael gafael ar arbenigedd i ategu eu gwaith a rhannu adnoddau.

5.3 O dan reolau'r UE ar ryddid i symud, mae ymchwilwyr a myfyrwyr yn gallu astudio neu weithio mewn prifysgolion ar draws yr UE. Mae hyn yn ei gwneud yn haws i brifysgolion ddenu ymchwilwyr ac i fyfyrwyr astudio mewn rhannau eraill o'r UE. Mae hyn yn cael ei hwyluso drwy raglen gyfnewid Erasmus+.[73]

5.4 Cytunwyd ar y cyd ar y rheoliadau a sefydlodd Horizon 2020 rhwng Senedd Ewrop ac Aelod-wladwriaethau yn y Cyngor. Mae Aelod-wladwriaethau'n gwneud penderfyniadau yn y Cyngor drwy Bleidleisio drwy Fwyafrif Cymwysedig.

---

70 Mae rôl yr UE mewn ymchwil a datblygu technolegol wedi'i hamlinellu yn Erthyglau 4(3) a 179-190 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE.

71 Horizon 2020 yw wythfed Raglen Fframwaith yr UE ar gyfer Ymchwil ac Arloesi ac mae'n rhedeg rhwng 2014 a 2020.

72 Mae gwybodaeth am gyfraniad y DU at y cyllid yn Adroddiad Ariannol y Comisiwn Ewropeaidd 2014 sydd ar gael ar wefan y Comisiwn Ewropeaidd. Mae gwybodaeth am y derbyniadau yn y seithfed Adroddiad Monitro ar Raglen Fframwaith 7 (rhagflaenydd Horizon 2020) sydd hefyd ar gael ar wefan y Comisiwn.

73 Mae Erasmus+ yn darparu cyfleoedd i gyfranogwyr o'r DU i astudio, gweithio, gwirfoddoli, addysgu a hyfforddi yn Ewrop. Mae'n agored i sefydliadau mewn addysg ysgolion, addysg bellach ac uwch, addysg oedolion a'r sector ieuenctid. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Erasmus+.

# Pennod 6 – amaethyddiaeth a physgodfeydd

Pwrpas fframwaith y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) yw creu sefyllfa gyfartal ar draws yr UE, a sicrhau bod cyflenwad cynaliadwy a fforddiadwy o fwyd sy'n cyrraedd safonau'r UE. Mae aelodaeth o'r UE yn rhoi mynediad llawn hefyd i'r Farchnad Sengl ar gyfer masnachu mewn cynnyrch amaethyddol. Amcan y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (PPC) yw sicrhau bod pysgota a'r cyflenwad o bysgod yn gynaliadwy. Mae diwydiannau amaethyddol a physgodfeydd y DU yn derbyn cyllid oddi wrth yr UE.

6.1 Fel arfer mae rheolau'r UE sy'n gosod safonau ar gyfer amaethyddiaeth a physgodfeydd yn cael eu penderfynu ar y cyd rhwng y Cyngor a Senedd Ewrop.[74] Y Cyngor ar ei ben ei hun sy'n penderfynu ar fesurau ar gyfer gosod prisiau, ardollau, cymorth a therfynau ar feintiau ac ar bennu a dyrannu cyfleoedd i bysgota. Bydd Aelod-wladwriaethau'n gwneud penderfyniadau yn y Cyngor drwy Bleidleisio drwy Fwyafrif Cymwysedig.

## Amaethyddiaeth

6.2 Mae'r PAC yn cynnwys rheolau ar y Farchnad Gyffredin Sengl ar gyfer cynhyrchu a masnachu cynhyrchion amaethyddol. Mae hefyd yn darparu cyllid i ffermwyr a chymunedau gwledig ledled yr UE drwy gymorthdaliadau a rhaglenni datblygu gwledig.

6.3 Pwrpas y PAC yw:

- cynyddu cynhyrchiant amaethyddol;
- sefydlu safon byw deg ar gyfer y gymuned amaethyddol;
- sefydlogi'r farchnad amaethyddol
- sicrhau bod cyflenwadau ar gael i ddefnyddwyr.

6.4 Er bod amcanion y PAC wedi'u gosod ers nifer o flynyddoedd, mae'r ffordd o'u cyflawni wedi newid. Er 2005, mae'r UE wedi mynd ati'n raddol i leihau a dileu cymorthdaliadau seiliedig ar gynhyrchu a oedd yn datgysylltu ffermwyr oddi wrth y farchnad fyd-eang. Heddiw, mae ffermwyr yn cael cymorth yn bennaf drwy daliadau uniongyrchol sy'n gysylltiedig ag arwynebedd y tir y maent yn ei reoli o dan fframwaith safonau cyffredin gorfodol yr UE. Mae'r rhain yn cynnwys darpariaethau ar gyfer yr amgylchedd, cadw tir mewn cyflwr amaethyddol

[74] Mae Erthygl 38 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE yn darparu ar gyfer polisi amaethyddiaeth a physgodfeydd cyffredin a marchnad fewnol ar gyfer amaethyddiaeth, pysgodfeydd a masnach mewn cynhyrchion amaethyddol. Mae eu hamcanion wedi'u nodi yn Erthygl 39.

da ac iechyd cyhoeddus, iechyd anifeiliaid a phlanhigion a lles anifeiliaid (trawsgydymffurfio). Mae Aelod-wladwriaethau'r UE yn dilyn y rheolau ar gyfer marchnata a masnachu cynhyrchion amaethyddol.

6.5 O dan y trefniadau hyn, mae ffermwyr yn cael mynediad i Farchnad Sengl yr UE ar gyfer cynhyrchion amaethyddol, gallant gael taliadau uniongyrchol a gallant wneud cais am gymorth ariannol o'r gronfa datblygu gwledig.

6.6 Mae rheolau'r UE, sydd wedi'u gosod er mwyn lliniaru'r perygl o gyflwyno neu ledaenu clefydau planhigion, yn rheoli'r trefniadau ar gyfer mewnforio planhigion a chynhyrchion planhigion i'r UE ac ar gyfer symud planhigion a chynhyrchion planhigion penodol o fewn yr UE. Un o'r rheolau hyn yw bod rhaid cael tystysgrif ffytoiechydol ar gyfer mewnforio cynhyrchion perthnasol i'r UE, a byddant yn cael eu harchwilio wrth eu mewnforio mewn arolygfeydd ffin dynodedig. Mae rheolau'r UE hefyd yn ceisio sicrhau bod arferion o ran ffermio organig, cynhyrchu, prosesu a labelu'n cyrraedd safonau clir ar draws yr UE.

6.7 Mae'r UE hefyd wedi gwneud nifer o gytundebau dwyochrog ac amlochrog rhyngwladol ar fasnachu a chydweithredu â thrydedd wledydd (y tu allan i'r UE) ac mae nifer o'r cytundebau hyn yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â masnach mewn cynhyrchion amaethyddol a physgod a chydweithredu ym maes amaethyddiaeth a datblygu gwledig. (Mae gwybodaeth fwy manwl am gytundebau masnach yn yr adran ar Fasnach a Buddsoddi.)

### Pysgodfeydd

6.8 Mae PPC yr UE yn ymestyn y Farchnad Sengl amaethyddol i gynnwys pysgodfeydd a masnach mewn cynhyrchion pysgodfeydd. Cytunodd hefyd ar reolau ar ddyframaethu a physgodfeydd dŵr croyw, sy'n ceisio hyrwyddo dyframaethu ac yn gosod safonau gofynnol ar gyfer atal a rheoli afiechydon mewn pysgod.

6.9 Mae'r PPC yn rheoleiddio'r holl bysgota yn nyfroedd Aelod-wladwriaethau'r UE, a chychod Aelod-wladwriaethau'r UE sy'n pysgota y tu allan i'r dyfroedd hynny. Mae hefyd yn ceisio sicrhau bod pysgodfeydd yn gynaliadwy drwy fesurau sydd â'r amcan o gadw adnoddau biolegol morol gan gynnwys pysgod, cramenogion a molysgiaid, gan sicrhau'r budd economaidd mwyaf posibl.

6.10 Mae'r PPC yn cynnwys mesurau ar gyfer:

- rheoli pysgodfeydd, gan gynnwys mynediad i ddyfroedd, diwrnodau a dreulir yn pysgota yn y môr, y rhwydi y caiff cychod eu defnyddio a faint o bysgod y gallant eu dal;
- pysgota cynaliadwy drwy'r byd (drwy gytundebau rhyngwladol rhwng yr UE a gwledydd eraill) a rheolau sy'n gwahardd mewnforio o wledydd sy'n pysgota'n anghyfreithlon;
- marchnadoedd, masnach a gwell cystadleurwydd mewn pysgod a cynhyrchion pysgodfeydd
- cymorth ariannol i ddiwydiannau pysgota, prosesu pysgod a dyframaethu. Cyflawnir hyn yn bennaf drwy Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop.

6.11 Mae'r PPC yn caniatáu i Aelod-wladwriaethau gyflwyno rheolau pysgodfeydd ychwanegol yn yr arwynebedd sy'n ymestyn 12 milltir forol o'u harfordiroedd, ar yr amod eu bod yn gyson â'r PPC.

6.12 Gall Aelod-wladwriaethau atal cychod o Aelod-wladwriaethau eraill rhag pysgota yn yr arwynebedd môr sy'n ymestyn 12 milltir forol o'u harfordiroedd, heblaw'r cychod hynny sydd â hawliau pysgota hanesyddol yn yr arwynebedd 6-12 milltir forol. Fel arall, mae gan bysgotwyr o Aelod-wladwriaethau'r UE yr un hawl i fynd i ddyfroedd Aelod-wladwriaethau'r UE (sydd wedi'u diffinio'n rhai sydd hyd at 200 milltir forol oddi ar arfordiroedd yr Aelod-wladwriaethau) ac i ddyfroedd gwledydd y mae'r UE wedi gwneud cytundebau pysgodfeydd rhyngwladol â nhw.[75]

6.13 O ganlyniad i ddiwygio'r PPC yn 2013, gwaharddwyd yr arfer o daflu pysgod bwytadwy'n ôl, crëwyd rhwymedigaeth gyfreithiol i bysgota mewn ffordd gynaliadwy a sefydlwyd system rhanbartholi newydd sy'n caniatáu i Aelod-wladwriaethau mewn rhanbarth penodol gyflwyno argymhellion ar y cyd i'r Comisiwn Ewropeaidd a all ddod yn rhan o gyfraith yr UE wedyn. Er enghraifft, mae grwpiau o Aelod-wladwriaethau bellach wedi datblygu cynlluniau gwaredu rhanbarthol manwl ar gyfer gweithredu'r rhwymedigaeth i lanio pysgod yn eu hardaloedd (yn achos y DU, y rhain yw Môr y Gogledd a Dyfroedd y Gogledd-orllewin).

6.14 Mae'r rhan fwyaf o fesurau'r UE ar gyfer rheoli pysgodfeydd wedi'u cynnwys yng nghyfreithiau'r UE sy'n cael eu cymhwyso'n uniongyrchol i bysgotwyr ac yn cael eu gorfodi o dan ddeddfwriaeth y DU. Mae hyn yn cynnwys fframwaith cyffredin ar gyfer gorfodi a rheoli mewn pysgodfeydd.

6.15 Yn ogystal â hyn, mae fframwaith casglu data ar gyfer yr UE cyfan sy'n ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau gasglu data yn y sector pysgodfeydd ac adrodd arnynt i'r Comisiwn. Ei bwrpas yw ategu'r cyngor gwyddonol ar gyfer y PPC mewn perthynas, er enghraifft, â'r asesiadau blynyddol o stociau pysgod.

---

75 O dan Gytundebau Partneriaeth Pysgodfeydd â gwladwriaethau sydd y tu allan i'r UE, gall cychod yr UE bysgota am stociau sydd dros ben yn nyfroedd y gwledydd hynny o dan delerau'r Cytundebau.

# Pennod 7 – iechyd a lles anifeiliaid a pholisi bwyd

> Pwrpas rheolau'r UE ar iechyd anifeiliaid, iechyd cyhoeddus a diogelwch bwyd yw sicrhau diogelwch i ddefnyddwyr. Mae'r rheolau hyn yn ceisio hwyluso masnach mewn anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid a sefyllfa gyfartal ar draws y Farchnad Sengl. Mae'r UE yn darparu cymorth i Aelod-wladwriaethau, gan gynnwys y DU, pan fyddant yn gorfod delio ag achosion o glefydau mewn anifeiliaid.

### Iechyd a Lles Anifeiliaid

7.1 Mae'r UE wedi cytuno ar reolau sy'n ceisio diogelu iechyd anifeiliaid a sicrhau lles a thriniaeth heb greulondeb i anifeiliaid. Gan fod rhai clefydau anifeiliaid yn gallu cael eu trosglwyddo i bobl (gan gynnwys drwy fwyd) mae goblygiadau hefyd i iechyd cyhoeddus.

7.2 Fel arfer cytunir ar y cyd ar gyfreithiau'r UE ar iechyd a lles anifeiliaid rhwng Senedd Ewrop ac Aelod-wladwriaethau yn y Cyngor. Mae Aelod-wladwriaethau'n gwneud penderfyniadau yn y Cyngor drwy Bleidleisio drwy Fwyafrif Cymwysedig.[76]

7.3 Yn aml bydd rheolau'r UE yn y maes hwn yn adlewyrchu safonau rhyngwladol sydd wedi'u gosod gan sefydliadau rhyngwladol fel Sefydliad Iechyd Anifeiliaid y Byd. Mae milfeddygon Llywodraeth y DU yn cymryd rhan mewn gwaith gan bwyllgorau Sefydliad Iechyd Anifeiliaid y Byd sy'n ymwneud â gosod safonau ar gyfer rheoli a dileu clefydau. Mae rheolau'r UE yn cwmpasu'r meysydd pwysig canlynol:

- atal, rheoli a dileu clefydau: rheolau iechyd anifeiliaid ar atal, rheoli a dileu clefydau anifeiliaid fel clwy'r traed a'r genau, ffliw adar a thwbercwlosis buchol (TB);
- mewnforion a masnachu o fewn yr UE mewn anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid: rheolau iechyd anifeiliaid ar fasnachu, y gallu i olrhain, cysoni archwiliadau'r Aelod-wladwriaethau a sgil-gynhyrchion anifeiliaid;
- lles anifeiliaid fferm ac anifeiliaid eraill: safonau gofynnol ar gyfer cadw, cludo a lladd anifeiliaid fferm, a safonau lles ar gyfer anifeiliaid a gedwir mewn sŵau ac i ddibenion gwyddonol
- meddyginiaethau milfeddygol, porthiant meddyginiaethol a gweddillau meddyginiaethau milfeddygol mewn da byw.

---

[76] Mae deddfwriaeth ar iechyd a lles anifeiliaid yn cael ei mabwysiadu o dan Erthygl 43, 114 neu 168 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE neu gyfuniad o'r rhain.

7.4 Mae'r UE yn darparu cyllid, o hyd at 50 y cant o'r gost i lywodraethau cenedlaethol, ar gyfer dileu, rheoli a chadw golwg ar glefydau anifeiliaid. Gellir defnyddio'r cyllid hwn hefyd i hwyluso camau gweithredu cyflym gan Aelod-wladwriaethau mewn ymateb i achosion brys o glefydau anifeiliaid.

## Diogelwch bwyd

7.5 Mae rheolau'r UE ar ddiogelwch bwyd yn cwmpasu meysydd fel y defnydd o ychwanegion a sylweddau eraill i wella bwyd, ac yn gosod terfynau ar lefelau'r halogion mewn bwydydd. Pwrpas y rheolau hyn yw sicrhau lefel uchel o ddiogelwch i iechyd dynol a chreu sefyllfa gyfartal ar gyfer cynhyrchu bwyd ar draws yr UE. Mae Aelod-wladwriaethau'n gallu arfer eu disgresiwn i gyflwyno rheolau cenedlaethol mewn rhai amgylchiadau lle nad yw hyn yn amharu ar y Farchnad Sengl, neu lle mae angen cymryd camau ar frys i ddiogelu poblogaeth y wlad rhag bygythiad penodol.

7.6 Mae prif reolau'r UE yn y meysydd hyn yn cael eu gwneud ar y cyd gan y Cyngor a Senedd Ewrop.[77]

7.7 Mae tri phrif gategori o reolau yn y maes hwn:

- diogelwch bwyd: cyfreithiau sy'n diffinio beth yw bwyd “anniogel”, er mwyn sicrhau na chaiff ei gyflenwi mewn unman ar draws yr UE;
- hylendid bwyd: cyfreithiau sy'n pennu sut y dylai bwyd gael ei gynhyrchu, ei brosesu, ei drin a'i ddosbarthu. Mae'r rheolau yn y maes hwn ar gyfer cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid yn fanwl iawn am fod y risg i iechyd yn fwy
- safonau diogelwch: safonau ar gyfer bwydydd, cynhwysion bwyd neu sylweddau penodol fel ychwanegion bwyd, cyflasynnau, bwydydd a addaswyd yn enetig neu a arbelydrwyd, bwydydd newydd, neu halogion.

7.8 Mae cyfreithiau diogelwch bwyd hefyd ar gyfer y deunyddiau y bydd bwyd yn dod i gysylltiad â nhw, er enghraifft, deunydd lapio neu gynwysyddion. Pwrpas y rheolau hyn yw sicrhau na fydd cydrannau'r deunyddiau hyn yn cael eu trosglwyddo i fwydydd mewn meintiau a fyddai'n halogi'r bwyd.

7.9 Mae cysylltiad agos rhwng diogelwch porthiant anifeiliaid a diogelwch bwyd, lles anifeiliaid a'r amgylchedd. Mae cyfreithiau'r UE ar borthiant yn ymdrin â diogelwch porthiant, hylendid porthiant a safonau diogelwch ar gyfer mathau o borthiant a'u cynhwysion.

## Labelu bwyd a chyfansoddiad bwyd

7.10 Penderfynir ar y cyd ar brif gyfreithiau'r UE ar labelu bwyd a chyfansoddiad bwyd rhwng y Cyngor a Senedd Ewrop. Bydd Aelod-wladwriaethau'n gwneud penderfyniadau yn y Cyngor drwy Bleidleisio drwy Fwyafrif Cymwysedig.[78]

---

77 Mae deddfwriaeth ar ddiogelwch bwyd yn cael ei mabwysiadu o dan Erthygl 43, 114, 207 neu 168 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE neu gyfuniad o'r rhain. Dilynir y weithdrefn ddeddfwriaethol arferol y darparwyd ar ei chyfer yn Erthygl 289 o'r Cytuniad. Darperir ar gyfer Pleidleisio drwy Fwyafrif Cymwysedig mewn perthynas â'r weithdrefn honno yn Erthygl 294 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE.

78 Mabwysiedir deddfwriaeth ar labelu bwyd o dan Erthygl 114 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE; deddfwriaeth ar gyfansoddiad bwyd o dan Erthygl 43 a deddfwriaeth ar enwau bwyd wedi'u hamddiffyn o dan Erthyglau 43 a 118.

7.11 Mewn rhai achosion, mae rheolau'r UE yn y maes hwn yn adlewyrchu safonau bwyd rhyngwladol sydd wedi'u gosod gan y Comisiwn Codex Alimentarius.[79] Mae'r UE a'r DU ill dau'n aelodau ohono.

7.12 Mae rheolau'r UE yn ymwneud â'r meysydd pwysig canlynol:

- hwyluso'r gallu i symud bwyd yn rhydd;
- cysoni cyfreithiau ar fwyd;
- diogelu iechyd defnyddwyr
- diogelu defnyddwyr yn gyffredinol, er enghraifft drwy sicrhau nad yw defnyddwyr yn cael eu camarwain ynghylch cynnwys neu ansawdd bwyd.

7.13 Mae rheolau ar labelu bwyd yn ymwneud â labelu, cyflwyno a hysbysebu bwyd ac yn cynnwys rheolau ar enwi cynhyrchion, labelu alergenau, labelu maethynnau, rhestru cynhwysion, labelu gwlad y tarddiad a dyddiadau "defnyddio erbyn" ac "ar ei orau cyn". Mae rheolau ar gyfansoddiad bwyd yn gymwys i gyfansoddiad cynhyrchion a'u labelu..

7.14 Mae'r UE wedi mabwysiadu cynllun i amddiffyn enwau bwydydd rhanbarthol a thraddodiadol y gellir gwarantu eu dilysrwydd a'u tarddiad. Mae cynhyrchion bwyd neu ddiod a ddynodwyd o dan y cynllun yn cael eu diogelu o dan y gyfraith rhag eu dynwared drwy'r UE.

7.15 Mae rhywfaint o gyfle gan Aelod-wladwriaethau i ddatblygu gofynion labelu ychwanegol ar gyfer cynhyrchion domestig. Mae'r DU wedi gwneud hyn mewn perthynas â bwyd sy'n cael ei werthu heb ei becynnu dros y cownter. O ganlyniad i hyn, mae gwybodaeth ychwanegol ar gael i ddefnyddwyr y DU nad yw'n ofynnol o dan reolau'r UE.

---

[79] Mae darpariaethau ar gyfer marciau dyddiad (er enghraifft, dyddiadau "defnyddio erbyn") yn enghraifft o hyn

# Pennod 8 – trafnidiaeth

Mae'r UE wedi ceisio creu Marchnad Sengl ar gyfer gwasanaethau trafnidiaeth o fewn yr UE er mwyn cyflwyno mwy o gystadleuaeth. Mae hefyd wedi cytuno ar reolau a safonau cyffredin i warchod hawliau defnyddwyr, sicrhau diogelwch a diogelu'r amgylchedd.

8.1 Mae'r DU ac Aelod-wladwriaethau eraill yn rhannu cyfrifoldeb dros reoleiddio gwasanaethau trafnidiaeth gyda'r UE.[80] Mae'r UE wedi cytuno ar set o gyfreithiau i greu Marchnad Sengl ar gyfer gwasanaethau trafnidiaeth ym mhob modd teithio.[81] Pwrpas y rheolau hyn yw hwyluso trafnidiaeth ryngwladol o fewn yr UE ac agor marchnadoedd cenedlaethol i ddarparwyr gwasanaethau trafnidiaeth mewn Aelod-wladwriaethau eraill, er mantais i fusnesau a defnyddwyr.

8.2 Yn ogystal â hyn, mae'r UE wedi cytuno ar set o reolau a safonau cyffredin sy'n ceisio diogelu hawliau defnyddwyr, sicrhau diogelwch, diogelu'r amgylchedd a hawliau gweithwyr.

8.3 O ganlyniad i hyn, mae cyfraith yr UE yn creu hawliau a rhwymedigaethau sy'n gymwys i Aelod-wladwriaethau, rheoleiddwyr trafnidiaeth, darparwyr gwasanaethau trafnidiaeth, teithwyr a gweithwyr. Mae'r rhain wedi'u disgrifio isod ar gyfer y gwahanol foddau trafnidiaeth. Mae rhai o'r rheolau a wnaeth yr UE yn gorfodi neu'n hyrwyddo safonau rhyngwladol eraill.

8.4 Fel arfer cytunir ar y cyd ar reolau ar bolisi trafnidiaeth rhwng Senedd Ewrop ac Aelod-wladwriaethau yn y Cyngor. Bydd Aelod-wladwriaethau'n gwneud penderfyniadau yn y Cyngor drwy Bleidleisio drwy Fwyafrif Cymwysedig.

## Hedfan

8.5 Mae'r farchnad sengl ar gyfer hedfan yn rhoi rhyddid i gwmnïau hedfan yr UE fynd â'u hawyrennau i ble bynnag maent yn dymuno yn yr UE, ar yr amod eu bod yn cydymffurfio â safonau cyffredin ar gyfer diogelwch eiddo a diogelwch personol. Mae hyn wedi agor marchnadoedd a oedd gynt yn cael eu gwasanaethu'n bennaf gan gwmnïau sy'n hedfan o dan faneri cenedlaethol, gan greu mwy o ddewis i deithwyr a gostwng prisiau.

80 Erthygl 4 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE.

81 Mae Teitl VI o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE, Erthygl 90, yn darparu bod rhaid dilyn amcanion yr UE mewn materion trafnidiaeth o fewn fframwaith polisi trafnidiaeth cyffredin. Mae Erthygl 91 yn diffinio'r sail gyfreithiol ar gyfer arfer cymhwysedd ym mhob agwedd ar drafnidiaeth ar dir. Er bod y darpariaethau yn Nheitl VI o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE yn gymwys i drafnidiaeth ar reilffyrdd, ffyrdd a dyfrffyrdd mewndirol yn unig (Erthygl 100(1)), mae Senedd Ewrop a'r Cyngor, drwy weithredu'n unol â'r weithdrefn ddeddfwriaethol arferol, yn gallu penderfynu gosod darpariaethau priodol ar gyfer trafnidiaeth môr ac awyr (Erthygl 100(2)).

8.6 Mae’r cyfreithiau y cytunodd yr UE arnynt yn cynnwys rheolau ar gyfer y Farchnad Sengl sy’n rhoi’r gallu i gwmnïau hedfan gystadlu’n deg ac agored â’i gilydd, ac yn darparu ar gyfer codi ffioedd ar feysydd awyr. Mae rheolau cyffredin hefyd mewn perthynas â diogelwch pobl ac eiddo, rheoli traffig awyr a meysydd awyr, yr amgylchedd, a hawliau teithwyr, gan gynnwys digolledu am ganslo neu ohirio teithiau.

## Morol

8.7 Mae gweithgarwch yr UE yn y maes hwn yn cynnwys rheolau cyffredin i sefydlu Marchnad Sengl ar gyfer cludo nwyddau a theithwyr rhwng porthladdoedd Aelod-wladwriaethau. Maent hefyd yn cwmpasu diogelwch personol, diogelwch porthladdoedd a llongau’r UE, rheolau amgylcheddol a hawliau teithwyr a gweithwyr a rheolau ar gyfer diogelu iechyd, diogelwch ac amodau gweithio morwyr.

## Rheilffyrdd

8.8 Mae’r UE wedi cytuno ar reolau cyffredin ar gyfer agor marchnadoedd teithwyr rheilffyrdd rhyngwladol a marchnadoedd cludo nwyddau cenedlaethol a rhyngwladol ar reilffyrdd i gystadleuaeth. Mae hefyd wedi cytuno ar reolau a safonau cyffredin ar gyfer rheoli diogelwch a phrosesau ardystio diogelwch, system ar gyfer safonau technegol a gweithredol cyffredin, a phrosesau awdurdodi ar gyfer seilwaith rheilffyrdd a cherbydau rheilffyrdd a hawliau sylfaenol i deithwyr mewn meysydd “craidd” sy’n ymwneud ag argaeledd tocynnau, atebolrwydd cwmnïau trenau a’u rhwymedigaethau o ran yswiriant ar gyfer teithwyr a’u paciau, hygyrchedd a gwybodaeth i bobl anabl a diogelwch personol teithwyr. Mae’r DU wedi optio allan o’r trefniadau ar gyfer darparu hawliau ychwanegol i deithwyr y tu allan i’r meysydd “craidd”. Mae rheolau hefyd ar oriau gwaith mewn perthynas â gwasanaethau rheilffyrdd rhyngwladol, sy’n ategu’r rheolau cyffredinol ar oriau gwaith.

## Trafnidiaeth ffyrdd

8.9 Mae’r UE wedi cytuno ar nifer o reolau sy’n ymwneud â thrafnidiaeth ffyrdd i sicrhau bod y Farchnad Sengl yn gallu gweithio’n briodol, i sicrhau diogelwch teithwyr a defnyddwyr ffyrdd ac i ddiogelu’r amgylchedd.

8.10 Ymhlith y rheolau y cytunwyd arnynt, mae rhai ar gyfer rhyddfrydoli gwasanaethau cludo teithwyr a nwyddau ar ffyrdd ar lefel ryngwladol ac Ewropeaidd i greu Marchnad Sengl yn y maes hwn, gan alluogi cludwyr ar ffyrdd a chwmnïau coetsys a gofrestrwyd mewn un Aelod-wladwriaeth i gystadlu mewn marchnadoedd eraill yn yr UE. Yn ogystal â hyn, mae gofynion cyffredin ar gyfer cydymffurfio â safonau penodedig ar gyfer diogelwch a materion technegol ac amgylcheddol, sicrhau diogelwch teithwyr ffyrdd a gwarchod hawliau teithwyr.

# Pennod 9 – Undeb Economaidd ac Ariannol

> Nid yw'r DU yn aelod o'r ewro ac mae wedi optio allan o drefniadau i ymuno â'r ewro. Mae'r DU yn cadw rheolaeth dros ei pholisi economaidd ac ariannol. Mae'r Undeb Economaidd ac Ariannol yn darparu ar gyfer cydgysylltu polisïau economaidd a chyllidol Aelod-wladwriaethau'r UE ac, yn achos y gwledydd hynny sydd wedi mabwysiadu'r ewro, polisi ariannol cyffredin.

9.1 Yn ystod y negodi ar Gytuniad Maastricht ym 1992, sicrhaodd y DU hawl i optio allan o'r ymrwymiad i ymuno â'r ewro. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer optio allan o Gytuniadau'r UE yn datgan "the UK shall not be obliged or committed to adopt the euro without a separate decision to do so by its government and parliament".[82] Yn ymarferol, mae hyn yn golygu:

- bod rhwymedigaethau'r DU yn wahanol i rai'r Aelod-wladwriaethau eraill mewn perthynas â'r Semester Ewropeaidd a rheolau'r UE ar bolisi cyllidol;
- bod y DU yn cadw cymhwysedd ar gyfer ei pholisi ariannol ei hun
- nad yw'r DU wedi cymryd rhan mewn nifer o feysydd sy'n gysylltiedig â dyfnhau'r Undeb Economaidd ac Ariannol a sefydlogrwydd ariannol yr ewro, gan gynnwys yr Undeb Bancio.

## Y Semester Ewropeaidd

9.2 Mae proses yr UE ar gyfer cydgysylltu polisïau economaidd a chyllidol yn cael ei chyflawni drwy gylch blynyddol o gofnodi ac asesu perfformiad economïau'r Aelod-wladwriaethau, a elwir yn Semester Ewropeaidd. Pwrpas y broses hon o adolygu gan gymheiriaid yw hyrwyddo twf economaidd yr UE, atal diffyg cydbwysedd macroeconomaidd rhag datblygu a sicrhau polisïau cyllidol cynaliadwy yn yr holl Aelod-wladwriaethau.

9.3 Yn wahanol i Aelod-wladwriaethau eraill, ni ellir gorfodi'r DU i gydymffurfio ag argymhellion yr UE (h.y. drwy osod sancsiynau neu gosbau ariannol). Nid yw'n ofynnol i'r DU gymryd rhan mewn cynlluniau ar gyfer datblygu'r Undeb Economaidd ac Ariannol yn y dyfodol, fel y rhai ar gyfer cydgysylltu dyfnach rhwng polisïau economaidd a chyllidol.[83]

## Polisi ariannol

9.4 Mae Banc Canolog Ewrop yn gyfrifol am bennu polisi ariannol Aelod-wladwriaethau sy'n defnyddio'r ewro.[84] Nid yw hyn yn gymwys i'r DU. O ganlyniad i optio allan a'i

---

82 Protocol (Rhif 15) i Gytuniadau'r UE

83 Casgliadau'r Cyngor Ewropeaidd, Chwefror 2016, Atodiad 1.

84 Erthygl 127 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE.

phenderfyniad i beidio â mabwysiadu'r ewro, mae'r DU yn cadw cymhwysedd dros ei pholisi ariannol ei hun.

### Cymorth ariannol

9.5 Mae'r UE wedi datblygu mecanweithiau i ddarparu cymorth ariannol i Aelod-wladwriaethau a thrydedd wledydd (gwledydd y tu allan i'r UE) sy'n wynebu anawsterau ariannol eithriadol. Defnyddir cyllideb yr UE i warantu benthyciadau cymorth ariannol i Aelod-wladwriaethau nad ydynt yn defnyddio'r ewro. Nid yw'r DU yn gorfod cymryd rhan mewn benthyciadau a ddarperir yn y dyfodol ar gyfer sefydlogi ardal yr ewro, na dal rhwymedigaethau ar eu cyfer.[85]

### Amddiffyniadau i'r DU

9.6 Mae'r Undeb Economaidd ac Ariannol yn darparu ar gyfer cydgysylltu polisïau economaidd a chyllidol Aelod-wladwriaethau'r UE ac, yn achos y gwledydd hynny sydd wedi mabwysiadu'r ewro (ardal yr ewro), polisi ariannol cyffredin.

9.7 O ganlyniad i setliad y DU mewn perthynas â'r Undeb Economaidd ac Ariannol:

- mae'r DU wedi cadw'r bunt ac ni fydd yn ymuno â'r ewro;
- nid yw'r DU yn cymryd rhan yn yr Undeb Bancio, felly mae'n cadw cyfrifoldeb dros oruchwylio banciau'r DU
- mae'r DU o dan rwymedigaeth lai i gydgysylltu polisi economaidd a chyllidol ac, yn wahanol i Aelod-wladwriaethau eraill, ni ellir ei chosbi o dan reolau'r UE.

9.8 Mae'r setliad a negodwyd gan y DU yng nghyfarfod y Cyngor Ewropeaidd yn Chwefror 2016 wedi sicrhau amddiffyniadau ychwanegol i'r DU yng nghyd-destun llywodraethu economaidd yn yr UE. Mae hyn yn golygu:

- mai mater gwirfoddol i'r DU fydd cymryd rhan mewn unrhyw fesurau pellach i ddyfnhau'r Undeb Economaidd ac Ariannol;
- bod rhaid i fesurau o'r fath barchu hawliau'r DU, ac integredd y Farchnad Sengl;
- bod y cyfrifoldeb dros oruchwylio sefydlogrwydd ariannol y DU yn aros yn nwylo Banc Lloegr ac awdurdodau eraill yn y DU;
- na fydd trethdalwyr y DU byth yn gorfod talu am fesurau i ddiogelu ardal yr ewro yn y dyfodol
- y bydd pob trafodaeth am faterion sy'n effeithio ar holl Aelod-wladwriaethau'r UE yn cynnwys holl Aelod-wladwriaethau'r UE, gan gynnwys y DU, nid aelodau ardal yr ewro yn unig.

9.9 Yn ogystal â hyn, mae'r setliad yn cynnwys mecanwaith diogelu newydd sy'n galluogi'r DU neu unrhyw Aelod-wladwriaeth arall nad yw yn yr Undeb Bancio i fynd ag unrhyw bryderon ynghylch yr amddiffyniadau hyn at benaethiaid gwladwriaeth neu lywodraeth yn y Cyngor Ewropeaidd.

---

85 Nid yw'r DU yn cymryd rhan yn ardal yr ewro, dim ond yn y Mecanwaith Sefydlogrwydd Ewropeaidd, ac mae wedi sicrhau cytundeb y bydd yr holl aelodau nad ydynt yn ardal yr ewro yn cael eu digolledu'n llawn ac yn syth am unrhyw gostau a ysgwyddwyd drwy fenthyciadau o'r Mecanwaith Sefydlogrwydd Ariannol Ewropeaidd. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y Datganiad ar y Cyd 10994/15, Gorffennaf 2015.

# Pennod 10 – undeb tollau a threthiant

Mae'r DU ac Aelod-wladwriaethau eraill yn gosod eu polisi treth eu hunain, ac yn codi eu trethi eu hunain, er bod rhaid i'w rheolau treth gydymffurfio ag egwyddorion penodol yng nghyfraith yr UE. Nid yw'r UE yn penderfynu ar reolau sy'n ymwneud â threthiant uniongyrchol, fel treth incwm neu dreth gorfforaeth, ond fe all basio rheolau lle byddai hyn yn gwneud i'r Farchnad Sengl weithio'n fwy effeithiol. Mae rheolau ar rai trethi anuniongyrchol, fel TAW a rhai tollau cartref, wedi'u cysoni'n rhannol ar lefel yr UE.

## Trethiant

10.1 Mae rheolau treth safonedig yn gymwys ledled yr UE mewn perthynas â threthiant anuniongyrchol, gan gynnwys TAW a thollau cartref (yn benodol, tybaco, alcohol ac ynni).[86] Ar yr amod y ceir cytundeb unfrydol ymysg Aelod-wladwriaethau yn y Cyngor, gellir diwygio'r rhain i sicrhau bod y Farchnad Sengl yn cael ei sefydlu a'i gweithredu ac i osgoi camystumio ar gystadleuaeth. Mae fframweithiau deddfwriaethol yr UE ar drethiant anuniongyrchol yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i Aelod-wladwriaethau ynghylch gosod cyfraddau TAW a thollau cartref, o fewn terfynau penodol. Maent hefyd yn rhoi rhyddid i benderfynu ar rai o'r dulliau gweithredu, fel y ffordd o gasglu TAW.

10.2 Yn ogystal â hyn, mae trethi anuniongyrchol domestig eraill, fel trethi amgylcheddol a threthi cysylltiedig, yn gorfod bod yn gyson â chyfraith yr UE. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, na allant ddarparu cymorth gwladwriaethol a fyddai'n ystumio'r farchnad yn annheg ac yn tanseilio cystadleuaeth deg.

10.3 Ym maes trethiant uniongyrchol, mae Aelod-wladwriaethau'n cyfnewid gwybodaeth, o dan reolau'r UE, mewn perthynas â gweinyddu a gorfodi trethi ag Aelod-wladwriaethau eraill. Mae hyn yn helpu i atal camddefnydd o drethi. Mae Aelod-wladwriaethau'n gorfod sicrhau bod systemau trethu uniongyrchol yn rhoi sylw i reolau'r UE ar ryddid i symud, peidio â gwahaniaethu a chymorth gwladwriaethol.

10.4 Os bydd pob Aelod-wladwriaeth yn cytuno, gall yr UE basio rheolau ar drethiant ar gyfer cysoni mewn meysydd sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y gallu i sefydlu neu weithredu'r Farchnad Sengl. Mae hyn yn golygu bod feto gan bob Aelod-wladwriaeth, ond hyd yn hyn mae'r rheolau hyn wedi'u defnyddio i ddileu rhwystrau, i fusnesau'n bennaf, o fewn y Farchnad Sengl. Er enghraifft, rheolau sydd: yn diddymu'r gallu i gadw trethi'n ôl wrth dalu difidendau

[86] Mae Erthygl 113 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE yn diffinio gallu'r Cyngor i fabwysiadu darpariaethau ar gysoni trethiant anuniongyrchol.

rhwng cwmnïau cysylltiedig mewn gwahanol Aelod-wladwriaethau; yn darparu ar gyfer system drethu gyffredin i'w chymhwyso wrth ad-drefnu cwmnïau yn yr UE ar draws ffiniau; ac yn diddymu'r gallu i gadw trethi'n ôl ar daliadau llog a breindal sy'n codi mewn Aelod-wladwriaeth.

### Yr undeb tollau

10.5 Wrth greu'r Farchnad Sengl, sefydlodd yr UE undeb tollau rhwng yr Aelod-wladwriaethau. Mae esboniad manylach o'r undeb tollau ar ddechrau Pennod 3.[87]

[87] Erthygl 28 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE

# Pennod 11 – hawliau cyflogaeth, peidio â gwahaniaethu a diogelu data

Mae cyfraith yr UE yn rhoi hawliau penodol i weithwyr yr UE ac yn gwarchod iechyd a diogelwch gwladolion yr UE yn y gwaith. Mae'r UE wedi gosod safonau gofynnol i atal gwahaniaethu yn y gwaith a hyrwyddo cydraddoldeb. Ond fe all Aelod-wladwriaethau osod safonau uwch os ydynt yn dymuno. Mae cyfraith yr UE hefyd yn rhoi hawliau penodol i ddinasyddion yr UE y mae eu data personol yn cael eu casglu, eu storio a'u defnyddio neu eu prosesu fel arall gan eraill. Er mwyn helpu i ddiogelu'r hawliau hyn, mae cyfraith yr UE yn gosod rhwymedigaethau ar y rheini sy'n casglu data personol ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch eu prosesu.

11.1 Mae'r UE wedi cytuno ar reolau ar gyfer polisi cymdeithasol a chyflogaeth, iechyd a diogelwch, peidio â gwahaniaethu a chydraddoldeb.[88] Cytunir ar y cyd ar y rheolau hyn rhwng Senedd Ewrop ac Aelod-wladwriaethau yn y Cyngor. Mae'r DU ac Aelod-wladwriaethau eraill yn gallu mynegi barn drwy bleidleisio yn y Cyngor, sy'n penderfynu drwy Bleidleisio drwy Fwyafrif Cymwysedig yn y rhan fwyaf o achosion. Mewn rhai meysydd sensitif iawn fel diogelu gweithwyr os dilëir eu swyddi a chysoni rheolau ynghylch gwahaniaethu ar sail hil, dilynir rheolau ar bleidleisio unfrydol, fel bod feto gan bob Aelod-wladwriaeth.

## Rheolau cyflogaeth a llafur

11.2 Mae cyfreithiau cyflogaeth yr UE yn gwarantu hawliau i weithwyr, er mwyn hybu cyflogaeth a gwella amodau byw a gweithio. Mae hawl gan y DU i gadw neu gyflwyno mesurau llymach os yw'n dymuno, ar yr amod bod y rhain yn gyson â'r Cytuniadau, ac mae wedi gwneud hyn mewn perthynas ag absenoldeb mamolaeth, er enghraifft. Un maes y mae'r UE wedi cytuno ar reolau ar ei gyfer yw oriau gwaith cyflogeion, gan gynnwys yr wythnos waith hiraf o 48 awr, er bod Aelod-wladwriaethau'n cael caniatáu i weithwyr optio allan o'r rheol hon os ydynt yn dymuno.

11.3 Ni all yr UE ddeddfu mewn perthynas â lefelau tâl, yr hawl i gymdeithasu, yr hawl i streicio a'r hawl i gau allan.

11.4 Mae'r DU ac Aelod-wladwriaethau eraill yn gallu rhoi feto ar ddeddfwriaeth arfaethedig yr UE mewn rhai meysydd: budd-daliadau nawdd cymdeithasol ac amddiffyniad cymdeithasol i weithwyr, amddiffyn gweithwyr sy'n colli eu swyddi, cynrychioli a chydamddiffyn buddiannau gweithwyr a chyflogwyr ac amodau cyflogaeth ar gyfer gwladolion o'r tu allan i'r UE sy'n gweithio yn yr UE.

---

[88] Mae'r darpariaethau allweddol yn y meysydd hyn yn Erthygl 19 a Theitl X o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE..

11.5 Mae'r UE wedi cytuno ar reolau sy'n diogelu gweithwyr yn y meysydd canlynol:

- tâl ac absenoldeb mamolaeth, absenoldeb tadolaeth heb dâl a diogelu gweithwyr ifanc: mae cyfraith yr UE yn ei gwneud yn ofynnol i bob Aelod-wladwriaeth roi hawl i fenywod gael absenoldeb mamolaeth o 14 wythnos o leiaf a thâl am yr absenoldeb hwnnw ar yr un gyfradd o leiaf â thâl salwch. Mae cyfraith yr UE hefyd yn rhoi i fenywod a dynion yr hawl i gael absenoldeb rhiant di-dâl o bedwar mis o leiaf ar ôl geni neu fabwysiadu plentyn. Yn ogystal â hyn, mae cyfraith yr UE yn gwahardd llafur plant, ac yn pennu gofynion sylfaenol ar gyfer diogelu gweithwyr sydd o dan 18 mlwydd oed;
- gwybodaeth ac ymgynghori â chyflogeion: mae cyfraith yr UE yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr hysbysu cyflogeion am yr amodau ar eu cyflogaeth (er enghraifft, eu cyflog a'u horiau gwaith); ac i'w hysbysu ac ymgynghori â nhw cyn dileu nifer o swyddi ar y cyd ac ar faterion eraill. Mae cyfraith yr UE hefyd yn rhoi hawliau i gyflogeion lle mae perchenogaeth busnes yn newid;
- oriau gwaith: mae'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith yn gosod rheolau ar oriau gwaith sy'n ceisio gwarchod iechyd a diogelwch gweithwyr.[89] Mae hyn yn cynnwys hawliau i gael cyfnodau gorffwys dyddiol ac wythnosol sylfaenol, gwyliau blynyddol â thâl o bedair wythnos y flwyddyn o leiaf ac amddiffyniadau i weithwyr nos a gweithwyr mewn sectorau penodol (er enghraifft, morwyr, gweithwyr hedfan sifil a gweithwyr symudol mewn gwasanaethau rheilffyrdd sy'n croesi ffiniau). Gall Aelod-wladwriaethau ganiatáu i weithwyr optio allan yn unigol o'r wythnos waith hiraf o 48 awr (fel y mae'r DU wedi gwneud)
- triniaeth deg i wahanol grwpiau o weithwyr, gan gynnwys gweithwyr sydd wedi'u hanfon i weithio dros dro mewn Aelod-wladwriaeth arall: mae rheolau'r UE yn diogelu'r telerau ac amodau cyflogaeth sy'n gymwys i gyflogeion sy'n gwasanaethu dros dro mewn Aelod-wladwriaeth arall ac yn osgoi tanseilio darparwyr gwasanaethau lleol. Mae gweithwyr asiantaeth wedi'u diogelu drwy sicrhau eu bod yn cael yr un hawliau sylfaenol o ran cyflogaeth a gwaith â rhywun sy'n cael ei gyflogi'n uniongyrchol. Mae gweithwyr rhan-amser yn cael triniaeth debyg i staff amser llawn ar gontractau penagored ac mae gweithwyr sydd â chontract cyfnod penodol yn cael triniaeth debyg i staff amser llawn sydd â chontract penagored.

## Iechyd a diogelwch yn y gwaith

### Iechyd a diogelwch galwedigaethol

11.6 Mae'r UE wedi cytuno ar reolau ar gyfer gwella'r amgylchedd gweithio ac amddiffyniadau i iechyd a diogelwch gweithwyr. Mae'r rhain yn pennu gofynion sylfaenol, gan ystyried yr amodau a rheolau technegol yn yr Aelod-wladwriaethau. Ond wrth osod rheolau'r UE, rhaid osgoi gosod cyfyngiadau a fyddai'n llesteirio ymgymeriadau bach a chanolig eu maint ac nid ydynt yn cael atal y DU nac Aelod-wladwriaethau eraill rhag mabwysiadu mesurau diogelu llymach.

## Prif hawliau a rhwymedigaethau'r UE ar iechyd a diogelwch galwedigaethol

11.7 Mae deddfwriaeth yr UE ar iechyd a diogelwch yn cynnwys cyfraith sy'n sefydlu fframwaith cyffredinol ar gyfer y gweithle – er enghraifft, mae'n rhoi dyletswydd ar gyflogwyr i gymryd mesurau i warchod iechyd a diogelwch personau yn y gwaith.

---

[89] Cyfarwyddeb 2003/88/EC

11.8 Mae rheolau o dan gyfraith yr UE sy'n ymwneud â risgiau penodol, gan gynnwys rhai ar ddarparu a defnyddio cyfarpar diogelu personol yn y gwaith; rheoli a defnyddio sylweddau peryglus, gan gynnwys cyfryngau cemegol a biolegol, carsinogenau, mwtagenau ac asbestos; a lliniaru risgiau mewn atmosfferau ffrwydrol.

11.9 Mae cyfreithiau'r UE ar iechyd a diogelwch galwedigaethol hefyd yn cynnwys rheolau sy'n ymwneud â sectorau penodol. Mae'r rhain yn ymdrin â rheoli safleoedd adeiladu dros dro neu symudol, diogelwch wrth gloddio mwynau drwy ddrilio, a diogelwch wrth gloddio mwynau ar yr wyneb ac o dan ddaear.

11.10 Mae deddfwriaeth yr UE ar iechyd a diogelwch galwedigaethol yn cynnwys rheolau sy'n ymwneud ag unigolion penodol. Mae'r rhain yn ymdrin ag osgoi risgiau i fenywod sy'n feichiog neu sy'n bwydo ar y fron yn y gweithle. Ceir rheolau hefyd sy'n rheoli ac yn cyfyngu ar gyflogaeth rhai o dan 18 mlwydd oed a rheolau sy'n gymwys i weithwyr dros dro a gweithwyr sydd â chontract cyfnod penodol: mae'r rheolau hyn yn sicrhau bod gweithwyr o'r fath yn cael yr un lefel o amddiffyniad i iechyd a diogelwch â gweithwyr eraill.

## Peidio â gwahaniaethu a chydraddoldeb

11.11 Mae rheolau'r UE ar atal gwahaniaethu yn cynnwys y meysydd canlynol:

- hil: mae cyfraith yr UE yn gwahardd gwahaniaethu ar sail hil mewn cyflogaeth, hyfforddiant, amddiffyniad cymdeithasol (gan gynnwys nawdd cymdeithasol a gofal iechyd), addysg, y gallu i gael a chyflenwi nwyddau a gwasanaethau sydd ar gael i'r cyhoedd;
- cyflogaeth: mae cyfraith yr UE yn gwahardd gwahaniaethu ar sail crefydd neu gred, anabledd, oed neu gyfeiriadedd rhywiol mewn cysylltiad â chyflogaeth a galwedigaeth;
- rhywedd (nwyddau a gwasanaethau): mae cyfraith yr UE yn gwahardd gwahaniaethu ar sail rhyw mewn perthynas â'r gallu i gael a chyflenwi nwyddau a gwasanaethau
- rhywedd (cyflogaeth): mae cyfraith yr UE yn gwahardd gwahaniaethu ar sail rhyw mewn perthynas â chyflogaeth, hyfforddiant ac amodau gweithio, gan gynnwys tâl a chynlluniau nawdd cymdeithasol galwedigaethol.

## Diogelu data

11.12 Mae cyfraith yr UE yn rhoi hawliau penodol i unigolion yn yr UE y mae eu data personol yn cael eu casglu, eu storio a'u defnyddio neu eu prosesu fel arall gan bobl eraill.[90] Yn gyffredinol, ystyr data personol yw unrhyw wybodaeth sy'n gallu dangos pwy yw unigolyn byw (er enghraifft, enw'r person, ei gyfeiriad, dyddiad geni, hanes iechyd neu hanes prynu ar-lein).

11.13 Mae'r rhain yn cynnwys yr hawliau canlynol (er bod rhai eithriadau iddynt):

- i gael gweld y data personol amdanynt sy'n cael eu dal, drwy "gais gwrthrych am wybodaeth";
- i wrthwynebu dal neu ddefnyddio'r data personol;

[90] Mae Erthygl 16 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE yn gosod rhwymedigaeth ar yr UE i wneud rheolau mewn perthynas â hawliau unigolion y mae eu data personol yn cael eu prosesu o fewn yr UE er mwyn diogelu eu data personol. Ceir hawliau a rhwymedigaethau penodol yng Nghyfarwyddeb 95/46/EC.

- i beidio â bod yn ddarostyngedig i Benderfyniadau Prosesu Awtomatig. Mae'r rhain yn benderfyniadau am berson sy'n cael eu gwneud drwy ddull cwbl awtomatig, fel dull cyfrifiadurol, ar sail eu data personol;
- i gywiro neu ddileu data personol;
- i gael eu digolledu am niwed sy'n ganlyniad i brosesu sy'n groes i gyfraith diogelu data.

11.14 Mae cyfraith yr UE hefyd yn gosod rhwymedigaethau ar y rheini sy'n casglu data personol ac yn penderfynu ynghylch eu prosesu: gelwir y rhain yn "rheolwyr data". Yn ogystal â gwarantu hawliau unigolion y mae eu data personol yn cael eu prosesu, mae'r rheolau'n gosod rhwymedigaethau penodol ar reolwyr data er mwyn helpu i warchod hawliau unigolion.

11.15 Mae cyfraith yr UE hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob Aelod-wladwriaeth sefydlu corff arolygu annibynnol i fonitro cydymffurfiaeth sefydliadau ac awdurdodau cyhoeddus â chyfraith diogelu data.

11.16 Gellir amodi neu esemptio nifer o'r hawliau a rhwymedigaethau hyn drwy gyfraith genedlaethol, ac mae Deddf Diogelu Data 1998 yn cynnwys nifer o eithriadau.[91]

11.17 Nid yw'r UE yn gallu rheoleiddio gweithgareddau sydd y tu allan i gwmpas cyfraith yr UE (er enghraifft, diogelwch gwladol).[92] Ym maes yr heddlu a chyfiawnder troseddol, nid yw rheolau'r UE ar ddiogelu data yn gymwys yn y DU heblaw mewn cysylltiad â mesurau cyfiawnder a materion cartref y mae'r DU yn cymryd rhan ynddynt.[93]

11.18 Mae cyfraith yr UE wedi'i bwriadu hefyd i ddiogelu data personol wrth eu trosglwyddo i drydedd wledydd. Er mwyn cael trosglwyddo data, rhaid i'r drydedd wlad ddarparu lefel ddigonol o ddiogelwch neu rhaid cydymffurfio â rhanddirymiad.

---

91 Gweler, er enghraifft, Erthygl 9 o'r Gyfarwyddeb Diogelu Data sydd wedi'i gweithredu drwy a.32 ("journalism, literature, art") o Ddeddf Diogelu Data 1998.

92 Erthygl 16 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE

93 Erthygl 6a o Brotocol (Rhif 21) i Gytuniadau'r UE.

# Pennod 12 – lles a nawdd cymdeithasol

Mae'r DU ac Aelod-wladwriaethau eraill yn parhau'n gyfrifol am gynllunio, trefnu ac ariannu eu systemau lles. Mae rôl i'r UE o ran cydgysylltu rheolau'r Aelod-wladwriaethau ar nawdd cymdeithasol i sicrhau eu bod yn gyson â chyfraith yr UE. Gall Aelod-wladwriaethau gyfyngu ar hawl gwladolion penodol o'r AEE i gael rhai budd-daliadau i'w hatal rhag bod yn faich afresymol. Bydd cytundeb newydd y DU hefyd yn galluogi'r DU i gyfyngu ar hawl gweithwyr o'r UE i dderbyn budd-daliadau i rai sydd mewn gwaith am hyd at bedair blynedd ac i allforio Budd-dal Plant ar gyfradd sy'n adlewyrchu'r amodau yn yr Aelod-wladwriaeth lle mae'r plentyn yn byw.

12.1 Mae Aelod-wladwriaethau'n cadw pob rheolaeth dros gynllunio eu systemau lles gwladol. Ond un o'r egwyddorion pwysig yn rheolau'r UE ar gydgysylltu nawdd cymdeithasol yw bod ymfudwyr o'r AEE sy'n symud i Aelod-wladwriaeth arall yn cael triniaeth gyfartal. Cytunir ar y cyd ar reolau'r UE ar ddarpariaethau nawdd cymdeithasol rhwng Senedd Ewrop ac Aelod-wladwriaethau yn y Cyngor.[94] Mae Aelod-wladwriaethau'n gwneud penderfyniadau yn y Cyngor drwy Bleidleisio drwy Fwyafrif Cymwysedig.

12.2 Diben ychwanegol i reolau'r UE ar gydgysylltu nawdd cymdeithasol yw sicrhau na fydd ymfudwyr o'r AEE yn colli hawliau i dderbyn budd-daliadau nawdd cymdeithasol y maent wedi'u cronni eisoes wrth symud rhwng Aelod-wladwriaethau i weithio, astudio neu ymddeol.

12.3 Mae Aelod-wladwriaethau'n gyfrifol am gynllunio, trefnu ac ariannu eu systemau nawdd cymdeithasol. Mae hynny'n golygu eu bod yn rhydd i benderfynu pwy sydd â'r hawl i gael eu cynnwys yn eu deddfwriaeth, pa fudd-daliadau a roddir a sut y caiff budd-daliadau eu cyfrifo. Wrth gynllunio eu deddfwriaeth, rhaid i'r DU ac Aelod-wladwriaethau eraill beidio â gwahaniaethu yn erbyn gwladolion o Aelod-wladwriaethau eraill sy'n arfer eu hawl i symud yn rhydd, er bod eithriadau i'r rheol honno.

12.4 Mae'r UE yn cymhwyso rheolau gwahanol yn ôl y math o fudd-dal y mae rhywun yn ei hawlio. Er enghraifft, mae budd-daliadau cyfrannol y DU fel pensiwn ymddeol y wladwriaeth a budd-daliadau diweithdra a seiliwyd ar gyfraniadau'n cael eu talu i'r rheini sydd wedi gwneud y cyfraniadau angenrheidiol yn unig. Fodd bynnag, gellir ystyried cyfraniadau sydd wedi'u talu i gynlluniau cyfatebol mewn Aelod-wladwriaethau eraill hefyd.

[94] Erthygl 48 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE

12.5 Cymhwysir rheolau gwahanol hefyd at y rheini sy'n hawlio'r rhan fwyaf o'r budd-daliadau anghyfrannol.[95] Yn yr achos hwn, bydd yn ofynnol bod ymfudwyr o'r AEE wedi cael 'hawl i breswylio' o dan reolau'r UE ar yr hawl i symud yn rhydd er mwyn cael hawl i dderbyn budd-daliadau, er enghraifft, fel gweithiwr neu berson hunangyflogedig Mae rheolau'r UE yn gwahardd gwahaniaethu yn erbyn ymfudwyr o'r AEE sy'n gweithio[96] gan gynnwys rhai hunangyflogedig, ac felly maent yn ei gwneud yn ofynnol bod yr holl fudd-daliadau sy'n daladwy i rai mewn gwaith fel Credyd Cynhwysol a Chredyd Treth Gwaith yn cael eu talu i weithwyr ar yr un telerau â gwladolion y DU.

12.6 Fodd bynnag, ar ôl gwneud y newidiadau mewn deddfwriaeth sydd eu hangen, bydd setliad newydd y DU yn caniatáu i'r DU gyfyngu ar hawl gweithwyr o'r AEE i dderbyn budd-daliadau sy'n daladwy i rai mewn gwaith o dan amgylchiadau penodol. Bydd y DU yn gallu gosod atalfa frys ar ddarpariaethau lles a fydd yn atal gweithwyr sydd newydd gyrraedd o Aelod-wladwriaethau eraill rhag cael yr holl hawliau o dan system budd-daliadau'r DU ar gyfer rhai mewn gwaith am gyfnod o hyd at bedair blynedd. Gall Aelod-wladwriaethau eraill hefyd gwneud cais am osod yr atalfa hon.

12.7 Mae ymfudwyr o'r AEE sy'n ceisio gwaith yn y DU yn cael hawliau mwy cyfyngedig o dan gyfraith yr UE. Yr unig fudd-daliadau y maent yn gallu eu hawlio yw Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm ac, os oes plant ganddynt, Budd-dal Plant a Chredyd Treth Plant. Mae Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm yn daladwy i ymfudwyr o'r AEE sy'n chwilio am waith ac sydd â chyfle gwirioneddol o gael eu cymryd ymlaen. Mae'n daladwy am gyfnod o dri mis yn unig ac, ar ôl hynny, byddant yn cael eu hasesu i weld a ydynt yn gallu cynnig tystiolaeth berswadiol sy'n dangos bod ganddynt wir obaith o ddod o hyd i waith yn y DU yn y dyfodol agos. Fodd bynnag, mae Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm yn cael ei ddirwyn i ben yn raddol. Cyflwynir Credyd Cynhwysol ledled y DU ac ni fydd hawl gan geiswyr gwaith o'r AEE i gael y budd-dal hwn.

12.8 Mae'n ofynnol bod adnoddau digonol gan ymfudwyr o'r AEE sydd â hawl i breswylio yn y DU fel myfyriwr neu berson hunangynhaliol fel na fyddant yn faich afresymol ar yr Aelod-wladwriaeth.

12.9 Er bod modd allforio rhai budd-daliadau fel Budd-dal Plant, Lwfans Byw i'r Anabl (elfen gofal), Taliad Annibyniaeth Bersonol (bywyd pob dydd), Lwfans Gweini a Lwfans Gofalwr i Aelod-wladwriaethau eraill, ni ellir allforio Credyd Cynhwysol, Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm, Cymhorthdal Incwm a Chredyd Pensiwn y Wladwriaeth yn yr un modd. Hefyd, o ganlyniad i setliad newydd y DU, ar ôl gwneud y newidiadau mewn deddfwriaeth bydd Aelod-wladwriaethau'n gallu talu budd-dal plant i wladolion yr AEE sydd â'u plant yn byw dramor ar gyfradd sy'n adlewyrchu amodau'r wlad lle mae'r plentyn yn byw – gan gynnwys y safon byw a'r budd-dal plant a gaiff ei dalu.

---

95 Yn benodol, budd-daliadau cysylltiedig ag incwm fel Cymhorthdal Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm, Credyd Pensiwn y Wladwriaeth, Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm, Credyd Cynhwysol a Budd-dal Tai

96 Erthyglau 45 a 49 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE ac Erthygl 7(2) o Reoliad 492/2011

# Pennod 13 – yr amgylchedd, y newid yn yr hinsawdd ac ynni

Mae'r UE yn cymryd camau i geisio diogelu a gwella'r amgylchedd, delio â'r newid yn yr hinsawdd a hyrwyddo diogelwch ynni a rhwydweithiau a marchnadoedd ynni. Mae rheolau'r UE yn ceisio diogelu gwladolion yr UE, er enghraifft drwy wneud rheolau ar aer glanach, y gallu i gael dŵr glanach a glanweithdra ac maent yn ceisio atal difrod i'r amgylchedd ar draws ffiniau. Yn ogystal â hyn, mae rheolau'r UE yn rhoi hawl i wladolion yr UE gael gwybodaeth amgylcheddol.

13.1 Mae cyfraith yr UE yn ceisio diogelu'r amgylchedd, delio â'r newid yn yr hinsawdd a hyrwyddo diogelwch ynni a rhwydweithiau a marchnadoedd ynni.[97] Gall yr UE hefyd ddefnyddio safonau ar gyfer cynhyrchion i gyrraedd nodau amgylcheddol. Yn ogystal â hyn, rhaid integreiddio mesurau i ddiogelu'r amgylchedd yn holl bolisïau a gweithgareddau'r UE.

13.2 Fel arfer, cytunir ar y cyd ar gyfreithiau'r UE ar ynni a'r amgylchedd rhwng Senedd Ewrop ac Aelod-wladwriaethau yn y Cyngor (er bod y Cyngor yn gallu gweithredu ar ei ben ei hun mewn nifer bach o achosion ar ôl ymgynghori â'r Senedd). Mae Aelod-wladwriaethau'n gwneud penderfyniadau yn y Cyngor drwy Bleidleisio drwy Fwyafrif Cymwysedig. Yr unig eithriad i hyn yw lle mae'r Cyngor yn gweithredu ar ei ben ei hun, pan fydd yn pleidleisio ar sail unfrydedd (er enghraifft, lle mae'r ddeddfwriaeth yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â chyllid yn bennaf).

13.3 Mae rhai o'r hawliau a rhwymedigaethau sydd wedi'u disgrifio isod yn deillio o gytundebau rhyngwladol y mae'r UE a'r Aelod-wladwriaethau wedi'u gwneud â gwledydd eraill y tu allan i'r UE.

### Yr amgylchedd

13.4 Safonau gofynnol neu ofynion gweithdrefnol yw'r unig ddarpariaethau y gall yr UE eu cynnwys mewn deddfwriaeth amgylcheddol. Mae hawl gan Aelod-wladwriaethau i gadw neu gyflwyno mesurau diogelu llymach os ydynt yn dymuno, ar yr amod eu bod yn gyson â chyfraith yr UE.

13.5 Gall yr UE wneud rheolau sy'n gymwys i Aelod-wladwriaethau, llygrwyr dichonol ac unigolion er mwyn diogelu a gwella'r amgylchedd. Mae'r UE wedi gwneud cyfreithiau mewn nifer o feysydd, gan gynnwys:

---

97 Mae'r seiliau cyfreithiol penodol ar gyfer yr amgylchedd ac ynni yn Erthyglau 191 i 194 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE.

- cyfyngu llygredd aer, lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ac atal allyriadau o sylweddau sy'n teneuo'r osôn;
- hybu effeithlonrwydd ynni a chynyddu ynni adnewyddadwy;
- gwella a diogelu ansawdd a glendid dŵr yfed a dyfroedd ymdrochi glân;
- hyrwyddo camau i leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff;
- rheoleiddio trefniadau ar gyfer marchnata a defnyddio cemegion, plaladdwyr ac organeddau a addaswyd yn enetig
- diogelu bywyd gwyllt a chynefinoedd a rhywogaethau Ewropeaidd sy'n agored i niwed.

13.6 Mewn nifer o'r meysydd hyn, mae'n ofynnol i Aelod-wladwriaethau gyflwyno cosbau troseddol am weithgareddau sy'n achosi niwed mawr i'r amgylchedd. Mae hefyd yn ofynnol i'r DU ac Aelod-wladwriaethau eraill gasglu ystadegau ar gyflwr yr amgylchedd ac adrodd arnynt i Asiantaeth yr Amgylchedd Ewropeaidd.

13.7 Mae cyfraith yr UE hefyd yn creu hawliau a rhwymedigaethau gweithdrefnol. O ganlyniad i hyn, gall gwladolion yr UE helpu i orfodi rheolau amgylcheddol ac atal niwed i'r amgylchedd. Un o'i nodau yw sicrhau bod gwybodaeth am yr effeithiau amgylcheddol yn cael ei hystyried cyn gwneud penderfyniadau penodol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- yr hawl i gael gwybodaeth amgylcheddol;
- hawl y cyhoedd i gymryd rhan mewn penderfyniadau amgylcheddol
- y rhwymedigaeth ar awdurdodau cyhoeddus ledled yr UE i gynnal asesiadau o'r effaith ar yr amgylchedd cyn caniatáu prosiectau, cynlluniau neu raglenni sy'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar yr amgylchedd.

### Y newid yn yr hinsawdd

13.8 Mae'r UE wedi rhoi strategaeth ar waith i ddelio â'r newid yn yr hinsawdd. Mae hyn yn cynnwys pecyn o ddeddfwriaeth yr UE sy'n gosod targedau rhwymol hyd at 2020 y mae'n rhaid i'r holl Aelod-wladwriaethau eu cyrraedd er mwyn sicrhau, ledled yr UE:

- gostyngiad o 20 y cant yn yr allyriadau o nwyon tŷ gwydr (o lefelau 1990);
- bod 20 y cant o ynni'r UE yn dod o ffynonellau adnewyddadwy;
- gwelliannau o 20 y cant mewn effeithlonrwydd ynni..

### Ynni

13.9 Mae Cytuniadau'r UE yn pennu bod rhaid i'r UE sicrhau gweithrediad y farchnad ynni a diogelwch y cyflenwad ynni yn yr UE. Yn ogystal â hyn, maent yn nodi bod rhaid i'r UE hyrwyddo effeithlonrwydd ynni a mesurau arbed ynni a chamau i ddatblygu mathau newydd o ynni adnewyddadwy ac i gydgysylltu rhwydweithiau ynni. Mae'r UE wedi gwneud cyfreithiau penodol sy'n rheoli trefniadau ar gyfer trosglwyddo trydan ar draws ffiniau, mynediad at rwydweithiau trosglwyddo trydan a phiblinellau nwy, rheoleiddwyr cenedlaethol, perchenogaeth ar gynhyrchwyr a chyflenwyr ynni a chystadleuaeth a diogelu defnyddwyr yn y sector ynni.

13.10 Fodd bynnag, mewn cysylltiad â deddfu gan yr UE ym maes ynni, mae Cytuniadau'r UE yn nodi'n benodol na chaiff y cyfreithiau hyn effeithio ar hawl yr Aelod-wladwriaeth i benderfynu'r amodau ar gyfer defnyddio ei hadnoddau ynni, ei dewis rhwng gwahanol ffynonellau ynni a strwythur cyffredinol ei chyflenwad ynni. Os yw'r UE yn ystyried cyflwyno cyfreithiau a fyddai'n ymyrryd â'r hawl hon, fe ellir eu mabwysiadu yn y Cyngor ond dim ond drwy unfrydedd.

13.11 Mae deddfwriaeth yr UE yn gosod rheolau hefyd i'w gwneud yn ofynnol bod yr holl Aelod-wladwriaethau:

- yn trefnu bod stociau digonol o olew ar gael i'w rhyddhau ar y farchnad os bydd y cyflenwad yn brin, er mwyn atal argyfwng ynni;
- yn sicrhau y bydd cyflenwad nwy i gwsmeriaid a warchodir (sydd yn achos y DU yn cynnwys yr holl aelwydydd a gwasanaethau cymdeithasol hanfodol) yn parhau hyd yn oed os bydd ymyrraeth fawr â'r cyflenwad;
- yn sicrhau bod trwyddedau petrolewm yn cael eu rhoi drwy ddilyn gweithdrefn agored a heb wahaniaethu;
- yn gorfodi safonau diogelwch ac amgylcheddol gofynnol ar gyfer gweithrediadau olew a nwy ar y môr;
- yn gosod lefelau trethu sylfaenol ar gyfer cynhyrchion ynni;
- yn sicrhau bod dulliau daearegol o storio carbon deuocsid yn diogelu'r amgylchedd.

## Niwclear

13.12 Mae Cytuniad ar wahân, Euratom,[98] yn delio ag ynni niwclear sifil, diogelwch y cyflenwad o danwydd niwclear a diogelu'r amgylchedd a phobl rhag ymbelydredd yn gyffredinol, gan gynnwys drwy driniaethau meddygol. O dan Euratom mae'r UE wedi cytuno ar nifer o reolau sy'n ymwneud â diogelwch niwclear, diogelwch gwastraff niwclear a chyflenwi, defnyddio, cludo a gwaredu deunydd a gwastraff ymbelydrol. Mae hawl gan y Comisiwn i wirio nad yw deunyddiau mewn sefydliadau niwclear sifil yn cael eu defnyddio i ddibenion heblaw rhai heddychlon.

13.13 Mae deddfwriaeth o dan Euratom yn cael ei mabwysiadu gan y Cyngor Ewropeaidd un ai drwy weithredu'n unfrydol neu drwy Bleidleisio drwy Fwyafrif Cymwysedig ar gynnig gan y Comisiwn ac ar ôl ymgynghori â Senedd Ewrop ym mwyafrif yr achosion. Mewn rhai achosion gall y Cyngor fabwysiadu deddfwriaeth heb ymgynghori'n gyntaf â Senedd Ewrop.

[98] Cytuniad yn Sefydlu'r Gymuned Ewropeaidd Ynni Atomig (2012/C 327/01)

# Pennod 14 – polisi cydlyniant a chronfeydd strwythurol

Diben polisi cydlyniant yw lleihau anghyfartaledd rhwng rhanbarthau a hybu datblygiad economaidd. Mae'r polisi'n cael ei gyflawni'n bennaf drwy gronfeydd strwythurol a chydlyniant, drwy ariannu prosiectau seilwaith a hyfforddiant a phrosiectau datblygu tebyg ledled Ewrop o gyllideb yr UE. Mae'r DU yn derbyn dyraniad cenedlaethol.

14.1 Diben polisi cydlyniant yw delio ag anghyfartaledd yn natblygiad rhanbarthau ar draws yr UE, gan helpu rhannau tlotaf yr UE i wireddu eu potensial economaidd ac ategu datblygiad y Farchnad Sengl.[99]

14.2 Bydd yr UE yn cytuno ar y swm a gaiff ei wario ar bolisi cydlyniant yn ystod proses gyffredinol y gyllideb. Mae'r UE hefyd yn gosod rheolau ar yr hyn y gellir gwario'r arian arno, a sut. Cytunir ar y cyd ar y rheolau hyn rhwng Senedd Ewrop ac Aelod-wladwriaethau yn y Cyngor. Mae Aelod-wladwriaethau'n gwneud penderfyniadau yn y Cyngor drwy Bleidleisio drwy Fwyafrif Cymwysedig. Gellir gosod nifer o'r rheolau sy'n pennu pa wariant sy'n gymwys ar lefel genedlaethol.

## Cronfeydd strwythurol a chydlyniant

14.3 Mae'r UE yn ariannu rhaglenni i weithredu polisi cydlyniant drwy'r cronfeydd strwythurol a chydlyniant. Mae tair cronfa, pob un â'i rôl benodol o dan Gytuniadau'r UE:

- Mae Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop[100] yn ceisio lleihau anghyfartaledd rhwng rhanbarthau drwy fuddsoddi mewn datblygu economaidd drwy ddulliau fel arloesi, cymorth i fusnesau bach a chanolig ac i'r economi carbon isel. Mae'r DU yn gymwys i gael arian o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop;
- Mae Cronfa Gymdeithasol Ewrop[101] yn canolbwyntio ar wella cyfleoedd am gyflogaeth yn y Farchnad Sengl ac mae'n ceisio ei gwneud yn haws cyflogi gweithwyr, drwy roi mwy o allu iddynt symud o le i le a rhwng galwedigaethau a'i gwneud yn haws iddynt addasu i newid diwydiannol. Mae'n cynnal mesurau ym

---

[99] Mae'r prif ddarpariaethau mewn Cytuniadau ar gyfer y meysydd hyn yn Erthyglau 162-164 a 174-177 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE

[100] Erthygl 176 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE. Y rheoliad presennol ar gyfer Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop yw Rheoliad 1301/2013

[101] Erthygl 162 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE. Y rheoliad presennol ar gyfer Cronfa Gymdeithasol Ewrop yw Rheoliad 1304/2013

maes sgiliau, hyfforddiant a chyflogaeth. Mae'r DU yn gymwys i gael arian o Gronfa Gymdeithasol Ewrop

- Mae'r Gronfa Cydlyniant[102] yn hybu buddsoddi mewn seilwaith amgylcheddol a thrafnidiaeth. Mae ar gael i'r Aelod-wladwriaethau tlotaf yn unig – y rheini y mae eu hincwm gwladol gros y pen yn llai na 90 y cant o gyfartaledd yr UE. Mae 15 Aelod-wladwriaeth, yn cynnwys Gwlad Pwyl, Romania, Bwlgaria a Croatia, yn cael arian o'r gronfa hon ar hyn o bryd. Nid yw'r DU yn gymwys

14.4 TMae dwy gronfa arall gan yr UE a all gyfrannu at ddatblygu rhanbarthol. Y rhain yw Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig[103] a Chronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop.[104]

14.5 Ar hyn o bryd mae cronfeydd strwythurol a chydlyniant yn cael eu dyrannu o gyllideb yr UE am gyfnodau ariannu o saith mlynedd. Ar gyfer y cyfnod ariannu presennol 2014-2020 darparwyd cyllideb gyffredinol o €351.8 biliwn ar gyfer cronfeydd strwythurol a chydlyniant. O hynny, mae'r DU yn cael dyraniad o €11.6 biliwn.[105]

## Y cronfeydd strwythurol a rhanbarthau'r DU

14.6 Mae holl ranbarthau'r DU yn gymwys i gael arian o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Chronfa Gymdeithasol Ewrop. O dan reolau'r UE, mae'r gwahanol ranbarthau'n cael eu rhannu i dri chategori:

- Rhanbarthau 'llai datblygedig' lle mae'r CMC y pen yn llai na 75 y cant o gyfartaledd yr UE. Y categori hwn sy'n cael ei ariannu ddwysaf. Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Chernyw ac Ynysoedd Scilly yw'r unig ddau ranbarth o'r fath yn y DU ar hyn o bryd;
- 'Rhanbarthau 'trawsnewid' lle mae'r CMC y pen rhwng 75 y cant a 90 y cant o gyfartaledd yr UE. Mae 11 rhanbarth o'r fath yn y DU ar hyn o bryd, yn cynnwys Gogledd Iwerddon ac Ucheldiroedd ac Ynysoedd yr Alban
- Rhanbarthau 'mwy datblygedig' lle mae'r CMC y pen yn fwy na 90 y cant o gyfartaledd yr UE. Mae hyn yn cynnwys holl ranbarthau eraill y DU.

14.7 Dim ond rhan o gyfanswm costau'r prosiectau y bydd yr UE yn ei hariannu; rhaid talu am y gweddill o ffynonellau cenedlaethol cyhoeddus neu breifat. Bydd y gyfran a ddaw o ffynonellau cenedlaethol yn dibynnu ar gyfoeth y rhanbarth, a'r rhanbarthau tlotaf sy'n gorfod dod o hyd i'r cyfrannau lleiaf.

14.8 Defnyddir rhan o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop i gynnal rhaglenni sy'n cynnwys rhanbarthau mewn mwy nag un Aelod-wladwriaeth. Mae cyllideb gyfan o €10.1 biliwn ar gyfer y rhain (neu 2.75 y cant o'r gyllideb ar gyfer cronfeydd strwythurol a chydlyniant). Mae pob Aelod-wladwriaeth yn cael dyraniad wedi'i seilio ar y gyfran o'i phoblogaeth genedlaethol sy'n byw mewn rhanbarthau ar ffiniau. Gall yr Aelod-wladwriaeth benderfynu pa swm o'r dyraniad y mae am ei gyfrannu i bob un o'r rhaglenni trawsffiniol a thrawswladol penodol y mae'n

---

102 Erthygl 177 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE. Y rheoliad presennol ar gyfer y Gronfa Cydlyniant yw Rheoliad 1300/2013

103 Rheoliad 1305/2013

104 Rheoliad 508/2014

105 'United Kingdom Partnership Agreement, Part 1', Llywodraeth EM, Hydref 2014. Mae dyraniad y DU wedi'i nodi ar dudalen 96, paragraff 1. Mae tudalen we'r UE 'Cohesion Policy – Frequently Asked Questions' yn dangos y gyllideb gyffredinol ac yn darparu rhagor o fanylion.

cymryd rhan ynddynt. Mae'r rhaglen PEACE rhwng Gogledd Iwerddon a siroedd y ffin yn Iwerddon yn enghraifft o raglen drawsffiniol.

### Y dull o reoli'r cronfeydd

14.9 Mae'r cronfeydd yn cael eu rheoli ar y cyd gan yr Aelod-wladwriaethau a'r Comisiwn Ewropeaidd. Mae Aelod-wladwriaethau'n llunio Rhaglenni Gweithredol, ar lefel ranbarthol yn aml, ac yn cytuno arnynt â'r Comisiwn. Mae'r rhain yn pennu blaenoriaethau ac yn sail ar gyfer cyflawni prosiectau, un ai drwy alwadau am gynigion, caffael cyhoeddus neu gomisiynu uniongyrchol gan lywodraeth. Mae'r Aelod-wladwriaethau'n penodi Awdurdodau Rheoli ar gyfer pob rhaglen sy'n gorfod cydymffurfio ag egwyddorion cadarn ar gyfer rheoli ariannol ac sy'n penderfynu pa brosiectau i'w hariannu. Mae'n ofynnol i Awdurdodau Rheoli gyhoeddi manylion prosiectau y talwyd amdanynt gan y cronfeydd strwythurol a chydlyniant.

14.10 Er mwyn sicrhau bod rheolaethau ariannol effeithiol ar waith, mae gwariant o'r cronfeydd strwythurol a chydlyniant yn cael ei archwilio ar wahanol lefelau: gan awdurdodau archwilio cenedlaethol, y Comisiwn Ewropeaidd a Llys Archwilwyr Ewrop. Rhaid ad-dalu arian os ceir bod afreoleidd-dra wedi digwydd.

14.11 Mae'r DU yn gallu cael arian hefyd o Gronfa Ewrop ar gyfer Buddsoddiadau Strategol, a sefydlwyd yn ddiweddar, sy'n cael ei ariannu o gyllideb yr UE a chan Fanc Buddsoddi Ewrop. Mae'r gronfa hon yn ceisio sbarduno buddsoddi preifat mewn meysydd allweddol fel seilwaith, addysg, ymchwil ac arloesi, yn ogystal â risg ariannol i fusnesau bach.

# Pennod 15 – dinasyddiaeth

Mae cyfraith yr UE yn rhoi hawliau penodol i wladolion yr UE. Yn eu plith mae'r hawl i bleidleisio mewn etholiadau i Senedd yr UE ac mewn etholiadau lleol lle bynnag maent yn byw yn yr UE, a hawl i gael cymorth consylaidd y tu allan i'r UE. Mae gwladolion y DU yn cael budd o'r hawliau hyn, fel y mae gwladolion yng ngwladwriaethau eraill yr UE.

15.1 O dan Gytuniadau'r UE, mae hawl gan bob un o wladolion yr Aelod-wladwriaethau i gael ei ystyried hefyd yn ddinesydd o'r UE. Mae Cytuniadau'r UE yn diffinio nifer o hawliau sy'n gysylltiedig â dinasyddiaeth o'r UE.[106] Yn eu plith mae'r hawliau i symud yn rhydd ac i breswylio ym mhob rhan o'r UE, sy'n cael eu trafod yn yr adran ar hawl pobl i symud yn rhydd; mae'r hawliau eraill yn rhai gwleidyddol a chonsylaidd ac maent wedi'u disgrifio isod.

15.2 Mae'r DU a'r holl Aelod-wladwriaethau eraill yn rhydd i benderfynu sut y mae person yn gymwys i ddod yn ddinesydd yn ei thiriogaeth. Mae hyn yn ei dro yn penderfynu pwy fydd yn dod yn ddinesydd o'r UE.

### Dinesig

15.3 Mae cyfraith yr UE yn rhoi hawliau i ddinasyddion yr UE i gymryd rhan mewn rhai etholiadau lle maent yn preswylio, hyd yn oed os nad ydynt yn wladolion i'r Aelod-wladwriaeth o'r UE sy'n gysylltiedig:

- mae hawl gan ddinasyddion yr UE sy'n preswylio mewn Aelod-wladwriaeth arall i bleidleisio yn y wladwriaeth honno mewn etholiadau i Senedd Ewrop ac mewn etholiadau cyngor (lleol);
- mae ganddynt hawl hefyd i sefyll fel ymgeisydd yn y ddau fath hyn o etholiad
- rhaid i reolau cenedlaethol ar sefyll a phleidleisio gael eu cymhwyso i'r un graddau at y dinasyddion hyn o'r UE.

15.4 Mae hyn yn golygu bod gwladolion y DU sy'n preswylio mewn Aelod-wladwriaeth arall yn yr UE yn gallu pleidleisio mewn etholiadau i Senedd Ewrop ac etholiadau cyngor (lleol), yn union fel y mae gwladolion Aelod-wladwriaethau eraill sy'n preswylio yn y DU yn gallu gwneud. Rhaid i unrhyw gyfyngiadau sy'n cael eu gosod gan Aelod-wladwriaeth ar bleidleisio mewn etholiadau i Senedd Ewrop fod yn gymesur ac angenrheidiol.

[106] Mae prif ddarpariaethau'r Cytuniadau yn y maes hwn yn Erthyglau 20-24 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE

15.5 Mae penderfyniadau ynghylch pwy a gaiff bleidleisio mewn etholiadau eraill ac mewn refferenda, a'r amodau ynghylch pwy a gaiff sefyll mewn etholiad, yn fater i bob Aelod-wladwriaeth gan mwyaf. Er enghraifft, mae'r DU wedi penderfynu nad oes hawl gan ddinasyddion yr UE i bleidleisio mewn etholiadau i Senedd y DU (oni bai eu bod hefyd yn ddinasyddion yn y DU neu Weriniaeth Iwerddon neu'n ddinesydd cymwys o'r Gymanwlad).

15.6 Mae hawl hefyd gan ddinasyddion yr UE (yn ogystal â chwmnïau'r UE):

- i ddeisebu Senedd Ewrop ar faterion sy'n effeithio arnyn nhw'n uniongyrchol ac sy'n ymwneud â gweithgareddau'r UE;
- i fynd â chŵyn at Ombwdsmon Ewrop (corff annibynnol a diduedd sy'n dal gweinyddiaeth yr UE yn atebol)
- i ysgrifennu at sefydliadau'r UE yn unrhyw un o ieithoedd y Cytuniadau a chael ateb yn yr un iaith.

15.7 Mae dinasyddion yr UE yn gallu cymryd rhan hefyd yn hawl cychwyn dinasyddion Ewrop. Mae'r broses hon, sy'n debyg i ddeiseb, yn galluogi dinasyddion i alw ar y Comisiwn Ewropeaidd i gynnig deddfwriaeth, lle mae cymhwysedd gan yr UE i ddeddfu. Os gall dinasyddion gasglu digon o ddatganiadau o gefnogaeth, rhaid i'r Comisiwn edrych ar yr alwad i ddeddfu, rhaid iddi gael ei gwrando'n gyhoeddus yn Senedd Ewrop a rhaid i'r Comisiwn roi ymateb ffurfiol yn disgrifio'r camau y bydd yn eu cymryd a pham.

## Consylaidd

15.8 Gall dinasyddion yr UE ofyn am gymorth diplomyddol a chonsylaidd gan Aelod-wladwriaethau eraill ac mae ganddynt hawl i gael eu diogelu gan Aelod-wladwriaethau eraill os ydynt yn bresennol mewn gwledydd y tu allan i'r UE lle nad oes cynrychiolaeth gonsylaidd gan wlad eu cenedligrwydd. Gall yr UE ddeddfu ymhellach ynghylch sut y dylai Aelod-wladwriaethau gydgysylltu a chydweithredu er mwyn helpu i ddiogelu dinasyddion yr UE. Mae Aelod-wladwriaethau'n gwneud penderfyniadau yn y Cyngor ar y pwnc hwn drwy Bleidleisio drwy Fwyafrif Cymwysedig.

# Pennod 16 – hawliau sylfaenol

Mae hawliau sylfaenol yr UE yn rhan o gyfraith yr UE. Gall yr UE wneud cyfreithiau i ddiogelu hawliau sylfaenol penodol, er enghraifft drwy atal gwahaniaethu ar sail rhyw, tarddiad hiliol neu ethnig, crefydd neu gred, anabledd neu oed. Fodd bynnag, nid oes pŵer cyffredinol gan yr UE i fabwysiadu cyfreithiau neu gymryd camau mewn perthynas â hawliau sylfaenol. Mae sefydliadau'r UE yn gorfod cydymffurfio bob amser â hawliau sylfaenol yr UE. Nid yw hawliau sylfaenol yr UE yn gymwys i bob agwedd ar weithgareddau'r Aelod-wladwriaeth, dim ond y rhai lle mae'n gweithredu o fewn cwmpas cyfraith yr UE.

## Hawliau sylfaenol

16.1 'Hawliau sylfaenol yr UE' yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio hawliau dynol fel y maent wedi'u cydnabod yng nghyfraith yr UE.

16.2 Tra bydd hawliau dynol rhyngwladol yn cael eu sefydlu'n benodol neu'n uniongyrchol fel arfer drwy Gytuniadau neu gytundebau rhyngwladol eraill, mae hawliau sylfaenol yr UE, mewn cyferbyniad â hyn, yn egwyddorion cyffredinol yng nghyfraith yr UE. Maent yn deillio o'r traddodiadau cyfansoddiadol sy'n gyffredin i Aelod-wladwriaethau ac offerynnau rhyngwladol sydd wedi'u derbyn yn gyffredinol, fel y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol).[107] Maent wedi'u cydnabod dros amser drwy gyfraith achosion yn Llys Cyfiawnder Ewrop.

16.3 Mae hawliau sylfaenol yr UE yn rhan o fframwaith ehangach o amddiffyniadau i hawliau dynol yn y DU.

## Lle mae hawliau sylfaenol yn gymwys

16.4 Mae sefydliadau a chyrff yr UE wedi'u rhwymo bob amser gan hawliau sylfaenol yr UE. Os byddant yn gweithredu mewn ffordd sy'n groes i hawliau sylfaenol yr UE, fe all Llys Cyfiawnder Ewrop ddiddymu'r weithred neu'r mesur (gan gynnwys deddfwriaeth).[108]

16.5 Mae hawliau sylfaenol yr UE hefyd yn rhwymo Aelod-wladwriaethau pan fyddant yn gweithredu o fewn cwmpas cyfraith yr UE, er enghraifft pan fydd Aelod-wladwriaeth yn gweithredu

[107] Mae'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn gytundeb rhwng aelodau Cyngor Ewrop yn hytrach na Chytuniad gan yr UE. Er bod holl Aelod-wladwriaethau'r UE yn bartïon i'r confensiwn hwn, nid yw'r UE yn barti ei hun ar hyn o bryd

[108] Erthygl 51(1) o'r Siarter, ac (er enghraifft) Test-Achats ASBL, Achos C-236/09

cyfraith yr UE neu'n rhanddirymu cyfraith yr UE.[109] Ni fydd hawliau sylfaenol yr UE yn gymwys i Aelod-wladwriaethau pan nad ydynt yn gweithredu o fewn cwmpas cyfraith yr UE.

## Y Siarter Hawliau Sylfaenol – hawliau ac egwyddorion

16.6 Daeth y Siarter hawliau sylfaenol ('y Siarter') yn gyfreithiol rwymol pan ddaeth Cytuniad Lisbon i rym yn Rhagfyr 2009. Nid yw'r Siarter yn creu hawliau neu egwyddorion newydd. Nid yw'r Siarter yn ymestyn yr amgylchiadau lle mae hawliau ac egwyddorion yn gymwys i Aelod-wladwriaethau na sylwedd yr hawliau ac egwyddorion hynny. Mae'r Protocol a sicrhaodd y DU pan oedd Cytuniadau'r UE yn cael eu negodi yn gwneud y sefyllfa hon yn glir, ac yn sicrhau na all y Siarter greu unrhyw hawliau newydd yn y DU.[110]

16.7 Mae'r Siarter yn cynnwys 50 o hawliau ac egwyddorion. Mae rhai ohonynt yn ailadrodd y gwarantau yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Er enghraifft, yn yr un modd â'r Confensiwn, mae'r Siarter yn cynnwys yr hawl i fywyd, yn gwahardd arteithio, yn gwahardd caethwasiaeth, yn gwarantu parch i gyfraith breifat a chyfraith teulu, a rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd.

16.8 Gall rhai hawliau yn y Siarter fod yn ehangach eu cwmpas na hawliau cyfatebol yn y Confensiwn.[111] Er enghraifft, mae Erthygl 6 o'r Siarter, sy'n darparu ar gyfer hawl y person i ryddid a diogelwch, yn cyfateb o ran ei hystyr a'i chwmpas i Erthygl 5 o'r Confensiwn. Mewn cyferbyniad â hyn, er bod Erthygl 47(2) o'r Siarter, sy'n gwarantu'r hawl i gael gwrandawiad teg, yn cyfateb o ran ystyr i Erthygl 6(1) o'r Confensiwn, mae ei chwmpas yn ehangach: nid yw'n gyfyngedig i achosion sy'n penderfynu hawliau a rhwymedigaethau sifil neu gyhuddiadau troseddol.

16.9 Mae rhai o ddarpariaethau'r Siarter yn cynnwys egwyddorion yn hytrach na hawliau, ac mae eraill yn cynnwys y ddau. Yn wahanol i hawliau, ni ellir defnyddio egwyddorion ar eu pen eu hunain i'w gwneud yn ofynnol i sefydliadau neu Aelod-wladwriaethau'r UE gymryd camau neu ymatal rhag gweithredu[112]

## Effaith gyfreithiol yr hawliau sylfaenol

16.10 Mae Llys Cyfiawnder Ewrop a llysoedd domestig yn gallu defnyddio darpariaethau'r Siarter i ddehongli cyfraith yr UE a chyfraith ddomestig (i'r graddau y mae o fewn cwmpas cyfraith yr UE) yn unol â'r hawliau ac egwyddorion sydd ynddi.

16.11 Mae'r hawliau a welir mewn rhai darpariaethau yn y Siarter (er enghraifft, gwahardd gwahaniaethu ar sail oed) yn rhai y gellir eu gorfodi'n uniongyrchol. Os bydd un o fesurau'r UE yn groes i un o hawliau sylfaenol yr UE y gellir ei gorfodi'n uniongyrchol, bydd Llys Cyfiawnder Ewrop yn datgan ei fod yn annilys. Ar lefel ddomestig, os na ellir dehongli deddfwriaeth sylfaenol ddomestig mewn modd sy'n gyson â hawl y gellir ei gorfodi, bydd llysoedd neu dribiwnlysoedd domestig yn gallu datgymhwyso'r ddarpariaeth dramgwyddus yn y ddeddfwriaeth sylfaenol ddomestig.

---

[109] Erthygl 51(1) o'r Siarter, ac (er enghraifft) *Åkerberg Fransson,* Achos C-617/10

[110] Protocol (Rhif 30) i Gytuniadau'r UE. Er bod y Protocol yn cyfeirio at y DU a Gwlad Pwyl yn unig, ei bwrpas yw egluro sut y mae'r Siarter yn gymwys i sefydliadau'r UE ac i'r holl Aelod-wladwriaethau

[111] Gweler Erthygl 52(3) o'r Siarter ac 'Explanations Relating to the Charter of Fundamental Rights', Cyfnodolyn Swyddogol yr UE 2007 C 303/02

[112] Erthyglau 51(1) a 52(5) o'r Siarter, a gweler yr esboniadau o Erthyglau 51(1) a 52(5) yn 'Explanations Relating to the Charter of Fundamental Rights', Cyfnodolyn Swyddogol yr UE 2007 C 303/02

16.12 Mae nifer o ddarpariaethau yn y Siarter sydd heb effaith uniongyrchol; rhaid rhoi effaith fwy penodol iddynt yng nghyfraith yr UE neu gyfraith ddomestig er mwyn rhoi hawl orfodadwy i unigolyn.

16.13 Lle mae hawliau sylfaenol yn cael effaith uniongyrchol, gallant fod yn gymwys, mewn rhai amgylchiadau, rhwng partïon preifat yn ogystal â rhwng parti preifat ac awdurdod cyhoeddus.

# Pennod 17 – meysydd eraill (iechyd; addysg; diwylliant, twristiaeth a chwaraeon)

Mae rôl yr UE ym meysydd iechyd ac addysg yn gyfyngedig, gan fod y DU ac Aelod-wladwriaethau eraill yn parhau'n gyfrifol am osod eu polisïau iechyd ac addysg. Mae rôl yr UE ym meysydd diwylliant, twristiaeth a chwaraeon yn gyfyngedig iawn hefyd.

17.1 Mae Cytuniadau'r UE yn ei gwneud yn glir bod Aelod-wladwriaethau'n gyfrifol am eu systemau iechyd ac addysg eu hunain, ac yn cyfyngu ar yr hyn y gall yr UE ei wneud.[113]

## Iechyd

17.2 Mae rôl yr UE ym maes iechyd cyhoeddus wedi'i chyfyngu'n bennaf i hwyluso cydweithredu ar faterion iechyd trawsffiniol fel clefydau heintus a helpu Aelod-wladwriaethau i hyrwyddo amcanion iechyd cyhoeddus.[114] Gall yr UE gytuno ar reolau mewn meysydd penodol sy'n hybu iechyd cyhoeddus. Mae'r rhain yn cynnwys:

- meddyginiaethau a dyfeisiau meddygol: mae deddfwriaeth yr UE yn gosod safonau ar ansawdd a diogelwch y mae Aelod-wladwriaethau a gweithgynhyrchwyr yn gorfod cydymffurfio â nhw, ac mae'n hwyluso'r gallu i symud y cynhyrchion hyn yn rhydd;
- organau, gwaed, meinweoedd a chelloedd: mae rheolau'r UE yn creu safonau gofynnol o ran ansawdd a diogelwch ar gyfer trin meinweoedd a chelloedd dynol, organau ar gyfer trawsblannu a gwaed dynol ar draws yr UE. Ond mae'r DU yn gallu gosod safonau llymach,[115] a gwneud ei rheolau ei hun ar roddi organau a gwaed a'r defnydd meddygol ohonynt
- tybaco, ysmygu ac alcohol: mae'r UE wedi cytuno ar reolau ar dybaco, ysmygu ac alcohol sy'n rheoleiddio hysbysebu, labelu a safonau cynhyrchu.

17.3 Mae rheolau'r UE ar yr hawl i symud yn rhydd yn cydgysylltu hawliau pobl i dderbyn gofal iechyd gwladol pan fyddant yn symud o fewn yr UE. Mae'r rheolau'n pennu'r Aelod-wladwriaeth a fydd yn gyfrifol mewn gwahanol sefyllfaoedd ac yn trefnu ar gyfer ad-dalu rhwng gwledydd. Mae hyn yn cynnwys:

---

113 Ar gyfer addysg, gweler Erthyglau 165(1) a (4) o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE. Ar gyfer iechyd, gweler Erthygl 168 ac yn enwedig Erthygl 168(7) o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE.

114 Erthyglau 4(2)(k), 6(a) a 168 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE.

115 Erthygl 168(4)(a) o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE.

- y Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd sy'n rhoi hawl i ddinasyddion y DU, a'r rheini o Aelod-wladwriaethau eraill, i gael gofal iechyd sy'n feddygol angenrheidiol ac wedi'i ariannu gan y wladwriaeth pan fyddant yn aros dros dro mewn Aelod-wladwriaethau eraill;
- y rheolau sy'n rhoi hawl i bensiynwyr y wladwriaeth sy'n ymddeol i Aelod-wladwriaethau eraill i gael tâl am eu costau gofal iechyd gwladol gan y wlad sy'n talu eu pensiwn
- hawliau i gael eu trin yn gyfartal i bobl sy'n symud i weithio mewn Aelod-wladwriaethau eraill, sy'n golygu y gallant gael gwasanaethau iechyd a ariannwyd gan y wladwriaeth ar yr un sail – ac wedi'u talu yn yr un ffordd – ag ar gyfer dinasyddion y wlad honno. Mae hyn yn dibynnu ar y system benodol sydd ar waith yn y wlad lle mae'r person yn gweithio.

## Addysg

17.4 Mae'r DU ac Aelod-wladwriaethau eraill yn gwneud eu polisïau eu hunain ar addysg a hyfforddiant. Mae hyn yn cynnwys penderfyniadau ar y cwricwlwm ac arholiadau ar gyfer addysg ysgol, alwedigaethol neu uwch, ac ariannu neu drefnu sefydliadau a systemau addysg. Nid oes rôl i'r UE yn y meysydd hyn a phrin iawn yw'r ddeddfwriaeth a wnaeth yr UE mewn perthynas ag agweddau eraill ar addysg. Mae'r Cytuniad hefyd yn gwahardd yr UE yn benodol rhag cymryd unrhyw gamau ar gyfer cysoni ym maes addysg a hyfforddiant galwedigaethol.[116]

17.5 Yn lle hynny, mae'r UE yn rhoi cymorth i gyfnewid yr arferion gorau a gall wneud argymhellion polisi nad ydynt yn rhwymol a gaiff eu mabwysiadu drwy gonsensws fel arfer.

## Diwylliant, twristiaeth a chwaraeon

17.6 Ar y cyfan, nid yw'r UE ond yn chwarae rhan ategol mewn perthynas â diwylliant, twristiaeth a chwaraeon. Fodd bynnag, mae'r UE yn darparu cyllid ar gyfer prosiectau diwylliannol a chwaraeon, ac mae rheolau'r UE ar yr hawl i symud yn rhydd a thrafnidiaeth yn hwyluso twristiaeth o fewn yr UE.

---

[116] Erthyglau 165 (4) a 166(4) o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE.

# Pennod 18 – cyfiawnder a materion cartref

## Trefniadau'r DU ar gyfer optio i mewn ym maes cyfiawnder a materion cartref[117]

Yn wahanol i'r rhan fwyaf o'r Aelod-wladwriaethau eraill, nid yw'r DU yn cymryd rhan yn awtomatig ym mesurau'r UE ym maes cyfiawnder a materion cartref, neu'r rheini sy'n ymwneud ag ardal ddi-ffiniau Schengen. Mae cyfiawnder a materion cartref yn cynnwys rheolaethau ar ffiniau, lloches, mewnfudo, cydweithredu barnwrol ar gyfiawnder sifil a throseddol, cydweithredu rhwng heddluoedd, a chyfraith trosedd. Schengen yw'r enw ar y fframwaith cyfreithiol sy'n ymwneud â'r ardal deithio ddi-ffiniau mewn rhannau o gyfandir Ewrop, a hefyd â rhai mesurau ar gyfer cydweithredu trawsffiniol rhwng heddluoedd ac awdurdodau barnwrol. Mae mecanweithiau ar gael sy'n caniatáu i'r DU benderfynu, drwy ystyried pob achos ar wahân, a fydd yn cymryd rhan mewn mesurau ym maes cyfiawnder a materion cartref. Yn achos ardal ddi-ffiniau Schengen, mae'r DU wedi dewis peidio â chymryd rhan yn yr ardal ddi-ffiniau, a thrwy ei hawl i optio i mewn, mae'r DU yn gallu dewis a fydd yn cymryd rhan mewn mesurau ar gyfer cydweithredu rhwng heddluoedd ac awdurdodau barnwrol sy'n deillio o Gonfensiwn Schengen 1990. Mae proses benodol ar gael sy'n ei galluogi i wneud hynny.

### Hawl y DU i ddewis

18.1 Ni fydd cyfreithiau newydd yr UE yn y maes hwn yn gymwys i'r DU oni bai ein bod yn penderfynu cymryd rhan, yn unol â'r Cytuniadau (Protocolau (Rhif 19) a (Rhif 21)). O dan delerau Protocol (Rhif 21) byddwn yn cael ein cau allan yn awtomatig o fesurau newydd yr UE ar gyfiawnder a materion cartref oni bai ein bod yn datgan yn ffurfiol ein bod yn dymuno optio i mewn.[118] O dan Brotocol (Rhif 19) i'r Cytuniadau, mae hawl hefyd gan y DU i ddewis optio allan o unrhyw reolau newydd ar gydweithredu rhwng heddluoedd ac awdurdodau barnwrol sy'n deillio o ddeddfwriaeth bresennol ar Schengen y mae'r DU wedi optio i mewn iddi eisoes.[119] Mae'r DU wedi dewis peidio â chymryd rhan yn ardal ddi-ffiniau Schengen.[120]

---

117 Cyfiawnder a materion cartref yw'r term arferol am faes rhyddid, diogelwch a chyfiawnder

118 Mae Iwerddon hefyd yn mwynhau'r hawliau ym Mhrotocol (Rhif 21). Nid yw Denmarc yn cymryd rhan ym mesurau cyfiawnder a materion cartref yr UE - gweler Protocol (Rhif 22).

119 Penderfyniad y Cyngor 2000/365

120 Mae gallu'r DU i gynnal rheolaethau cenedlaethol ar ffiniau wedi'i danlinellu ym Mhrotocol (Rhif 20) i Gytuniadau'r UE.

18.2 Mae'r Llywodraeth yn gwneud penderfyniadau ar optio i mewn ac optio allan drwy ystyried pob achos ar wahân, ac mae'n penderfynu ar sail buddiant cenedlaethol.[121] Os bydd y DU yn penderfynu peidio â chymryd rhan mewn mesur cyfiawnder a materion cartref, ni fyddwn yn cael ein rhwymo gan y mesur perthnasol, neu ddarpariaethau yn y cytundeb rhyngwladol perthnasol neu benderfyniadau gan Lys Cyfiawnder Ewrop mewn perthynas â nhw.[122] Mae'r un egwyddor yn gymwys i fesurau sy'n deillio o Schengen nad yw'r DU yn cymryd rhan ynddynt.[123]

18.3 Mae'r holl benderfyniadau sy'n ymwneud â chymhwyso'r hawl i optio i mewn ac optio allan yn dod o dan weithdrefnau craffu manwl Senedd y DU, ac mae hyn yn cynnwys adroddiad a gyflwynir i'r Senedd bob blwyddyn.

## Y broses ar gyfer optio i mewn neu allan o gyfreithiau'r UE

### Mesurau cyfiawnder a materion cartref

18.4 Os bydd y DU yn penderfynu optio i mewn i fesur arfaethedig ym maes cyfiawnder a materion cartref, rhaid iddi hysbysu Llywydd y Cyngor, drwy lythyr, o fewn tri mis ar ôl cyhoeddi'r cynnig. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd y DU yn gallu pleidleisio wedyn ar fabwysiadu'r mesur gan y Cyngor ac, os caiff ei fabwysiadu, bydd y mesur yn rhwymo'r DU.

18.5 Mae'r broses ar gyfer optio i mewn yn dod o dan Brotocol (Rhif 21) i'r Cytuniadau. Mae'r Protocol hwn yn gymwys hefyd i ddarpariaethau mewn cytundebau rhyngwladol rhwng yr UE a thrydedd wledydd (gwledydd y tu allan i'r UE) sy'n ymwneud â rhwymedigaethau ym maes cyfiawnder a materion cartref.

18.6 Gall y DU wneud cais hefyd am optio i mewn i fesur cyfiawnder a materion cartref ar ôl ei fabwysiadu gan yr UE, ar yr amod bod y Comisiwn Ewropeaidd yn cadarnhau hynny.[124]

18.7 Os bydd y DU yn penderfynu peidio ag optio i mewn i gynnig, ni fyddwn yn gallu pleidleisio ar y mesur arfaethedig, ond gallwn gymryd rhan mewn negodiadau er hynny.

18.8 Mae setliad y DU a negodwyd yng nghyfarfod y Cyngor Ewropeaidd yn Chwefror 2016 yn ei gwneud yn glir y bydd hawl y DU i optio i mewn yn gymwys pryd bynnag y bydd yr UE yn cytuno ar ddeddfwriaeth ynghylch cyfiawnder a materion cartref – gan gynnwys amgylchiadau sy'n golygu bod rhaid rhannu'r mesur yn ddau, fel bod y cynnwys sy'n ymwneud â chyfiawnder a materion cartref wedi'i wahanu'n glir oddi wrth weddill y mesur.

18.9 O ganlyniad i hyn, pryd bynnag y bydd yr UE yn cytuno ar ddeddfwriaeth newydd sy'n cynnwys darpariaethau ar gyfiawnder a materion cartref, bydd y gallu gan y DU o hyd i ddewis a yw'n dymuno cymryd rhan neu beidio yn y mesurau cyfiawnder a materion cartref hynny, a bydd Aelod-wladwriaethau'r UE a sefydliadau'r UE yn gorfod parchu'r penderfyniad hwnnw.

---

121 Mae rhestr o benderfyniadau'r DU ar gymryd rhan mewn mesurau cyfiawnder a materion cartref yn 'Background information: JHA opt-in protocol and Schengen opt-out protocol', Ebrill 2016. Mae ar gael yn GOV.UK.

122 Erthygl 2 o Brotocol (Rhif 21) i Gytuniadau'r UE.

123 Gweler Erthyglau 1 a 2 o Brotocol (Rhif 19) i Gytuniadau'r UE. Mae'r trefniadau ar gyfer y DU o dan Brotocol (Rhif 19) yn gymwys i Iwerddon hefyd.

124 Erthygl 4 o Brotocol (Rhif 21) i Gytuniadau'r UE ac Erthygl 331 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE.

### Ardal ddi-ffiniau Schengen

18.10 O dan Gonfensiwn Schengen 1990, sefydlwyd ardal ddi-ffiniau ar draws rhannau o Ewrop.[125] Mae'r DU wedi dewis peidio â chymryd rhan yn yr ardal ddi-ffiniau hon. Lle mae mesur newydd yn datblygu neu'n ychwanegu at ran o'r corff o gyfreithiau sy'n deillio o Gonfensiwn Schengen 1990, bydd protocol gwahanol yn gymwys – Protocol (Rhif 19). Gelwir mesurau o'r fath yn 'fesurau adeiladu Schengen'.

18.11 Dim ond mewn rhan fach o'r corff hwnnw o gyfreithiau y mae'r DU yn cymryd rhan (y rhan sy'n ymwneud â chydweithredu rhwng heddluoedd ac awdurdodau barnwrol). Lle mae mesur yn datblygu neu'n ychwanegu at y rheolau ar gydweithredu rhwng heddluoedd ac awdurdodau barnwrol, tybir y bydd y DU yn cymryd rhan oni bai ei bod yn penderfynu optio allan o fewn cyfnod o dri mis ar ôl cyhoeddi'r cynnig. Nid yw'r DU yn cymryd rhan yn y rheolau sy'n ymwneud â dileu rheolaethau ar ffiniau mewnol nac mewn rheoleiddio rheolaethau ar ffiniau allanol yn ardal ddi-ffiniau Schengen, nac mewn mesurau sy'n ychwanegu at y ddeddfwriaeth honno.

### Mesurau'r UE ar yr heddlu a chyfiawnder troseddol cyn Cytuniad Lisbon

18.12 Ym mis Gorffennaf 2013, arferodd y DU ei hawl o dan Gytuniad Lisbon i optio allan o fesurau'r UE ym maes cydweithredu rhwng heddluoedd ac asiantaethau cyfiawnder troseddol a fabwysiadwyd cyn i Gytuniad Lisbon ddod i rym ar 1 Rhagfyr 2009.[126] Pan ddaeth y penderfyniad i optio allan i rym yn 2014, arferodd y DU ei hawl wedyn i optio'n ôl i mewn i 35 o'r mesurau hynny yr oedd yn credu eu bod er buddiant cenedlaethol y DU,[127] gan gynnwys y Warant Arestio Ewropeaidd a'r Penderfyniad Fframwaith ar Drosglwyddo Carcharorion.

## Lloches ac ymfudo o'r tu allan i'r UE

Mae gan y DU statws arbennig mewn perthynas â rhaglen lloches ac ymfudo'r UE. Mae'r DU wedi dewis cymryd rhan yn rhai o fesurau'r UE ar loches a mewnfudo, ond nid eraill. Mae'r Cyfarwyddebau yn y maes hwn, y mae'r DU wedi dewis cymryd rhan ynddynt, yn gosod safonau gofynnol ar faterion sy'n cynnwys y broses o benderfynu ar geisiadau am loches, darparu llety, a chymorth i geiswyr lloches. Yn ogystal â hyn, mae'r DU yn cymryd rhan yn Rheoliad Dulyn, sy'n gosod y rheolau ar gyfrifoldeb Aelod-wladwriaethau i archwilio ceisiadau am loches. O ganlyniad i'r argyfwng presennol o ran ymfudo i'r UE, mae'r Comisiwn wedi cynnig nifer o fesurau ychwanegol ar gyfer gweithredu gan yr UE. Mae'r DU wedi'i gwneud yn glir ei bod yn barod i gyfrannu'n sylweddol at gydweithredu ymarferol ag Aelod-wladwriaethau eraill i ddelio â phob agwedd ar yr argyfwng. Lle cynigir newidiadau yng nghyfraith yr UE, bydd y DU yn penderfynu drwy ystyried pob achos ar wahân a fydd yn optio i mewn, ar sail buddiant cenedlaethol. Os cyflwynir offeryn cyfreithiol sy'n ymwneud ag ardal ddi-ffiniau Schengen, ni fydd y DU yn cymryd rhan.

18.13 Rhoddir lloches i bobl sy'n ffoi rhag erledigaeth neu niwed difrifol yn eu gwlad eu hunain sydd ag angen amddiffyniad rhyngwladol. Mae'r hawl i loches wedi'i chydnabod

---

125 Confensiwn yn gweithredu Cytundeb Schengen a wnaed ar 14 Mehefin 1985 rhwng Llywodraethau Gwladwriaethau Undeb Economaidd Benelwcs, Gweriniaeth Ffederal yr Almaen a Gweriniaeth Ffrainc ar ddileu archwiliadau'n raddol ar eu ffiniau cyffredin, 19 Mehefin 1990

126 Erthygl 10 o Brotocol (Rhif 36) i Gytuniadau'r UE.

127 Gweler Penderfyniad y Cyngor 2014/857/EU a Phenderfyniad y Comisiwn 2014/858/EU. Mae'r holl fanylion ym Mhapur Gorchymyn 8671 ar y Penderfyniad yn unol ag Erthygl 10, Protocol (Rhif 36) i'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE, Gorffennaf 2013.

yng Nghonfensiwn Genefa 1951 sy'n ymwneud â statws ffoaduriaid.[128] Gall yr UE wneud cyfreithiau i ddatblygu dull cyson o ymdrin â lloches a diogelu ffoaduriaid, yn unol â Chonfensiwn Genefa 1951.

18.14 Mae'r UE wedi cytuno ar nifer o reolau sy'n ymwneud â lloches a mewnfudo i'r UE gan wladolion o drydedd wledydd. Gall y DU ddewis cymryd rhan yn y rheolau hyn os yw'n dymuno, ond nid oes rhaid iddi (mae rhagor o fanylion yn yr adran ar fesurau cyfiawnder a materion cartref).

18.15 Fel arfer cytunir ar y cyd ar gyfreithiau'r UE ar loches ac ymfudo rhwng Senedd Ewrop ac Aelod-wladwriaethau yn y Cyngor drwy Bleidleisio drwy Fwyafrif Cymwysedig.[129]

### Ymfudo o'r tu allan i'r UE

18.16 Yn gyffredinol mae'r DU wedi dewis peidio â chymryd rhan mewn mesurau sy'n ymwneud ag ymfudo o drydedd wledydd, er ei bod yn cymryd rhan, er enghraifft, yn rhai o'r cytundebau a wnaeth yr UE â thrydedd wledydd ynghylch derbyn yn ôl eu gwladolion eu hunain sy'n bresennol yn anghyfreithlon yn nhiriogaethau ei gilydd. Gan fod y DU yn parhau y tu allan i ardal ddi-ffiniau Schengen, nid yw rhwymedigaethau o dan gyfraith yr UE yn y maes hwn, fel rheoliadau ar yr hawl i aros a mynediad i bobl o'r tu allan i'r UE, yn gymwys i'r DU.

### Lloches

18.17 Yr enw ar y corff o gyfreithiau'r UE sy'n ymwneud â lloches yw'r System Lloches Ewropeaidd Gyffredin. Rhwng 1999 a 2005 yr unig beth y gellid ei wneud drwy'r ddeddfwriaeth ar loches a fabwysiadwyd gan yr UE oedd gosod safonau gofynnol. Roedd y DU wedi optio i mewn i'r holl fesurau lloches yng nghyfnod 'safonau gofynnol' y System Lloches Ewropeaidd Gyffredin, ond nid oedd wedi optio i mewn i fersiynau diwygiedig y Cyfarwyddebau ar Gymhwyso, Derbyn a Gweithdrefnau.

18.18 Ers i Gytuniadau'r UE ddod i rym, gellir gosod safonau cyffredin neu safonau a rennir yn awr drwy ddeddfwriaeth lloches i'w dilyn gan Aelod-wladwriaethau. Y cyfreithiau ar loches a fabwysiadwyd o dan y fframwaith diweddarach hwn yw 'ail gyfnod' y System Lloches Ewropeaidd Gyffredin.

18.19 Mae'r DU wedi optio i mewn i'r mesurau yn y rhestr isod. Wedi i'r DU ddewis optio i mewn i fesur, rhaid iddi gydymffurfio â'i delerau:

- penderfynu pa Aelod-wladwriaeth sy'n gyfrifol am archwilio cais am loches a gyflwynwyd yn un o'r Aelod-wladwriaethau. Mae hyn yn caniatáu i'r DU anfon ceiswyr lloches i Aelod-wladwriaethau eraill sydd â'r prif gyfrifoldeb dros y ceisydd (a all fod yr Aelod-wladwriaeth lle'r oedd y ceisydd wedi hawlio lloches yn gyntaf), yn ogystal â gorfodi'r DU i dderbyn ceiswyr o Aelod-wladwriaethau eraill os mai hi sydd â'r prif gyfrifoldeb (Rheoliad Dulyn);
- cymryd olion bysedd a sefydlu cronfa ddata o geiswyr lloches ac ymfudwyr sy'n dod i'r UE yn anghyfreithlon (Rheoliad Eurodac);
- cydweithredu ymarferol drwy greu Swyddfa Gymorth Lloches Ewropeaidd a chymorth i Aelod-wladwriaethau sy'n wynebu pwysau mawr (Rheoliad EASO);

---

[128] Confensiwn 1951 ynghylch Statws Ffoaduriaid a Phrotocol 1967 ynghylch Statws Ffoaduriaid

[129] Erthyglau 77, 78 a 79 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE

- gwarantau i geiswyr lloches ynghylch eu gallu i gael llety, addysg a gofal iechyd tra bydd eu hawliadau'n cael eu hystyried (y Gyfarwyddeb ar Dderbyn);
- meini prawf ar gyfer penderfynu ar statws ffoadur neu amddiffyniad ategol (dyngarol) a'r hawliau sy'n gysylltiedig â phob math o statws os rhoddwyd cydnabyddiaeth i angen y ceisydd lloches am amddiffyniad (y Gyfarwyddeb ar Gymhwyso);
- gweithdrefnau i sicrhau bod ceiswyr lloches, gan gynnwys plant a phobl ag anghenion arbennig, yn gallu cymryd rhan mewn proses lloches a darparu gwybodaeth i'r awdurdodau lloches cenedlaethol am eu hawliadau (y Gyfarwyddeb Gweithdrefnau Lloches);
- mecanweithiau i roi amddiffyniad dros dro os ceir mewnlifiad mawr o bobl sydd wedi'u dadleoli (y Gyfarwyddeb Amddiffyniad Dros Dro)
- cyllid a drefnir i hyrwyddo rheoli effeithlon ar lifau ymfudo, yn ogystal â gweithredu, cryfhau a datblygu dull cyffredin yn yr UE o ddelio â lloches ac ymfudo. Mae'n ofynnol i'r DU gyfrannu arian i'r gronfa hon, ond mae ganddi hawl i dderbyn cyllid ar gyfer gweithgareddau cysylltiedig ag ymfudo, gan gynnwys y rheini y mae'n eu cyflawni'n annibynnol ar yr UE (er enghraifft, cyfrannu at dalu costau am adsefydlu ffoaduriaid).

## Yr heddlu a chyfiawnder troseddol

Mae'r DU yn gallu dewis ynghylch a fydd yn cymryd rhan yn yr holl fesurau newydd ar gyfer heddluoedd a chyfiawnder troseddol. Pwrpas y rhan fwyaf o'r rheolau yn y maes hwn yw hwyluso cydweithredu rhwng asiantaethau gorfodi'r gyfraith, ymchwilwyr, erlynwyr a barnwyr wrth ddelio â throseddu trawsffiniol yn yr UE. Mae rhai mesurau hefyd ar gyfer gosod safonau gofynnol ar gyfer gweithdrefnau a chyfraith trosedd.

18.20 Mae mesurau Ewropeaidd ym maes yr heddlu a chyfiawnder troseddol[130] yn rhoi'r gallu i gydweithredu yn yr UE ar ddarganfod, ymchwilio, erlyn a chosbi am droseddu. Bydd y DU yn dewis a fyddwn yn cymryd rhan ym mesurau'r UE ar gyfer yr heddlu a chyfiawnder troseddol drwy ystyried pob achos ar wahân (mae rhagor o fanylion yn yr adran ar y trefniadau i optio i mewn i fesurau cyfiawnder a materion cartref).

18.21 Mae mesurau'r UE yn y meysydd hyn, y dewisodd y DU gymryd rhan ynddynt drwy ei hawl i optio i mewn, yn hybu:

- cydweithredu rhwng heddluoedd, sy'n caniatáu i asiantaethau gorfodi'r gyfraith weld a rhannu gwybodaeth mewn ffordd briodol a chydweithio ag Aelod-wladwriaethau eraill i ymladd yn erbyn troseddu;
- cydweithredu barnwrol, yn cynnwys holl gamau'r ymchwiliad i drosedd, lle mae'r cymorth rhwng Aelod-wladwriaethau'n cynnwys mesurau i hwyluso estraddodi a chymorth ymarferol i awdurdodau barnwrol
- sefydlu safonau gofynnol, yn cynnwys rheolau ar ddiffinio troseddau penodol, ar gosbau, ac mewn perthynas â hawliau diffynyddion a dioddefwyr

18.22 Mae'r mesurau ar gyfer heddluoedd a chyfiawnder troseddol yn gweithredu ochr yn ochr â mesurau eraill a fabwysiadwyd o dan rannau eraill o gyfraith yr UE. Er enghraifft, mae'r

[130] Gweler Penodau 4 a 5 o Deitl V i Ran Tri o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE.

Gyfarwyddeb yn erbyn Gwyngalchu Arian yn creu'r safonau rheoleiddio y mae'r DU ac Aelod-wladwriaethau eraill yn eu gosod ar gyfer busnesau. Mae'n gweithredu safonau rhyngwladol ac yn sicrhau sefyllfa gyfartal ar draws yr UE gan hybu cydweithredu rhwng awdurdodau rheoleiddio.

18.23 Fel arfer penderfynir ar y cyd ar fesurau ar gyfer heddluoedd a chyfiawnder troseddol rhwng y Cyngor a Senedd Ewrop.[131] Ond mae amddiffyniadau gweithdrefnol penodol ar gael i'r holl Aelod-wladwriaethau sy'n gymwys i weithgareddau ym maes yr heddlu a chyfiawnder troseddol yn yr UE, gan gynnwys atalfa frys i ddiogelu agweddau hanfodol ar y system cyfiawnder troseddol.[132] Mae'r amddiffyniadau hyn yn adlewyrchu'r sensitifrwydd mawr sy'n perthyn i gymhwysedd yr UE yn y maes hwn a sut mae hyn yn effeithio ar sofraniaeth genedlaethol.

18.24 Mae'r Cytuniadau'n datgan bod yr UE yn gorfod parchu swyddogaethau Aelod-wladwriaethau, gan gynnwys cadw cyfraith a threfn a sicrhau diogelwch gwladol.[133] Nid oes awdurdodaeth gan Lys Cyfiawnder Ewrop i adolygu gweithrediadau gan yr heddlu a gwasanaethau eraill sy'n gorfodi'r gyfraith mewn Aelod-wladwriaeth am eu dilysrwydd neu gymesuredd. Nid yw ychwaith yn gallu adolygu cyfrifoldebau Aelod-wladwriaethau am gadw cyfraith a threfn a sicrhau diogelwch mewnwladol.[134]

### Cydweithredu rhwng heddluoedd

18.25 Mae'r DU wedi dewis cymryd rhan yn rhai o fesurau'r UE ar gyfer cydweithredu rhwng heddluoedd, fel Europol, sy'n helpu asiantaethau sy'n gorfodi'r gyfraith mewn Aelod-wladwriaethau i weld a rhannu gwybodaeth er mwyn cydweithio i ymladd yn erbyn troseddu. Mae mesurau hefyd ar gyfer hybu a chydgysylltu camau gweithredu rhwng asiantaethau gorfodi'r gyfraith mewn Aelod-wladwriaethau gwahanol.

18.26 Mae'r mesurau sydd wedi'u mabwysiadu gan yr UE ar gyfer cydweithredu rhwng heddluoedd yn helpu cyrff sy'n gorfodi'r gyfraith mewn Aelod-wladwriaethau drwy:

- rannu negeseuon rhybudd yr heddlu, fel y gellir rhoi gwybod am bobl ac eitemau sydd o ddiddordeb i'r heddlu (i ddibenion darganfod, ymchwilio ac erlyn am droseddu, fel arfer) i asiantaethau gorfodi'r gyfraith ledled Ewrop[135]
- rhannu gwybodaeth arall i helpu i ddilyn hynt troseddwyr ar draws ffiniau, neu ddatrys troseddau sydd ag elfen drawsffiniol, gan gynnwys mesurau sy'n canolbwyntio ar wyngalchu arian a throseddu sy'n gysylltiedig â gemau pêl-droed rhyngwladol
- cydweithio i ddadansoddi gwybodaeth a gasglwyd gan asiantaethau gorfodi'r gyfraith ym mhob rhan o Ewrop.

---

131 Gweler Erthyglau 82(1) a (2), 83, 84, 85, 87 a 88 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE.

132 Gweler Erthyglau 82(3) a 83(3) o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE. Ond mae amddiffyniadau gweithdrefnol eraill hefyd (Erthygl 72 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE ar gyfraith a threfn etc; Erthygl 76 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE ar hawl cychwyn yr Aelod-wladwriaethau; Erthyglau 82, 83 a 86 ar gymalau passerelle sy'n galw am unfrydedd; Erthygl 86 ar Swyddfa'r Erlynydd Cyhoeddus Ewropeaidd a threfniadau cydweithredu manwl; Erthyglau 87(3) a 89 ar y weithdrefn ddeddfwriaethol arbennig; Erthygl 346 ar wybodaeth am ddiogelwch gwladol.

133 Gweler Erthygl 4(2) o'r Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd ac Erthygl 72 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE

134 Gweler Erthygl 276 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE.

135 Gweler, er enghraifft, Penderfyniad y Cyngor 2007/533/JHA ar 12 Mehefin 2007 ar sefydlu, gweithredu a defnyddio ail genhedlaeth System Wybodaeth Schengen (SIS II)

## Cydweithredu rhwng barnwyr ar faterion troseddol

18.27 Mae mesurau ar gyfer cydweithredu rhwng barnwyr mewn materion troseddol yn ymwneud ag ymchwilio i droseddau, erlyn a gorfodi cosbau troseddol. Mae mesurau penodol yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau eraill gydnabod rhai o'r penderfyniadau a wneir gan lysoedd ac awdurdodau erlyn y DU, ar ôl bodloni meini prawf penodol. Mae awdurdodau'r DU hefyd yn gorfod cydnabod rhai o'r penderfyniadau a wneir mewn Aelod-wladwriaethau eraill, ar ôl bodloni'r un meini prawf. Gellir cael cydweithredu rhwng barnwyr ar unrhyw adeg rhwng y cyfnod cyn y treial a'r cyfnod ar ôl rhoi'r dyfarniad neu ddedfryd.

18.28 Ymhlith y mesurau sy'n ymwneud â chydweithredu rhwng barnwyr ar faterion troseddol y mae'r DU wedi dewis cymryd rhan ynddynt, mae rhai sy'n rhoi cymorth ar gyfer:

- estraddodi unigolion y mae awdurdodau barnwrol mewn Aelod-wladwriaeth arall yn chwilio amdanynt er mwyn eu herlyn neu eu dedfrydu, drwy'r Warant Arestio Ewropeaidd;
- cydweithio a chydweithredu ymarferol rhwng awdurdodau ymchwilio ac erlyn cenedlaethol mewn perthynas â throseddu difrifol;
- mesurau i hybu cydweithredu ar draws ffiniau i gasglu tystiolaeth sydd ei hangen i weithredu ar achosion;
- cydnabyddiaeth gyfatebol i gosbau troseddol gan gynnwys dedfrydau o garchar, sy'n rhoi'r gallu i drosglwyddo carcharorion i'r Aelod-wladwriaeth lle maent yn wladolion er mwyn cyflawni eu dedfryd;
- gorchmynion atafaelu a rhewi asedau a wneir gan lys mewn un Aelod-wladwriaeth, y gellir eu cydnabod yn effeithlon a di-oed gan lysoedd mewn Aelod-wladwriaeth arall
- rhannu cofnodion troseddol, i alluogi ymchwilwyr a'r llysoedd i ystyried cofnodion troseddol pobl o bob rhan o'r UE yn ystod ymchwiliadau ac wrth benderfynu ar ddedfrydau.

## Safonau gofynnol yr UE ar gyfer cyfraith trosedd a gweithdrefnau

18.29 Mae'r DU wedi dewis cymryd rhan mewn nifer bach o fesurau ar gyfer gosod safonau gofynnol. Pwrpas y rhain yw sicrhau bod Aelod-wladwriaethau wedi rhoi hawliau gweithdrefnol sylfaenol i ddiffynyddion a dioddefwyr troseddau, a bod y diffiniadau o droseddau difrifol penodol a lefelau'r sancsiynau troseddol yn hwyluso cydweithredu ar draws ffiniau i orfodi'r gyfraith. Maent hefyd yn ceisio sicrhau bod y gydnabyddiaeth gyfatebol i benderfyniadau barnwrol mewn Aelod-wladwriaethau eraill wedi'i seilio ar gytundeb i sicrhau amddiffyniadau gweithdrefnol sylfaenol.

## Cytundebau rhyngwladol a materion yr heddlu a chyfiawnder troseddol

18.30 Yn ogystal â'r uchod, drwy gymhwysedd allanol yr UE ym materion yr heddlu a chyfiawnder troseddol, mae'r UE wedi gwneud cytundebau â thrydedd wledydd ar faterion penodol sy'n helpu i ymladd yn erbyn troseddu. Ymhlith y rhain mae cytundebau ag Unol Daleithiau America, Canada ac Awstralia i ganiatáu cyfnewid Cofnodion Enwau Teithwyr, sy'n darparu gwybodaeth i helpu'r heddlu ac asiantaethau diogelwch i adnabod terfysgwyr posibl.

## Cydweithredu rhwng barnwyr ar gyfraith sifil

Mae'r UE wedi cytuno ar set o reolau ar gyfer datrys materion trawsffiniol a all godi mewn anghydfodau o dan gyfraith sifil, fasnachol a theulu. Mae'r rhain yn galluogi llysoedd cenedlaethol, partïon a'u cynrychiolwyr cyfreithiol i wybod pa lys sy'n gyfrifol am benderfynu ar achos a chyfraith pa wlad sy'n gymwys. Maent hefyd yn creu mecanweithiau effeithiol sy'n rhoi'r gallu i gymhwyso a gorfodi penderfyniadau gan lysoedd cenedlaethol mewn Aelod-wladwriaethau eraill, ac i alluogi llysoedd i gydweithredu'n effeithiol. Mae'r rheolau'n gymwys, er enghraifft, i anghydfodau trawsffiniol ynghylch hawliadau sy'n ymwneud â chontractau defnyddwyr neu faterion sy'n gysylltiedig ag ysgariad neu gystodaeth plant . Mae'r rheolau hyn yn rhwymo llysoedd y DU ac yn effeithio ar fusnesau ac unigolion yn y DU, ond mae hawl gan y DU i ddewis a fydd yn cymryd rhan ynddynt neu beidio.

18.31 Mae'r UE yn gwneud rheolau ynghylch sut y dylai llysoedd cenedlaethol ddelio ag anghydfodau cyfreithiol trawsffiniol ym maes cyfraith sifil, fasnachol a theulu, er mwyn sicrhau bod y Farchnad Sengl yn rhedeg yn fwy esmwyth.[136] Mae'r DU yn gallu dewis a fydd yn cymryd rhan yn y cyfreithiau hyn drwy'r trefniadau optio i mewn ar gyfer cyfiawnder a materion cartref.[137]

18.32 Ym maes cyfraith sifil a masnachol, penderfynir ar y cyd ar y rheolau hyn rhwng Senedd Ewrop ac Aelod-wladwriaethau yn y Cyngor. Mae'r DU yn cymryd rhan drwy bleidleisio yn y Cyngor, sy'n penderfynu drwy Bleidleisio drwy Fwyafrif Cymwysedig. Ym maes cyfraith teulu, caiff y rheolau eu mabwysiadu gan y Cyngor drwy bleidlais unfrydol ar ôl ymgynghori â Senedd Ewrop. Gall y Cyngor benderfynu (drwy bleidlais unfrydol) y gellir cytuno ar agweddau penodol ar gyfraith teulu drwy Bleidleisio drwy Fwyafrif Cymwysedig yn hytrach na phleidlais unfrydol, ond rhaid cael cymeradwyaeth gan yr holl Seneddau cenedlaethol i'r newid hwn yn y weithdrefn bleidleisio a, hyd yn hyn, ni chafwyd penderfyniad o'r fath i newid y gweithdrefnau pleidleisio.

18.33 Ymhlith y meysydd pwnc y gall yr UE ddeddfu arnynt mewn perthynas â chyfiawnder sifil y mae:

- rheolau ar gyfer penderfynu gan lysoedd pa Aelod-wladwriaeth y mae'r pŵer i benderfynu ar achos sydd ag elfen drawsffiniol;
- rheolau ar gyfer penderfynu cyfraith pa wlad sy'n gymwys i anghydfod trawsffiniol sy'n cael ei ystyried gan lys cenedlaethol;
- rheolau i ganiatáu i ddyfarniadau mewn un Aelod-wladwriaeth fod yn rhwymol a gorfodadwy mewn Aelod-wladwriaeth arall;
- rheolau sy'n galluogi llysoedd i gydweithredu ar achosion trawsffiniol, er enghraifft ar gyflwyno dogfennau llys neu gymryd tystiolaeth mewn Aelod-wladwriaeth arall
- rheolau i sicrhau mynediad effeithiol at gyfiawnder, datblygu dulliau amgen o ddatrys anghydfodau, fel cyfryngu, a chymorth ar gyfer hyfforddi barnwyr.

18.34 Mae'r rheolau wedi'u seilio ar egwyddor cydnabyddiaeth gyfatebol i benderfyniadau barnwrol. Maent hefyd yn adlewyrchu'r egwyddor y dylai partïon allu dewis pa lysoedd a

136 Gweler yn benodol Erthygl 81 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE

137 Protocol (Rhif 21) i Gytuniadau'r UE

fydd yn penderfynu ar anghydfodau a pha gyfraith a fydd yn gymwys, o dan rai amodau diogelu. Lle mae'r DU wedi dewis cymryd rhan yn rheolau'r UE, byddant yn rhwymo llysoedd y DU ac yn effeithio ar y ffordd y maent yn delio â materion sy'n codi mewn anghydfodau trawsffiniol. Felly bydd goblygiadau ynddynt i fusnesau, defnyddwyr ac unigolion eraill yn y DU sy'n gysylltiedig â masnachu trawsffiniol neu anghydfodau teuluol sydd ag elfen drawsffiniol. Pwrpas y rheolau yw rhoi mwy o sicrwydd i unigolion a busnesau drwy osod fframwaith unffurf clir ar draws yr UE ar gyfer y ffordd o ddatrys anghydfodau sy'n cynnwys materion trawsbynciol sy'n ymwneud ag Aelod-wladwriaethau gwahanol yn yr UE.

### Cydweithredu rhwng barnwyr ar faterion sifil a masnachol

18.35 Prif bwrpas y ddeddfwriaeth y mae'r UE wedi'i gwneud ym maes cyfraith sifil a masnachol yw hwyluso gweithrediad y Farchnad Sengl. Ymhlith y prif fesurau deddfwriaethol y mae'r DU wedi optio i mewn iddynt ym maes cyfraith sifil a masnachol y mae:

- rheolau sy'n pennu o dan ba amgylchiadau y mae pŵer gan lys i benderfynu ar achos sifil neu fasnachol sy'n ymwneud â materion trawsffiniol sy'n gysylltiedig ag Aelod-wladwriaeth arall;
- rheolau sy'n ei gwneud yn ofynnol i lysoedd gymhwyso a gorfodi dyfarniadau a wnaed yn Aelod-wladwriaethau eraill yr UE (gydag eithriadau penodol), ac sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddyfarniadau a wnaed yn y DU gael eu cymhwyso a'u gorfodi yn Aelod-wladwriaethau eraill yr UE;
- rheolau ar gyfraith gymwysadwy, sy'n pennu sut y bydd llys yn penderfynu cyfraith pa wlad a gaiff ei chymhwyso mewn anghydfod sydd ag elfen drawsffiniol
- rheolau sy'n creu gweithdrefnau cyffredin ar draws yr UE ar gyfer hawliadau diwrthwynebiad a hawliadau bychain (am €2,000 neu lai).

### Cydweithredu rhwng barnwyr ym maes cyfraith teulu

18.36 Mae'r UE wedi mabwysiadu gwahanol reolau ynghylch anghydfodau trawsffiniol sy'n ymwneud â theuluoedd, ac mae'r DU wedi optio i mewn i nifer o'r rheolau hyn, gan gynnwys:

- rheolau i benderfynu gan ba lys y mae pŵer i wneud penderfyniadau mewn achosion priodasol fel ysgariad, mewn anghydfodau sy'n ymwneud â phlant (gan gynnwys achosion herwgydio plant) ac mewn anghydfodau sy'n ymwneud â chynnal plentyn neu briod, lle mae elfen drawsffiniol, er enghraifft os yw'r rhieni â'u cartrefi mewn Aelod-wladwriaethau gwahanol
- rheolau sy'n ei gwneud yn ofynnol bod llysoedd ar draws yr UE yn cymhwyso ac yn gorfodi dyfarniadau ei gilydd yn yr anghydfodau trawsffiniol hynny. Mae rheolau hefyd sy'n ei gwneud yn ofynnol i lysoedd gymhwyso a gorfodi mesurau diogelwch sifil, yn cynnwys gorchmynion i ddiogelu dioddefwyr trais domestig, lle gallai'r partïon cysylltiedig fod mewn Aelod-wladwriaethau gwahanol.

18.37 Yn ogystal â hyn, mae'r UE wedi mabwysiadu rheolau i ddelio ag anghydfodau trawsffiniol sy'n ymwneud ag etifeddu eiddo ar ôl marwolaeth a'r gyfraith sy'n gymwysadwy i achosion ysgariad, ond nid yw'r DU wedi optio i mewn i'r rheolau hyn ac nid ydynt yn rhwymo llysoedd y DU.

## Rheolau eraill ar gydweithredu rhwng barnwyr mewn achosion sifil

18.38 Mae'r DU yn cymryd rhan yn neddfwriaeth yr UE sy'n ymwneud â chyflwyno dogfennau llys a chymryd tystiolaeth, sydd hefyd â'r amcan o hwyluso achosion llys sy'n ymwneud â materion sifil a theulu trawsffiniol. Mae'r UE wedi gwneud rheolau hefyd sy'n gosod safonau gofynnol ar gyfer yr hawl i gael cymorth cyfreithiol mewn anghydfodau trawsffiniol a rheolau sy'n hybu'r defnydd o wasanaethau cyfryngu fel dewis yn lle mynd i'r llys i ddatrys anghydfodau trawsffiniol: mae'r ddwy set hyn o reolau'n gymwys i'r DU. Sefydlwyd Rhwydwaith Barnwrol Ewropeaidd sy'n hybu cydweithredu ar draws ffiniau, yn helpu i ddatrys problemau sy'n codi mewn achosion penodol ac yn darparu gwybodaeth i'r cyhoedd.

## Cytundebau rhyngwladol a chydweithredu rhwng barnwyr mewn materion sifil

18.39 Yn ogystal â'r uchod, mae'r UE, ynghyd â'r Aelod-wladwriaethau, yn cymryd rhan mewn sefydliadau rhyngwladol fel Cynhadledd yr Hag ar Gyfraith Ryngwladol Breifat lle trafodir materion sy'n effeithio ar reolau'r UE. Gall yr UE wneud cytundebau rhyngwladol hefyd â thrydedd wledydd mewn perthynas â chydweithredu ar gyfraith sifil a theulu. Er enghraifft, mae'r UE wedi gwneud cytundebau â Norwy, y Swistir a Gwlad yr Iâ ar awdurdodaeth a chydnabod a gorfodi dyfarniadau mewn materion sifil a masnachol. Mae hefyd wedi llofnodi Confensiwn yr Hag 2007 ar Gynnal Plant a Mathau Eraill o Gynhaliaeth i Deuluoedd.

# Pennod 19 – polisi tramor ac amddiffyn

Gall yr UE gytuno ar safbwyntiau cyffredin ar faterion tramor a diogelwch. Mae Aelod-wladwriaethau'n parhau i weithredu polisi tramor annibynnol ond rhaid iddynt barchu safbwyntiau cyffredin yr UE ar ôl cytuno arnynt. Gall yr UE gynnal cenadaethau i gadw heddwch neu genadaethau eraill i atal gwrthdaro neu warchod diogelwch rhyngwladol. Ni ellir cychwyn unrhyw genhadaeth heb gael cytundeb gan y DU a phob Aelod-wladwriaeth arall. Ni ellir anfon milwyr na phersonél eraill o'r DU oni bai fod y DU wedi'u cynnig yn wirfoddol. Mae'r DU ac Aelod-wladwriaethau eraill yn parhau'n gyfrifol am eu hamddiffyn a'u diogelwch gwladol eu hunain

19.1 Mae rôl yr UE yn y maes hwn wedi'i disgrifio yn y Polisi Tramor a Diogelwch Cyffredin (PTDC).[138] Enghreifftiau o benderfyniadau gan yr UE yn y maes hwn yw'r rheini sy'n ymwneud â gosod sancsiynau rhyngwladol ar wladwriaethau eraill, a chydgysylltu cymorth gan yr UE i wledydd y tu allan i'r UE drwy ddarparu hyfforddiant i sifiliaid a milwyr a chenadaethau eraill i feithrin gallu.

19.2 Mae'r DU yn gweithredu polisi tramor annibynnol ac mae'n gyfrifol am ei hamddiffyn a'i diogelwch gwladol ei hun. Yn yr un modd ag Aelod-wladwriaethau eraill, gall y DU benderfynu drosti'i hun pa gysylltiadau a fydd ganddi â gwledydd y tu allan i'r UE neu sefydliadau rhyngwladol. Fodd bynnag, mae'r PTDC yn cynnig ffordd o hyrwyddo polisïau a safbwyntiau ar y cyd os bydd pob un o 28 Aelod-wladwriaeth yr UE yn gytûn. Wedi i Aelod-wladwriaethau gytuno ar safbwynt cyffredin o dan y PTDC, rhaid iddynt ei barchu wedyn yn eu cysylltiadau â gwledydd y tu allan i'r UE a sefydliadau rhyngwladol[139] a chydweithio ag Aelod-wladwriaethau eraill a sefydliadau'r UE i'w wireddu.[140] Yn yr un modd ag Aelod-wladwriaethau eraill, gall y DU ddefnyddio'r PTDC i ledaenu ei pholisi tramor drwy'r UE ac amddiffyn ei buddiannau ym mhedwar ban byd.

19.3 Y Cyngor Ewropeaidd a Chyngor y Gweinidogion sy'n sbarduno penderfyniadau o dan y PTDC. Cytunir ar benderfyniadau drwy unfrydedd (gydag ychydig iawn o eithriadau)).[141] Felly mae'r DU ac Aelod-wladwriaethau eraill yn gallu rhoi feto ar y rhan fwyaf o'r penderfyniadau

[138] Pennod 2 o Deitl V o'r Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd

[139] Erthygl 24(3) o'r Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd.

[140] Gweler Erthyglau 24(3), 28(3), 32 a 34 o'r Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd.

[141] Mae Erthygl 24 o'r Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd yn diffinio'r rheol gyffredinol ynghylch unfrydedd ar faterion y PTDC. Mae Erthygl 31 yn nodi nifer bach o eithriadau, lle gellir pleidleisio drwy Fwyafrif Cymwysedig. Fodd bynnag, mae rhai amddiffyniadau os bydd Aelod-wladwriaeth yn gwrthwynebu Pleidleisio drwy Fwyafrif Cymwysedig.

ar faterion tramor a diogelwch, a gallant rwystro camau gan yr UE yn y maes hwn os nad ydynt yn credu eu bod yn unol â'u buddiant cenedlaethol. Mae'r rôl sydd gan sefydliadau eraill yr UE yn y PTDC yn gyfyngedig. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn chwarae rhan fach,[142] mae rôl ymgynghorol gyfyngedig gan Senedd Ewrop ac ni all wneud unrhyw benderfyniadau rhwymol.[143] Mae eithriad hefyd sy'n golygu bod awdurdodaeth Llys Cyfiawnder Ewrop ym materion y PTDC yn gyfyngedig iawn.[144]

19.4 Mae Cytuniadau'r UE hefyd yn creu swydd 'High Representative of the Union for Foreign Affairs and Security Policy' i gynrychioli'r Undeb ar faterion tramor a diogelwch, lle mae'r UE wedi mabwysiadu safbwynt cyffredin.[145] Mae'r Uchel Gynrychiolydd yn cael cymorth gan y Gwasanaeth Gweithredu Allanol Ewropeaidd, sydd â'i bencadlys ym Mrwsel ac sy'n rhedeg nifer o ddirprwyaethau o gwmpas y byd, i hyrwyddo polisïau'r UE mewn trydydd wledydd. Ymhlith ei staff mae swyddogion o sefydliadau'r UE yn ogystal â swyddogion o wasanaethau diplomyddol yr Aelod-wladwriaethau, gan gynnwys y DU. Rhaid i'r Gwasanaeth Gweithredu Allanol Ewropeaidd gydweithredu â gwasanaethau diplomyddol yr Aelod-wladwriaethau wrth weithredu'r penderfyniadau a wnaed o dan y PTDC.[146]

19.5 Hyd yn oed lle mae'r UE yn mabwysiadu safbwynt ac yn gweithredu ym maes y PTDC, gall Aelod-wladwriaethau barhau i weithredu drwy eu hawl eu hunain ar yr amod bod eu gweithredoedd yn gyson â'r safbwynt a fabwysiadwyd gan yr UE ac nad ydynt yn ei danseilio.

## Sancsiynau

19.6 Mae'r UE yn cyflawni rôl bwysig drwy weithredu sancsiynau a osodwyd gan Gyngor Diogelwch y Cenhedloedd Unedig. Gall hefyd fabwysiadu ei fesurau ei hun yn erbyn trydedd wledydd neu unigolion neu endidau. Dilynir proses ddau gam wrth gyflwyno mesurau ar lefel yr UE. Yn gyntaf, bydd yr UE yn mabwysiadu penderfyniad o dan y PTDC drwy unfrydedd, gan roi'r hawl i osod feto i'r DU ac Aelod-wladwriaethau eraill.[147] Hyn sy'n gosod y fframwaith ar gyfer y sancsiynau. Yn ail, bydd y Cyngor yn mabwysiadu mesurau i'w gweithredu drwy Bleidleisio drwy Fwyafrif Cymwysedig, ar ôl cyflwyno cynnig ar y cyd gan y Comisiwn a'r Uchel Gynrychiolydd.[148] Bydd y DU ac Aelod-wladwriaethau eraill wedi'u rhwymo gan fesurau o'r fath ar ôl eu mabwysiadu,[149] er eu bod yn gallu cynnig a dylanwadu ar sancsiynau gan fod ganddynt le wrth y bwrdd. Er enghraifft, pwysodd y DU yn llwyddiannus am osod sancsiynau gan yr UE yn erbyn Rwsia wedi iddi ymyrryd â sofraniaeth ac integredd tiriogaethol Ukrain yn 2014.

---

142 Nid oes hawl gan y Comisiwn i gynnig deddfwriaeth (Erthyglau 17(2) a 24(1) o'r Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd), ac nid yw'n sicrhau cynrychiolaeth allanol i'r Undeb mewn perthynas â'r PTDC (Erthygl 17(1) o'r Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd)

143 Erthygl 36 o'r Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd

144 Mae Llys Cyfiawnder Ewrop yn gallu adolygu cyfreithlondeb sancsiynau yn erbyn unigolion neu endidau yn unig, ac mae'n rheoleiddio'r berthynas rhwng y PTDC a gweithredu allanol gan yr UE mewn meysydd eraill sy'n dod o dan y Cytuniad ar Weithrediad yr UE. Gweler Erthygl 24(1) o'r Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd (y frawddeg olaf) ac Erthygl 275 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE.

145 Erthyglau 18 a 27 o'r Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd

146 Gweler Erthygl 27(3) o'r Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd a Phenderfyniad y Cyngor 2010/427/EU.

147 Erthygl 29 o'r Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd

148 Erthygl 215 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE

149 Erthygl 288 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE.

## Polisi Diogelwch ac Amddiffyn Cyffredin

19.7 Mae Polisi Diogelwch ac Amddiffyn Cyffredin (PDAC) yr UE yn caniatáu i'r UE ddefnyddio a chyfuno asedau sifilaidd a milwrol yr Aelod-wladwriaethau i gadw heddwch, atal gwrthdaro a chryfhau diogelwch rhyngwladol. Mae hyn yn cynnwys ymgyrchoedd diarfogi ar y cyd, tasgau dyngarol ac achub, tasgau cynghori a chynorthwyo milwrol, a thasgau lluoedd ymladd wrth reoli argyfyngau, gan gynnwys heddychu a sefydlogi ar ôl gwrthdaro. Mae'r UE wedi cynnal nifer o genadaethau o'r fath yn y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys Ymgyrch Atalanta i fynd i'r afael â môr-ladrata oddi ar arfordir Corn Affrica, ac EUFOR Althea, sy'n ceisio hybu diogelwch a sefydlogrwydd yn Bosnia a Herzegovina.

19.8 Mae bron pob un o'r penderfyniadau o dan y PDAC yn cael ei wneud drwy unfrydedd: mae hyn yn golygu bod hawl gan bob Aelod-wladwriaeth, gan gynnwys y DU, i roi feto.[150] Ni ellir cychwyn cenhadaeth gan yr UE heb gytundeb y DU, ac ni ellir anfon milwyr na phersonél eraill o'r DU oni bai fod y DU yn eu cynnig yn wirfoddol.

19.9 Mae Aelod-wladwriaethau'n cyfrannu at gostau'r PDAC sy'n gysylltiedig â'r sefydliadau a'r cenadaethau.[151] Mae dau fath o gostau ar gyfer cenadaethau: y rheini ar gyfer elfennau "cyffredin" sy'n cynnal y genhadaeth gyfan, fel cyfarpar y pencadlys, sy'n cael eu hariannu o gyllideb yr Undeb; a'r rheini ar gyfer darparu milwyr, peiriannau milwrol trwm, swyddogion heddlu ac adnoddau eraill, y bydd Aelod-wladwriaethau'n cyfrannu atynt yn wirfoddol ac yn eu hariannu'n uniongyrchol. Cyfraniad presennol y DU at y cyllid cyffredin, sydd wedi'i seilio ar Incwm Gwladol Gros, yw 17.6 y cant.[152] Rhaid cael cytundeb unfrydol ar unrhyw wariant o dan gyllid cyffredin.

---

150 Erthygl 42(4) o'r Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd. Mae Erthygl 46 yn pennu eithriad sy'n ymwneud â chydweithredu strwythuredig parhaol

151 Erthygl 41 o'r Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd

152 Erthygl 41(2) o'r Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd

# Pennod 20 – masnach a buddsoddi

Mae'r UE yn cytuno ar y tariffau a rheolau cyffredin a fydd yn gymwys i fewnforion ar ffiniau allanol rhwng yr UE a gwledydd y tu allan i'r UE. Ar ôl dod i mewn i'r Farchnad Sengl, gellir symud yr holl nwyddau heb osod tariffau. Mae angen gosod y tariffau a rheolau cyffredin hyn i sicrhau bod y Farchnad Sengl a'r undeb tollau'n gweithio'n briodol. Felly bydd yr UE yn negodi cytundebau masnach ar y cyd â marchnadoedd y tu allan i'r UE, drwy broses sydd wedi'i phennu yng Nghytuniadau'r UE. Y Comisiwn Ewropeaidd sy'n cynrychioli'r UE a'r Aelod-wladwriaethau yn y negodiadau hyn â gwledydd y tu allan i'r UE ac yn Sefydliad Masnach y Byd er mwyn gwneud cytundebau ar y materion hyn. Ond mae'r DU ac Aelod-wladwriaethau eraill yn cyfrannu'n helaeth at benderfynu natur, cwmpas a ffurf derfynol y cytundebau hynny.

20.1 Mae cytundebau masnach rydd a buddsoddi (CMRau) yn gytundebau rhwng gwledydd sy'n ceisio delio â thariffau a rhwystrau rhag masnach a buddsoddi. O dan gyfraith yr UE, yr UE sy'n gyfrifol am negodi CMRau â gwledydd y tu allan i'r UE,[153] a fydd yn gymwys wedyn ar draws yr UE gan ei fod yn undeb tollau.[154] Mae'r UE yn negodi ac yn cytuno ar CMRau â gwledydd y tu allan i'r UE drwy weithredu ar y cyd, er mwyn sicrhau tariff allanol cyffredin ar fewnforion i unrhyw un o Aelod-wladwriaethau'r UE.

20.2 Fodd bynnag, mae'r DU ac Aelod-wladwriaethau eraill yn cyfrannu'n sylweddol at benderfyniadau: ynghylch partneriaid negodi; ar gwmpas negodiadau; drwy gydol y broses o negodi drwy ymgynghori cyson; ac at y cytundeb a geir yn y pen draw. Ar ôl negodi CMR, bydd y Cyngor a Senedd Ewrop ill dau'n penderfynu a fyddant yn ei dderbyn. Mae pleidlais gan y DU ac Aelod-wladwriaethau eraill yn y Cyngor.

20.3 Mae'r DU yn gyfrifol am hyrwyddo ei busnesau ei hun mewn gwledydd tramor ac mae'n rhydd i gystadlu ag Aelod-wladwriaethau eraill yr UE.

## Masnach mewn nwyddau

20.4 Mae'r UE yn gweithredu fel undeb tollau ac yn gosod tariff allanol cyffredin ar nwyddau sy'n dod i mewn i Farchnad Sengl yr UE: ar ôl hynny, gallant gylchredeg yn rhydd heb

---

[153] Mae pwerau'r UE i fabwysiadu cytundebau masnach wedi'u nodi yn Erthyglau 207 a 218 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE.

[154] Mae Erthygl 3 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE yn gwneud y polisi masnachol cyffredin yn gymhwysedd unigryw i'r UE.

osod tariffau na chwotâu.[155] Mae hyn yn rhoi nerth ar y cyd i'r 28 o Aelod-wladwriaethau ond mae'n golygu nad oes hawl bellach gan yr Aelod-wladwriaethau i gytuno ar eu pen eu hunain ar wahanol dariffau â gwledydd y tu allan i'r UE.[156] Mae awdurdodau tollau'r Aelod-wladwriaethau'n cydweithredu i hwyluso trefniadau i gymhwyso rheoliadau tollau'n briodol ac i ymchwilio i achosion lle mae'r rheoliadau hynny wedi'u torri.

20.5 Mae'r UE a'r Aelod-wladwriaethau'n aelodau o Sefydliad Masnach y Byd (SMB). Fodd bynnag, o ran gweithredu, mae'r negodi ar ymrwymiadau masnach a'r camau i ddelio ag anghydfodau masnach o fewn SMB yn cael eu cyflawni gan y Comisiwn ar ran yr UE a'r Aelod-wladwriaethau. O dan y Cytundeb Cyffredinol ar Dariffau a Masnach, sef prif Gytundeb SMB ar fasnach mewn nwyddau, rhaid i holl aelodau SMB roi triniaeth y Genedl Fwyaf Ffafriedig i aelodau eraill SMB mewn perthynas â thollau'r tariffau a chyfyngiadau eraill ar fasnach y byddant yn eu gosod ar nwyddau o wledydd eraill. Fodd bynnag, ar ôl bodloni amodau penodol, gall aelod o SMB gynnig telerau masnach mwy ffafriol na'r driniaeth i'r Genedl Fwyaf Ffafriedig i aelod o SMB drwy wneud CMR neu ffurfio undeb tollau. Mae'r UE wedi gwneud 36 o CMRau sy'n cynnwys mwy na 50 o wledydd ac mae'r rhain wedi galluogi'r DU ac Aelod-wladwriaethau eraill i elwa o fynediad mwy ffafriol i farchnadoedd y trydedd wledydd hyn.

### Masnach mewn gwasanaethau

20.6 O dan Gytundeb Cyffredinol SMB ar Fasnach mewn Gwasanaethau, mae aelodau SMB wedi cytuno i roi triniaeth y Genedl Fwyaf Ffafriedig i gyflenwyr gwasanaethau o aelodau eraill SMB, wedi ymrwymo i ganiatáu i gyflenwyr gwasanaethau o aelodau eraill SMB gynnig gwasanaethau i sectorau penodol yn eu marchnad, ac wedi ymrwymo i beidio â gwahaniaethu yn erbyn y cyflenwyr gwasanaethau hynny. Fodd bynnag, mae'r ymrwymiadau hyn yn gyfyngedig, gan eu bod yn gymwys i sectorau penodol yn unig ac mae cymalau cadw yn cyfyngu'n sylweddol arnynt.

20.7 Mae'r CMRau a negodwyd gan yr UE yn cynnwys darpariaethau sy'n ceisio mynd yn bellach na'r Cytundeb Cyffredinol ar Fasnach mewn Gwasanaethau o ran agor y fasnach mewn gwasanaethau a sicrhau triniaeth gyfartal i ddarparwyr gwasanaethau yn yr UE sy'n ceisio masnachu mewn gwledydd y tu allan i'r UE. Fel arfer, felly, bydd y CMRau yn cynnwys ymrwymiadau gan y drydedd wlad i ganiatáu i ddarparwyr gwasanaethau yn yr UE gynnig gwasanaethau mewn sectorau yn ei marchnad sydd heb eu cynnwys yn y Cytundeb Cyffredinol ar Fasnach mewn Gwasanaethau. Byddant hefyd yn cynnwys ymrwymiadau gan y drydedd wlad i ymatal rhag gwahaniaethu yn erbyn darparwyr gwasanaethau o'r UE. Mae'r CMRau yn nodi'r sectorau gwasanaethau penodol y mae'r ymrwymiadau hyn yn gymwys iddynt, yn ogystal ag unrhyw eithriadau a chymalau cadw.

20.8 Er enghraifft, o dan y CMR rhwng yr UE a Gweriniaeth Korea, cytunodd De Korea i beidio ag atal darparwyr gwasanaethau cysylltiedig â chyfrifiaduron o'r UE rhag: (a) cynnig gwasanaethau trawsffiniol i farchnad De Korea; (b) sefydlu cangen yn Ne Korea; neu (c) anfon gweithwyr proffesiynol i Dde Korea dros dro i ddarparu gwasanaethau. Yn ogystal â hyn, cytunodd De Korea i beidio â chymhwyso rhai gofynion rheoleiddio cysylltiedig a oedd yn trin busnesau'r UE mewn sectorau penodol yn llai ffafriol na rhai o Dde Korea. Yn gyfnewid am hyn, gwnaeth yr UE a'r DU ymrwymiadau cyfatebol. Mae cymalau cadw'n gymwys i'r ymrwymiadau hyn sy'n cyfyngu'r graddau y mae'n rhaid agor marchnadoedd yr

155 Erthyglau 28(2) a 30 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE.

156 Erthygl 28(1) o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE

Aelod-wladwriaethau i gystadleuaeth ryngwladol. Mae hyn yn sicrhau bod y DU ac Aelod-wladwriaethau eraill yn cadw'r hawl i reoleiddio, lle bo angen, er y budd cyhoeddus.

## Anghydfodau masnach

20.9 Mae'r holl bartïon i gytundebau SMB a CMRau, gan gynnwys y DU fel rhan o'r UE, yn gorfod cydymffurfio â darpariaethau'r cytundebau y maent yn eu llofnodi, yn enwedig y rheini sy'n ymwneud â nwyddau a gwasanaethau. Mae hyn yn rhoi hawliau i'r DU ac Aelod-wladwriaethau eraill i ddelio ag anghydfodau a chael iawn gan wledydd o'r tu allan i'r UE. Yn yr un modd, os bydd trydedd wlad yn honni bod y DU neu Aelod-wladwriaeth arall wedi methu â chwrdd â'r rhwymedigaethau hynny, gellir galw panel anghydfodau i ystyried y gŵyn a phenderfynu sut i ddatrys y mater.

20.10 Os bydd nwyddau'n cael eu dympio ar y farchnad, mae rheolau SMB yn caniatáu i wledydd godi tariffau ar gyfraddau uwch na'r rheini y maent wedi ymrwymo iddynt yn SMB. Gan fod y DU yn rhan o'r undeb tollau, mae dyletswyddau yn erbyn dympio a sybsideiddio wedi'u gosod ar gyfer yr UE cyfan. Gwneir penderfyniadau ar amddiffyn masnach drwy Bleidleisio drwy Fwyafrif Cymwysedig.

20.11 Os methir â chydymffurfio â rhwymedigaethau, gall hyn beri i drydedd wlad gynyddu ei thariffau. Gall hyn greu goblygiadau difrifol i fusnesau sy'n allforio nwyddau a gwasanaethau gan y gallent fod yn llai cystadleuol o ganlyniad.

## Buddsoddi

20.12 Pwrpas yr ymrwymiadau i ddiogelu buddsoddiadau yw hybu buddsoddi drwy osod safonau gofynnol ar gyfer triniaeth y gall buddsoddwyr ddibynnu arnynt wrth fuddsoddi mewn gwledydd tramor. Un ymrwymiad o'r fath yw ymddwyn yn deg tuag at fuddsoddwyr a'u buddsoddiadau. Mae hyn yn creu hawliau i fuddsoddwyr yr UE, boed yn fusnesau neu'n unigolion, a rhwymedigaethau cyfatebol ar y DU ac Aelod-wladwriaethau eraill i barchu hawliau buddsoddwyr tramor sy'n buddsoddi yma.

20.13 Mae'r darpariaethau hyn mewn Cytuniadau y mae'r DU wedi'u negodi â thrydedd wledydd cyn i'r UE gael cymhwysedd i wneud hynny. Ers rhoi cymhwysedd i'r UE dros fuddsoddi uniongyrchol o wledydd tramor,[157] mae wedi dechrau negodi CMRau cynhwysfawr sy'n darparu mesurau i ddiogelu buddsoddiadau. Yn ogystal â hyn, mae'r UE wedi mabwysiadu mesurau sy'n caniatáu i'r DU ac Aelod-wladwriaethau eraill gadw'r Cytuniadau dwyochrog presennol ar fuddsoddi a wnaethant â thrydedd wledydd yn y cyfamser.

20.14 Bydd y DU a'r UE yn negodi i gynnwys mecanwaith ar gyfer gorfodi mesurau i ddiogelu buddsoddiadau yn eu cytundebau.[158] Mae buddsoddwyr yn gallu hawlio digollediad gan drydedd wlad sydd wedi methu â chwrdd â'i rhwymedigaethau. Mae rhwymedigaeth gyfatebol ar y DU a'r UE i ddiogelu buddsoddiadau a digolledu buddsoddwyr o drydedd wledydd.

---

157 Mae Cytuniad Lisbon wedi rhoi cymhwysedd i'r UE dros fuddsoddi uniongyrchol o wledydd tramor drwy ddiwygio'r hyn sydd bellach yn Erthyglau 206 a 207 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE

158 Er enghraifft, mae Pennod III o'r Cytuniadau Buddsoddi Dwyochrog rhwng y DU a Mecsico yn darparu cymal ar gyfer Datrys Anghydfodau gan Wladwriaeth y Buddsoddwr. Mae'r UE hefyd wedi negodi i gynnwys darpariaethau ar gyfer datrys anghydfodau buddsoddwyr mewn CMRau sy'n diogelu buddsoddiadau, fel y CMR a negodwyd yn ddiweddar rhwng yr UE a Chanada, Adran F. Nid oes yr un o'r CMRau a negodwyd gan yr UE ers gwneud Cytuniad Lisbon sy'n diogelu buddsoddiadau wedi dod i rym eto.

# Pennod 21 – datblygu a chymorth dyngarol

Y DU sy'n rhoi'r swm ail fwyaf o gymorth rhyngwladol o holl wledydd y byd. Mae'r DU yn gwario'r rhan fwyaf o lawer o'r swm hwn ei hun. Mae'r gweddill yn cael ei wario drwy sefydliadau eraill, gan gynnwys yr UE. Mae'r DU yn gweithio gyda'r UE ar gymorth datblygu er mwyn cyfuno ei hadnoddau â rhai'r 27 o Aelod-wladwriaethau eraill. Mae'r UE yn dilyn polisïau a gytunwyd.

21.1 Mae cydweithredu ar ddatblygu a chymorth dyngarol yn ddau fath o'r hyn sy'n cael ei alw fel arfer yn gymorth i wledydd tramor neu'n ddatblygu rhyngwladol. Cydweithredu ar ddatblygu (neu gymorth datblygu) yw cymorth dros y tymor hwy i geisio lleihau tlodi a hybu datblygiad economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol neu wleidyddol mewn gwledydd sy'n datblygu. Cymorth dyngarol yw cymorth tymor byr mewn ymateb i argyfyngau fel ymladd neu drychinebau naturiol.

21.2 Mae pob un o 28 Aelod-wladwriaeth yr UE wedi ymrwymo i helpu gwledydd sy'n datblygu i leihau tlodi a hyrwyddo llywodraethu da a hawliau dynol drwy gymorth datblygu rhyngwladol. Mae'r DU a'r UE yn rhannu amcanion ar ddatblygu rhyngwladol, gan gynnwys ymrwymiad ar y cyd i'r Nodau Datblygu Cynaliadwy. Gall yr UE gyflawni gweithgareddau a dilyn polisi cyffredin ar gydweithredu ar ddatblygu a chymorth dyngarol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn rhwystro'r DU rhag ymgymryd â'i gweithgareddau ei hun ym maes datblygu a chymorth dyngarol.

21.3 Y DU sy'n rhoi'r swm ail fwyaf o gymorth datblygu rhyngwladol o holl wledydd y byd, ar ôl Unol Daleithiau America.[159] Mae o dan rwymedigaeth gyfreithiol – sydd yn ei deddfwriaeth ei hun – i wario 0.7 y cant o'i Hincwm Gwladol Gros ar gymorth i wledydd tramor bob blwyddyn, ac yn 2014 darparodd £11.7 biliwn o Gymorth Datblygu Swyddogol).[160] Mae'n darparu rhywfaint o'r swm hwn yn uniongyrchol i'r gwledydd sy'n elwa. Ond mae'r DU hefyd yn cydweithio ag Aelod-wladwriaethau eraill drwy'r UE i ddarparu cymorth datblygu. Mae hyn yn caniatáu i'r DU gyfuno ei hymdrechion a'i chyllid â'r 27 o Aelod-wladwriaethau eraill.

21.4 Yn 2014, gwariodd yr UE a'i Aelod-wladwriaethau gyfanswm o £47 biliwn gyda'i gilydd ar Gymorth Datblygu Swyddogol, tua hanner y cyfanswm drwy'r byd. Roedd £9.8 biliwn o

159 Ystadegau'r OECD. Gwariant y DU ar Gymorth Datblygu Swyddogol yn 2014 oedd $19.39 biliwn, yn ail i UDA a wariodd $32.73 biliwn

160 Ystadegau'r DU ar Ddatblygu Rhyngwladol. Mae rhagor o wybodaeth wedi'i gyhoeddi yn 'Provisional UK Official Development Assistance as a proportion of Gross National Income 2014', Ebrill 2015

hynny'n wariant gan sefydliadau'r UE.[161] Yn 2014, roedd tua £1.1 biliwn o Gymorth Datblygu Swyddogol y DU yn gyfraniadau craidd i'r UE.[162]

21.5 Mae'r rhan fwyaf o gyllid yr UE yn cael ei sianelu drwy brif gyllideb yr UE, y bydd y DU ac Aelod-wladwriaethau eraill yn cyfrannu iddi. Cytunir ar y cyd ar benderfyniadau rhwng Senedd Ewrop ac Aelod-wladwriaethau yn y Cyngor. Mae'r DU ac Aelod-wladwriaethau eraill yn cael rhoi eu barn drwy bleidleisio yn y Cyngor, sy'n gwneud penderfyniadau drwy Bleidleisio drwy Fwyafrif Cymwysedig.

21.6 Mae'r UE yn gweithredu ym maes cydweithredu ar ddatblygu a chymorth dyngarol mewn tair ffordd:

- drwy wariant sy'n rhan o gyllideb yr UE ac sy'n unol â chyfreithiau a fabwysiadwyd gan yr Aelod-wladwriaethau a Senedd Ewrop;
- drwy gymryd rhan mewn cytundebau rhyngwladol, gyda gwledydd y tu allan i'r UE a sefydliadau rhyngwladol. Mae rhan sylweddol o bolisi datblygu'r UE yn cael ei chyflawni drwy gytundebau o'r fath, yn enwedig drwy'r Cytundeb rhwng yr UE ac aelodau Grŵp Affrica, y Caribî a'r Môr Tawel (Cytundeb Cotonou)
- drwy ddylanwadu ar sefydliadau rhyngwladol, fel y Cenhedloedd Unedig a'i asiantaethau (sy'n cynnwys, yn benodol, Banc y Byd a Chronfa Argyfwng Plant y Cenhedloedd Unedig (UNICEF)), Cyngor Ewrop a'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD). Gan fod yr UE yn gallu ymgysylltu â sefydliadau rhyngwladol, gall ddylanwadu ar yr agenda fyd-eang ar ddatblygu.

161 Codwyd y ffigurau ar gyfer Cymorth Datblygu Swyddogol yr UE a sefydliadau'r UE o ddatganiad ar Gymorth Datblygu Swyddog a gyhoeddwyd yn 2014 gan y Comisiwn Ewropeaidd. Fe'u troswyd gan ddilyn cyfradd gyfnewid swyddogol yr OECD ar gyfer Cymorth Datblygu Swyddogol

162 '2015 DFID Statistics on International Development', t.48 tabl 9

# Geirfa

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| Ardal ddi-ffiniau Schengen | Mae ardal ddi-ffiniau Schengen yn cynnwys y 26 o wledydd yn Ewrop (22 o Aelod-wladwriaethau'r UE a phedair arall) sydd wedi dileu rheolaethau pasbort a phob math o reolaeth arall ar eu ffiniau cyffredin. Mae ganddi bolisi cyffredin ar fisâu hefyd. |
| Banc Canolog Ewrop | Banc Canolog Ewrop yw banc canolog y 19 o wledydd yn yr Undeb Ewropeaidd sydd wedi mabwysiadu'r ewro. Ei brif swyddogaeth yw diogelu gwerth yr ewro a chynnal sefydlogrwydd prisiau. |
| Cardiau Melyn/ Oren | O dan Gytuniad Lisbon (2009), cyflwynwyd Mecanwaith Rheoli Sybsidiaredd, sy'n caniatáu i Seneddau cenedlaethol yn yr UE ddatgan gwrthwynebiad (ar sail 'barn resymedig') i ddeddfwriaeth ddrafft yr UE. Mae'r Mecanwaith Rheoli Sybsidiaredd yn gymwys mewn meysydd lle mae'r UE yn rhannu cymhwysedd ag Aelod-wladwriaethau. Mae'r broses ar gyfer gwrthwynebu yn dibynnu ar nifer y Seneddau cenedlaethol sy'n gwrthwynebu cynnig penodol, ac fe'i gelwir yn weithdrefn y "cerdyn melyn" a'r "cerdyn oren". Mae dwy bleidlais gan bob Senedd genedlaethol, felly mae cyfanswm o 56 o bleidleisiau.<br><br>Gweithdrefn y "cerdyn melyn"<br><br>Os yw'r barnau rhesymedig a gyflwynwyd yn cyfateb i o leiaf un rhan o dair o'r pleidleisiau a ddyrannwyd i'r Seneddau cenedlaethol – neu un chwarter os yw'r ddeddf ddrafft a gyflwynwyd yn ymwneud â rhyddid, diogelwch a chyfiawnder – cychwynnir gweithdrefn y cerdyn melyn. Mae hyn yn golygu bod rhaid i'r Comisiwn adolygu ei gynnig. Ar sail yr adolygiad, gall y Comisiwn benderfynu cadw neu ddiwygio'r cynnig neu ei dynnu'n ôl. Rhaid i'r Comisiwn roi rhesymau am ei benderfyniad.<br><br>Gweithdrefn y "cerdyn oren"<br><br>Os yw'r barnau rhesymedig a gyflwynwyd yn fwyafrif o'r pleidleisiau a ddyrannwyd i Seneddau cenedlaethol, a bod y drafft wedi'i gyflwyno o dan y weithdrefn ddeddfwriaethol arferol, yna cychwynnir gweithdrefn y cerdyn oren. Mae hyn yn golygu bod rhaid i'r Comisiwn adolygu'r cynnig. Ar sail yr adolygiad, gall y Comisiwn benderfynu cadw neu ddiwygio'r cynnig neu ei dynnu'n ôl. |

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| Codex Alimentarius | Sefydlwyd Codex Alimentarius neu'r "Cod Bwyd" gan Sefydliad Bwyd ac Amaeth y Cenhedloedd Unedig a Sefydliad Iechyd y Byd ym 1963 i ddatblygu safonau bwyd rhyngwladol cyson, sy'n diogelu iechyd defnyddwyr ac yn hyrwyddo arferion teg yn y fasnach mewn bwyd. |
| Confensiwn Genefa 1951 | Confensiwn 1951 mewn perthynas â Statws Ffoaduriaid yw'r ddogfen gyfreithiol allweddol sy'n diffinio pwy sy'n ffoadur, ei hawliau a rhwymedigaethau cyfreithiol gwladwriaethau. Mae Protocol 1967 wedi dileu cyfyngiadau o ran lle ac amser yn y Confensiwn. |
| Confensiwn Lugano | Mae Confensiwn Lugano yn hwyluso camau i gydnabod a gorfodi dyfarniadau mewn achosion cyfraith sifil yng ngwledydd yr UE a CFRE. |
| Confensiwn yr Hag | Cwblhawyd Confensiwn yr Hag ar Adennill Cynhaliaeth Ryngwladol i Blant a Mathau Eraill o Gynhaliaeth i Deuluoedd ynghyd â'r Protocol ar y Gyfraith sy'n Gymwys i Rwymedigaethau Cynnal ar 23 Tachwedd 2007 o dan Gynhadledd yr Hag ar Gyfraith Ryngwladol Breifat. Mae'r Confensiwn yn sicrhau dulliau rhyngwladol effeithiol o adennill cynhaliaeth i blant a mathau eraill o gynhaliaeth i deuluoedd ac mae'r Protocol yn cynnig mwy o sicrwydd a dibynadwyedd cyfreithiol i gredydwyr a dyledwyr cynhaliaeth. |
| Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Ewrop) | Mae'r Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Ewrop) yn cwrdd bob chwarter blwyddyn i drafod cyfarfodydd nesaf y Cyngor Ewropeaidd a materion Ewropeaidd sy'n effeithio ar y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig (Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon). Mae hefyd yn fforwm ar gyfer cyfnewid gwybodaeth a thrafod materion strategol neu drawsbynciol lle mae buddiant gan weinyddiaeth ddatganoledig. Bydd Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Ewrop) yn cael ei gadeirio fel arfer gan yr Ysgrifennydd Tramor neu Weinidog Ewrop. |
| Cyd-bwyllgor yr AEE | Un o sefydliadau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE), lle gwneir penderfyniadau drwy gonsensws i gynnwys deddfwriaeth yr UE yng Nghytundeb yr AEE. |
| Cyfiawnder a Materion Cartref | Mae Cyfiawnder a Materion Cartref yn cyfeirio at gydweithredu yn yr UE ar loches a mewnfudo, materion barnwrol a'r heddlu, gan gynnwys y frwydr yn erbyn troseddu difrifol a chyfundrefnol a therfysgaeth, yn ogystal ag ardal ddi-ffiniau Schengen. Mae'r DU wedi sicrhau set o esemptiadau sy'n golygu nad yw'n ofynnol iddi gymryd rhan mewn materion cyfiawnder a chartref, ond gall ddewis gwneud hynny os yw'n dymuno. |
| Cyngor yr Undeb Ewropeaidd (a elwir hefyd yn Gyngor y Gweinidogion neu 'y Cyngor') | Mae Cyngor yr UE yn cynnwys cynrychiolwyr llywodraethau Aelod-wladwriaethau'r UE. Hwn yw prif gorff penderfynu'r UE ac mae'n cytuno ar gyfreithiau'r UE, ar y cyd â Senedd Ewrop fel arfer. |

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| Cymdeithas Fasnach Rydd Ewrop (CFRE) | Mae pedwar aelod yng Nghymdeithas Fasnach Rydd Ewrop (CFRE): y tair aelod-wladwriaeth yn yr AEE nad ydynt yn yr UE – Norwy, Gwlad yr Iâ a Liechtenstein – ynghyd â'r Swistir. Mae ganddi hawl i wneud Cytundebau Masnach Rydd â gweddill y byd ar ran ei phedwar aelod. |
| Cymorth Gwladwriaethol | Cymorth Gwladwriaethol yw unrhyw fantais neu gymhorthdal a roddir gan awdurdodau cyhoeddus drwy adnoddau gwladwriaethol ar sail ddewisol i unrhyw sefydliadau a allai gam-ystumio cystadleuaeth a masnach yn yr UE. Mae'r diffiniad o gymorth gwladwriaethol yn eang iawn oherwydd gellir cael llawer math o 'fantais'. |
| Cytundeb Masnach Rydd (CMR) | Mae CMR yn gytundeb rhwng dwy neu ragor o wledydd i roi mynediad ffafriol i farchnadoedd ei gilydd, a elwir fel arfer yn 'fasnach rydd', ac i gytuno i ddileu tariffau a'r rhan fwyaf o'r mesurau eraill sy'n effeithio ar y fasnach rhyngddynt. Gan amlaf, bydd cytundebau masnach rydd yn caniatáu pob math o eithriadau, llawer ohonynt yn rhai dros dro ar gyfer cynhyrchion sensitif. Mae CMRau yn ymwneud fwyfwy â masnach mewn gwasanaethau a buddsoddi yn ogystal â masnach mewn nwyddau. |
| Cytuniadau'r Undeb Ewropeaidd | Mae'r Undeb Ewropeaidd wedi'i seilio ar reolaeth y gyfraith. Mae hyn yn golygu bod pob cam a gymerir gan yr UE wedi'i seilio ar Gytuniadau a gymeradwywyd yn wirfoddol a democrataidd gan holl Aelod-wladwriaethau'r UE. Os nad yw maes polisi penodol wedi'i grybwyll mewn Cytuniad, ni all y Comisiwn gynnig cyfreithiau yn y maes hwnnw. Mae wyth prif Gytuniad. |
| Euratom | Mae'r defnydd heddychlon o ynni niwclear yn yr UE yn cael ei reoli gan Gytuniad Euratom 1957 a sefydlodd y Gymuned Ewropeaidd Ynni Atomig (Euratom). Er bod Euratom yn endid cyfreithiol ar wahân i'r UE, mae'n cael ei rheoli gan sefydliadau'r UE. |
| Europol | Mae Europol yn un o asiantaethau'r UE sy'n helpu asiantaethau gorfodi'r gyfraith ei Haelod-wladwriaethau i fynd i'r afael â throseddu ar draws ffiniau. Mae'n helpu i gyflawni mwy na 18,000 o ymchwiliadau trawsffiniol bob blwyddyn i fynd i'r afael â bygythiadau i ddiogelwch fel terfysgaeth, masnachu rhyngwladol mewn cyffuriau a gwyngalchu arian, twyll cyfundrefnol, ffugio a masnachu mewn pobl. |
| Gwasanaeth Gweithredu Allanol Ewropeaidd | Y gwasanaeth hwn yw gwasanaeth diplomyddol yr UE, sy'n gweithredu o dan awdurdod Uchel Gynrychiolydd yr UE ar gyfer Materion Tramor a Pholisi Diogelwch ac mae'n ei helpu i gyflawni ei fandad. |
| Llys Cyfiawnder Ewrop | Mae Llys Cyfiawnder Ewrop yn llys goruwchgenedlaethol sydd wedi'i leoli yn Lwcsembwrg ac sy'n cynnwys un barnwr o bob un o Aelod-wladwriaethau'r UE. Mae'r Llys yn delio ag achosion sy'n ymwneud â dehongli a chymhwyso Cytuniadau'r UE. |

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| Marchnad Sengl | Mae marchnad sengl yn ardal fasnach gyffredin sy'n mynd gam ymhellach na'r Cytundebau Masnach Rydd mwyaf manwl a chynhwysfawr. Mae'n ceisio dileu'r holl rwystrau rheoliadol rhag symud cyfalaf, pobl, nwyddau a gwasanaethau'n rhydd. Mae'n hybu cystadleuaeth a masnach, yn gwella effeithlonrwydd economaidd ac yn helpu i ostwng prisiau. |
| Mwyafrif syml | Dull y mwyafrif syml yw un o'r dulliau pleidleisio a ddefnyddir gan yr UE (y lleill yw mwyafrif absoliwt, Pleidleisio drwy Fwyafrif Cymwysedig a mwyafrif 2/3). Yn y Cyngor, lle mae pob un o'r 28 o Aelod-wladwriaethau'n pleidleisio, mwyafrif syml yw 15 o'r 28 o Aelod-wladwriaethau; yn Senedd Ewrop, mwyafrif syml yw mwyafrif o'r rheini sy'n bresennol ac yn pleidleisio (mwyafrif absoliwt yw mwyafrif o'r holl ASEau – o fis Gorffennaf 2014 bydd hyn yn 376 allan o 751 o ASEau). |
| Mynediad ffafriol i farchnad | Mynediad ffafriol i farchnad yw unrhyw amod ar fynediad i farchnad a roddir i bartner masnachu sy'n fwy ffafriol na'r driniaeth anwahaniaethol i'r Genedl Fwyaf Ffafriedig. |
| Pasbortio | Mae pasbortio'n rhoi'r hawl i gwmni gwasanaethau ariannol a awdurdodwyd mewn gwladwriaeth yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) i gyflawni gweithgareddau a ganiateir mewn unrhyw wladwriaeth arall yn yr AEE un ai drwy arfer yr hawl i ymsefydlu (h.y. sefydlu cangen a/neu asiantau), neu ddarparu gwasanaethau ar draws ffiniau. Rhoddir yr hawliau hyn ar yr amod bod gofynion y gyfarwyddeb berthnasol ar gyfer y Farchnad Sengl wedi'u bodloni. |
| Pleidleisio drwy Fwyafrif Cymwysedig | Pleidleisio drwy Fwyafrif Cymwysedig yw'r prif ddull o ddod i benderfyniadau yng Nghyngor y Gweinidogion. Mae'n dyrannu pleidleisiau i'r gwahanol Aelod-wladwriaethau gan ddilyn fformiwla a gytunwyd, sydd wedi'i seilio'n rhannol ar faint poblogaeth. Bydd penderfyniad neu gyfraith wedi'i basio drwy fwyafrif cymwysedig os bydd 55 y cant o Aelod-wladwriaethau'n pleidleisio o blaid (yn ymarferol, mae hyn yn golygu 16 o 28) ac os yw'r Aelod-wladwriaethau sydd o blaid yn cynrychioli o leiaf 65 y cant o holl boblogaeth yr UE. |
| Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) | Y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) yw polisi amaethyddol yr Undeb Ewropeaidd. Mae'n gweithredu system cymorth amaethyddol drwy daliadau incwm uniongyrchol i ffermwyr a phrisiau gwarantedig. |
| Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (PPC) | Mae'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (PPC) yn set o reolau a osodwyd gan yr UE ar gyfer rheoli fflydoedd pysgota Ewropeaidd a chadw stociau o bysgod. |

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| Polisi Tramor a Diogelwch Cyffredin (PTDC) | Sefydlwyd Polisi Tramor a Diogelwch Cyffredin yr UE ym 1993 o dan Gytuniad Maastricht. Mae wedi'i gadarnhau gan Gytuniadau dilynol, yn enwedig Cytuniad Lisbon. Ei nodau cyffredinol yw cadw heddwch, cryfhau diogelwch rhyngwladol a hyrwyddo cydweithredu rhyngwladol, democratiaeth, rheolaeth y gyfraith, parch at hawliau dynol a rhyddid sylfaenol. Mae'r PTDC hefyd yn cynnwys Polisi Diogelwch ac Amddiffyn Cyffredin (PDAC), sy'n ymdrin â'r agweddau ar bolisi'r UE sy'n ymwneud ag amddiffyn a rheoli argyfyngau milwrol a sifilaidd. |
| Rhwystrau heb dariff | Mae rhwystrau heb dariff yn fesurau gan y llywodraeth ar wahân i dariffau sy'n cyfyngu ar lif masnach.  Mae enghreifftiau yn cynnwys cyfyngiadau meintiol, trwyddedu mewnforion, trefniadau cyfyngu gwirfoddol a thollau amrywiol. |
| Sefydliad Iechyd Anifeiliaid y Byd | Sefydliad Iechyd Anifeiliaid y Byd yw'r sefydliad rhynglywodraethol sy'n gyfrifol am wella iechyd anifeiliaid drwy'r byd. Mae wedi'i gydnabod yn sefydliad cyfeirio gan Sefydliad Masnach y Byd ac yn mae 180 o wledydd yn aelodau ohono. |
| Sefydliad Masnach y Byd | Sefydlwyd Sefydliad Masnach y Byd (SMB) ar 1 Ionawr 1995 i olynu'r Cytundeb Cyffredinol ar Dariffau a Masnach. Mae SMB yn sefydliad ar gyfer trafod, negodi a datrys materion masnach sy'n ymwneud â nwyddau, gwasanaethau ac eiddo deallusol. Ei swyddogaethau hanfodol yw gweinyddu a gweithredu'r cytundebau amlochrog (y Cytundeb Cyffredinol ar Dariffau a Masnach, y Cytundeb Cyffredinol ar Fasnach mewn Gwasanaethau a'r Cytundeb ar Agweddau ar Hawliau Eiddo Deallusol sy'n ymwneud â Masnach) sy'n ei ffurfio, a bod yn fforwm ar gyfer negodiadau masnach amlochrog, gan geisio datrys anghydfodau masnach a chydweithredu â sefydliadau rhyngwladol eraill sy'n gysylltiedig â llunio polisi economaidd rhyngwladol. Mae 162 o aelodau gan SMB ar hyn o bryd, gan gynnwys yr UE a'i holl Aelod-wladwriaethau. |
| Senedd Ewrop | Sefydlwyd Senedd Ewrop ym 1979 i gynrychioli barn dinasyddion yn uniongyrchol ym mhenderfyniadau'r UE. Mae'n rhannu cyfrifoldeb â'r Cyngor ar gyfer pasio cyfreithiau'r UE a chytuno ar gyllideb yr UE, er bod gan y Cyngor bwerau ehangach ar gyfer penderfynu. Mae'r Senedd yn cynnwys 751 o aelodau (ASEau) sy'n cael eu hethol yn uniongyrchol ym mhob un o'r 28 o Aelod-wladwriaethau ac yn gwasanaethu am gyfnod o bum mlynedd. Mae 73 o ASEau gan y DU. |
| Tariffau | Mae tariff yn doll sy'n cael ei gosod fel arfer ar nwyddau a fewnforiwyd. |

| **Term** | **Diffiniad** |
|---|---|
| Undeb Tollau | Ardal sy’n cynnwys dwy neu ragor o economïau neu diriogaethau tollau sy’n dileu’r holl dariffau ac weithiau rhwystrau ehangach rhag masnachu sydd rhyngddynt. Bydd yr aelodau sy’n rhan o’r ardal wedyn yn cymhwyso tariff allanol cyffredin at nwyddau sy’n dod o drydedd wledydd. |
| Y Cenhedloedd Unedig | Mae’r Cenhedloedd Unedig yn sefydliad rhyngwladol a ffurfiwyd ym 1945 i gynyddu cydweithrediad rhyngwladol a chynnal heddwch a diogelwch. Mae ganddo 193 o aelodau. |
| Y Comisiwn Ewropeaidd (y Comisiwn) | Mae’r Comisiwn Ewropeaidd yn gyfrifol am gynnig deddfwriaeth ddrafft, gweithredu penderfyniadau, sicrhau cydymffurfiaeth â Chytuniadau’r UE a rheoli busnes yr UE o ddydd i ddydd. |
| Y Cyngor Ewropeaidd | Y Cyngor Ewropeaidd yw’r corff lle mae Penaethiaid Gwladwriaeth neu Lywodraeth y 28 o Aelod-wladwriaethau’r UE, ynghyd â Llywydd penodedig a Llywydd y Comisiwn Ewropeaidd, yn gwneud penderfyniadau strategol ynghylch cyfeiriad yr UE. |
| Y Cytundeb Cyffredinol ar Dariffau a Masnach | Mae’r Cytundeb Cyffredinol ar Dariffau a Masnach yn un o gytundebau masnach amlochrog Sefydliad Masnach y Byd (SMB) a ddaeth i rym yn Ionawr 1995. Mae’n sefydlu rhwymedigaethau amlochrog ar gyfer masnach mewn nwyddau gan gynnwys, ymysg pethau eraill, triniaeth y Genedl Fwyaf Ffafriedig a thriniaeth genedlaethol, tryloywder, rhyddid tramwy a rheolau ar gytundebau masnach rydd ac undebau tollau. |
| Y Cytundeb Cyffredinol ar Fasnach mewn Gwasanaethau | Mae’r Cytundeb Cyffredinol ar Fasnach mewn Gwasanaethau yn un o gytundebau masnach amlochrog Sefydliad Masnach y Byd (SMB) a ddaeth i rym yn Ionawr 1995. Mae’n cwmpasu’r holl fasnach mewn gwasanaethau heblaw hawliau hedfan dwyochrog a chaffael cyhoeddus. Ceir hawliau a rhwymedigaethau ar ddwy lefel. Yn gyntaf, mae rhwymedigaethau cyffredinol sy’n gymwys i’r holl wasanaethau, masnach a disgyblaethau fel triniaeth y Genedl Fwyaf Ffafriedig, tryloywder ac eithriadau cyffredinol ac eithriadau diogelwch. Yn ail, mae’r cytundeb hefyd yn cynnwys rhwymedigaethau penodol sy’n ymwneud yn llwyr ag ymrwymiadau a wnaed gan aelodau SMB o dan y cytundeb. Ymhlith y rhain mae sicrwydd o fynediad i’r farchnad a thriniaeth genedlaethol. |
| Y Genedl Fwyaf Ffafriedig | Triniaeth y Genedl Fwyaf Ffafriedig yw’r rheol, a sefydlir drwy gytundeb masnach fel arfer, y bydd gwlad yn rhoi i bob un o’i phartneriaid masnach y gwnaeth gytundeb berthnasol ag ef, y driniaeth orau y mae’n ei rhoi i unrhyw un ohonynt mewn cynnyrch neu wasanaeth penodol. Felly egwyddor sylfaenol triniaeth y Genedl Fwyaf Ffafriedig yw triniaeth gyfartal i wledydd eraill. |

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| Y Gymuned Economaidd Ewropeaidd (CEE) a'r Gymuned Ewropeaidd (CE) | Roedd y Gymuned Economaidd Ewropeaidd (CEE) yn sefydliad ar gyfer cydweithredu rhanbarthol ac yn rhagflaenydd i'r UE, fel un o'r Cymunedau Ewropeaidd. Fe'i sefydlwyd ym 1957 i hyrwyddo integreiddio economaidd rhwng ei haelod-wladwriaethau. Pan grëwyd yr Undeb Ewropeaidd (UE) o dan Gytuniad Maastricht ym 1993, cafodd y CEE ei hymgorffori a'i hailenwi'n Gymuned Ewropeaidd (CE). Yn 2009 darparodd Cytuniad Lisbon ar gyfer ymgorffori'r CE yn llawn yn yr Undeb Ewropeaidd. |
| Yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) | Mae'r AEE, a sefydlwyd ar 1 Ionawr 1994, yn cynnwys 28 Aelod-wladwriaeth yr UE a Norwy, Gwlad yr Iâ a Liechtenstein mewn Marchnad Sengl. Mae'r cytundeb a sefydlodd yr AEE yn darparu ar gyfer yr hawl i bobl, nwyddau, gwasanaethau a chyfalaf gael symud yn rhydd (er bod y ddarpariaeth ar gyfer amaethyddiaeth a physgodfeydd yn fwy cyfyng) yn ogystal â pholisïau eraill yr UE gan gynnwys, ymysg pethau eraill, polisi cymdeithasol, diogelu defnyddwyr a'r amgylchedd. Yn gyffredinol, mae aelodau'r AEE yn gorfod mabwysiadu'r acquis communautaire yn y meysydd sy'n dod o dan gytundeb yr AEE. |
| Yr Undeb Ewropeaidd (UE) | Mae'r Undeb Ewropeaidd yn sefydliad rhyngwladol sy'n cynnwys 28 o wledydd Ewrop, gan gynnwys y DU. Mae'r UE â'i ddechreuadau yng Nghymuned Glo a Dur Ewrop, a sefydlwyd gan chwe gwladwriaeth Ewropeaidd ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Fodd bynnag, mae ei gylch gwaith wedi datblygu ac mae'n ehangach o lawer heddiw. Mae'r UE yn hwyluso cydweithredu rhwng ei Aelod-wladwriaethau ar amrywiaeth fawr o amcanion, yn amrywio o hwyluso masnach i ddiogelu'r amgylchedd, a diogelwch a datblygu mewn gwledydd tramor. Mae'r UE wedi creu Marchnad Sengl sy'n rhoi'r gallu i symud nwyddau, gwasanaethau, pobl a chyfalaf yn rhydd. |
| Y System Wybodaeth Cofnodion Troseddol Ewropeaidd (ECRIS) | System ar gyfer cyfnewid cofnodion troseddol a ddelir gan Aelod-wladwriaethau ag awdurdodau Aelod-wladwriaethau eraill. |
| Y Warant Arestio Ewropeaidd | Fframwaith cyfreithiol sy'n hwyluso estraddodi unigolion rhwng Aelod-wladwriaethau'r UE er mwyn eu herlyn neu i gyflawni dedfryd o garchar am gollfarn bresennol. |

Llywodraeth EM

ISBN 978-1-4741-3065-3

9 781474 130653